

Pecyn Dogfennau



Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth
Pensiwn Cymru
Uned Gwasanaethau Democraidd
Adran y Prif Weithredwr
Cyngor Sir Gar
Neuadd y Sir
Caerfyrddin SA31 1JP.

DYDD IAU, 9 GORFFENAF 2020

AT: HOLL AELODAU'R CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

**YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FNYNCHU CYFARFOD RHITHWIR
O'R CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN
CYMRU A GYNHELIR AM 10.00 YB, DYDD GWENER, 17EG GORFFENAF,
2020 ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA
SYDD YNGHLWM**

Wendy Walters

**PRIF WEITHREDWR
CYNGOR SIR GAR**

SYLWCH: BYDD Y CYFARFOD HWN YN CAEL EI FFILMIO I'W DDARLLEDU'N FYW NEU AR ÔL
I'R CYFARFOD ORFFEN. GALLAI'R LLUNIAU A'R SAIN A RECORDIR GAEL EU DEFNYDDIO AT
DDIBENION HYFFORDDI YN GYFFREDINOL

Swyddog Democraidd:	Jessica Laimann
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	01267 224178
E-bost:	JMLaimann@sirgar.gov.uk
Linc Gwe-Ddarlledu	https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-democracy/committees-meetings/virtual-council-meetings/#.XwcRm0F7nIV

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
8 AELOD**

(1 Aelod etholedig o bod Awdurdod Cyfansoddol)

CYNGOR SIR GAR

CYNGHORYDD ELWYN WILLIAMS

DINAS A SIR ABERTAWE

CYNGHORYDD CLIVE LLOYD

CYNGOR DINAS CAERDYDD

CYNGHORYDD CHRISTOPHER WEAVER

CYNGOR SIR Y FFLINT

CYNGHORYDD AARON SHOTTON

CYNGOR SIR GWYNEDD

CYNGHORYDD JOHN PUGHE ROBERTS

CYNGOR SIR POWYS

CYNGHORYDD PETER LEWIS

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

CYNGHORYDD MARK NORRIS

CYNGOR BWRDEISDREF SIROL TORFAEN.

CYNGHORYDD GLYN CARON

A G E N D A

1. **PENODI CADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN CALENDR NESAF**
2. **PENODI IS-GADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN CALENDR NESAF**
3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
4. **DATGANIADAU O FUDDIANT**
5. **TO LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 12 MAWRTH 2020** 5 - 10
6. **DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2019/20** 11 - 48

Nid oedd llythyr Swyddfa Archwilio Cymru ar gael mewn pryd i'w gyhoeddi.

Bydd y fersiwn Gymraeg yn cael ei chyhoeddi cyn gynted ag y daw i law.
7. **DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA** 49 - 72
8. **POLISI GWEITHDREFNAU A GWRTHDARO BUDDIANNAU** 73 - 86
9. **POLISI RISGIAU YN SGIL YR HINSAWDD** 87 - 96
10. **POLISI RISG A CHOFRESTR RISG PPC** 97 - 120
11. **DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR** 121 - 132
12. **ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 31 MAWRTH 2020** 133 - 182

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Nodwch, oherwydd gwall technegol, mae'r cofnodion drafft Cymraeg wedi'u hailgyhoeddi.

CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Iau, 12 Mawrth 2020

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd P. Lewis (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

H. Bateman, G. Caron, C. Lloyd, M. Norris, C. Weaver, J. Pughe Roberts a D.E. Williams

Roedd y Swyddogion a ganlyn yn bresennol:

C. Moore, Swyddog Adran 151 y Cydbwyllgor (Cyngor Sir Gâr)
L.R. Jones, Swyddog Monitro'r Cydbwyllgor (Cyngor Sir Gâr)
N. Aurelius, Prif Weithredwr Cynorthwyol – Adnoddau (Cyngor Sir Torfaen)
J. Dong, Prif Swyddog Trysorlys a Thechnegol (Dinas a Sir Abertawe)
D. Edwards, Pennaeth Cyllid (Cyngor Gwynedd)
C. Hurst, Rheolwr y Gronfa Bensiwn (Cyngor Sir Powys)
D. Fielder, Dirprwy Bennaeth Pensiynau (Cyngor Sir y Fflint)
C. Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (CoC)
A. Parnell, Rheolwr Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn (Cyngor Sir Gâr)
Y. Keitch, Prif Gyfrifydd (Rhondda Cynon Taf)
T. Williams, Uwch Swyddog Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Sir Gâr)
J. Laimann, Swyddog Gwasanaethau Democraidd Cynorthwyol (Cyngor Sir Gâr)

Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion:

Cyng. P. Jenkins, Is-gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau (Cyngor Gwynedd)
J. Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Sir Powys)
K. Cobb, Uwch Gyfrifydd (Dinas a Sir Abertawe)
G. Russell, Pennaeth Pensiynau (Cyngor Sir Torfaen)
A. Bull, Rheolwr Buddsoddiadau Pensiwn (Cyngor Sir Torfaen)

Hefyd yn bresennol:

Eamonn Gough, Link Asset Services
Karl Midl, Link Asset Services
Sasha Mandich, Russell Investments
John Wright, Hymans Robertson

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Aberhonddu, 11.00 yb - 12.15 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

G. Caron Aelod o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf;
Ei wraig yn Aelod Gohiriedig o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf;
Ei fab yng nghyfraith yn Aelod o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf



Nodwch, oherwydd gwall technegol, mae'r cofnodion drafft Cymraeg wedi'u hailgyhoeddi.

P. Lewis	Aelod o Gronfa Bensiwn Powys;
C. Lloyd	Aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe; Ei Dad yn aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe;
M. Norris	Aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf;
J. Pugh Roberts	Aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd;
E. Williams	Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed.

(Noder: Mae eithriad yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau sy'n galluogi i aelod sydd wedi'i benodi neu ei enwebu i gorff perthnasol gan ei awdurdod ddatgan y buddiant hwnnw ac i aros a chymryd rhan yn y cyfarfod).

3. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 9 RHAGFYR 2019

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2019, fel cofnod cywir.

4. CYNLLUN ARCHWILIO

Croesawodd y Cydbwyllgor Llywodraethu (y Cydbwyllgor) Mr Jason Garcia o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i'r cyfarfod, a oedd yno i gyflwyno'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2019/20. Bu iddo gynghori'r cydbwyllgor mai hon oedd y flwyddyn gyntaf lle byddai Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn cynhyrchu datganiadau ariannol llawn gan fod cyfrif y llynedd wedi bod yn is na'r trothwy o £2.5m ac felly dim ond llenwi ffurflen flynyddol fu'n rhaid gwneud. Nododd ymhellach fod y Cynllun Archwilio'n rhoi trosolwg o ddyletswyddau SAC, y risgiau archwilio, amcan o'r ffi archwilio, y tîm archwilio a'r amserlen. Ynghylch yr amserlen, roedd SAC yn cynllunio i roi barn ar ddatganiadau ariannol PPC erbyn 31 Gorffennaf 2020 a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y CLI ar 18 Mehefin 2020, er cymeradwyaeth. O ran y ffi Archwilio, cynghorwyd y Cydbwyllgor mai dim ond amcangyfrif allai gael ei ddarparu ar hyn o bryd a bod cyfanswm y ffi yn cynnwys dwy elfen: y gwaith a wnaed i gynnal archwiliad o'r datganiadau ariannol eu hunain a'r gwaith a wnaed i roi sicrwydd i archwilyr y cronfeydd pensiwn unigol. Cadarnhaodd Mr Garcia bod Lucy Herman wedi cael ei phenodi fel Uwch Archwilydd Arweiniol i'r Archwiliad.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Archwilio 2019/20.

5. DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

Rhoddodd Mr Parnell wybod i'r Pwyllgor fod gwaith ar sawl cynnig a chynllun wedi cael ei gwblhau dros y misoedd diwethaf ac y byddai'r dogfennau a ganlyn yn cael eu cyflwyno gerbron y cydbwyllgor heddiw, er cymeradwyaeth.

- Cynllun Busnes PPC
- Cynnig ar gyfer strwythur yr Is-gronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol
- Ymarferiad tendro Darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu

O ran y camau nesaf a'r blaenoriaethau, hysbysodd Mr Parnell fod gwaith yn bwrw yn ei flaen yn dda gyda'r is-grŵp marchnadoedd preifat ac y byddai Link a Russell



Nodwch, oherwydd gwall technegol, mae'r cofnodion drafft Cymraeg wedi'u hailgyhoeddi.

yn darparu diweddariad ar y cynnydd yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Roedd y camau nesaf a'r blaenoriaethau yn cynnwys datblygu polisi risg hinsawdd PPC a pholisi pleidleisio PPC, ymarferiad tendro ar gyfer penodi ymgynghorydd cyfreithiol oddi ar y Fframwaith Cenedlaethol, a chwblhau'r gwaith o gau cyfrifon diwedd blwyddyn 2019/20. Atodwyd cynllun gwaith wedi'i ddiweddarau.

O ran meysydd allweddol eraill, hysbyswyd y Cydbwyllgor y penodwyd Hymans Robertson fel Ymgynghorydd Trosolwg PPC a bod y Matrics Llywodraethu, y Cynllun Cyfathrebu a'r Cynllun Hyfforddi oll ar gael ar wefan PPC erbyn hyn.

O ran Cynrychiolaeth Aelodau'r Cynllun, hysbysodd Mr Moore y cydbwyllgor fod llythyr o ymateb, yn amlinellu cynrychiolaeth PPC a'r trefniadau ymgysylltu wedi cael ei anfon at Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun. Roedd y llythyr wedi cael ei gylchredeg i gadeiryddion yr holl Bwyllgorau Pensiynau ac fe awgrymwyd y dylid ystyried opsiynau ar gyfer ehangu'r gynrychiolaeth yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor ymhellach. Hysbyswyd y Cydbwyllgor y byddai angen ystyried trefniadau llywodraethu'r Cydbwyllgor a'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau yn y broses hon a byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau gael eu cytuno gan bob un o'r awdurdodau cyfansawdd.

Mewn ymateb i ymholiad, hysbyswyd y Cydbwyllgor y byddai adroddiad ar gynrychiolaeth aelodau'r cynllun a'r goblygiadau cyfreithiol posib yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD derbyn cyflwyniad yr awdurdod lletya.

6. CYNLLUN HYFFORDDIANT PPC 2020/21

Ystyriodd y Cydbwyllgor Gynllun Hyfforddiant PPC ar gyfer 2020/21. Hysbyswyd yr aelodau fod y cynllun hyfforddiant wedi cael ei ddatblygu ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd i holiadur gofynion hyfforddiant a gylchredwyd i holl aelodau'r Cydbwyllgor a'r Gweithgor Swyddogion (GS). Dyfeisiwyd yr hyfforddiant i ategu darpariaethau hyfforddiant yr awdurdodau cyfansawdd. Roedd wedi'i anelu'n bennaf at anghenion hyfforddiant y Cydbwyllgor a'r GS, fodd bynnag, byddai modd ei ymestyn i aelodau pwyllgorau a byrddau pensiwn ar ddisgresiwn yr awdurdodau cyfansawdd.

Mewn ymateb i ymholiad, cynghorwyd yr aelodau y byddai'r sesiynau hyfforddiant yn cael eu hamserlennu ar yr un pryd â'r cyfarfodydd Cydbwyllgor ffurfiol, lle bo modd. Byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfodydd y GS.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Hyfforddiant PPC 2020/21.

7. CYNLLUN BUSNES PPC

Ystyriodd y Cydbwyllgor Gynllun Busnes PPC. Cynghorwyd y Cydbwyllgor mai diben y Cynllun Busnes oedd egluro cefndir a strwythur llywodraethu PPC, amlinellu blaenoriaethau ac amcanion, cyflwyno polisiâu a chynlluniau PPC, amlinellu'r gyllideb ariannol a chrynhoi Amcanion Buddsoddi a Pherfformiad PPC.



Nodwch, oherwydd gwall technegol, mae'r cofnodion drafft Cymraeg wedi'u hailgyhoeddi.

Cynghorwyd y cyfarfod, wedi cymeradwyaeth y Cydbwyllgor, y byddai'r Cynllun Busnes yn cael ei anfon i bob Awdurdod Cyfansawdd i'w gymeradwyo, yn unol ag Adran 6 y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

O ran y gyllideb ariannol, rhoddwyd gwybod i'r aelodau y gallai ffoedd y rheolwr buddsoddi newid yn sgil gwerth symudol y farchnad a byddai unrhyw amrywiadau yn cael eu hegluro wrth symud ymlaen.

Mewn ymateb i ymholiad, cynghorwyd yr aelodau y byddai cwblhau cofrestr risg yn gynwysedig yn y cynllun gwaith.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Busnes PPC.

8. DIWEDDARIAD LINK/RUSSELL

Cafodd y Cydbwyllgor gyflwyniad gan Link a Russell ar gynnydd PPC o ran daliadau presennol y gronfa, y cynnydd ar lansio'r gronfa a Phrotocol Ymgysylltu Link/PPC.

O ran Incwm Sefydlog (Tranche 3), rhoddwyd gwybod i'r aelodau y derbyniwyd cymeradwyaeth gan yr FCA ar 10 Mawrth 2020 a bod cynllun trosglwyddo'n cael ei ddatblygu ar gyfer dyddiau lansio ar 20 a 23 Ebrill 2020.

O ran Marchnadoedd Datblygol (Tranche 4), cynghorwyd y Cydbwyllgor fod disgwyl i'r amserlen ar gyfer cymeradwyo a sefydlu fod yn hwy na'r is-gronfeydd blaenorol, ac mai'r dyddiad lansio cynharaf bosib fyddai mis Rhagfyr 2020.

Yn ogystal, cynghorwyd yr aelodau, yn sgil y pryderon am Covid-19, bod Link a Russell yn rhoi mesurau wrth gefn yn eu lle i sicrhau y byddai modd iddynt barhau i weithredu pe bai swyddfeydd yn cael eu cloi a chyfyngiadau ar deithio.

Mewn ymateb i ymholiad am lansiad yr Is-gronfeydd Incwm Sefydlog, cynghorwyd y Cydbwyllgor fod perfformiad y gronfa'n cael ei fonitro'n ddyddiol i sicrhau bod amodau'r farchnad yn addas ar gyfer eu lansio ar 20 a 23 Ebrill 2020. Roedd Link/Russell yn gweithio'r agos â'r Awdurdod Lletya a byddai Aelodau'n medru cael diweddariadau rheolaidd.

PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniad.

9. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 31 RHAGFYR 2019

Cafodd y Cydbwyllgor gyflwyniad ar yr adroddiadau perfformiad ar gyfer y Gronfa Twf Byd-eang a'r Gronfa Cyfleoedd Byd-eang a'r Gronfa Cyfleoedd y DU fel ar 31 Rhagfyr 2019. Cynghorwyd y Pwyllgor fod cyfanswm y tair cronfa fymryn o dan £5.3bn a bod y cronfeydd wedi perfformio'n well na'u meincnodau, a hynny o 0.64%, 1.42% a 3.90% (ITD, gros o ffoedd) yn eu trefn.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiadau perfformiad ar gyfer y Gronfa Twf Byd-eang, y Gronfa Cyfleoedd Byd-eang a'r Gronfa Cyfleoedd y DU fel ar 31 Rhagfyr 2019.



10. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau a ganlyn gan fod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

11. PCC DARPARWR GWASANAETH PLEIDLEISIO AC YMGYSYLLTU

Ar ôl defnyddio'r prawf budd y cyhoedd, **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati yng Nghofnod 10 uchod, y dylid ystyried y mater hwn yn breifat gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, gan y byddai datgelu'r cyflwyniad yn debygol o achosi niwed ariannol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru drwy niweidio'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt a rhai yn y dyfodol.

Ystyriodd y Cydbwyllgor adroddiad ar Ddarparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC.

PENDERFYNWYD penodi Bidiwr 5 i fod yn Ddarparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur a chwblhau Cytundeb y Darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu yn derfynol.

12. IS-GRONFA ECWITI MARCHNADOEDD DATBLYGOL

Ar ôl defnyddio'r prawf budd y cyhoedd, **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati yng Nghofnod 10 uchod, y dylid ystyried y mater hwn yn breifat gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, gan y byddai datgelu'r cyflwyniad yn debygol o achosi niwed ariannol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru drwy niweidio'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt a rhai yn y dyfodol.

Ystyriodd y Cydbwyllgor adroddiad ar strwythur yr Is-gronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo strwythur arfaethedig yr Is-gronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol.

CADEIRYDD

DYDDIAD



Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 17 GORFFENAF 2020

PWNC

DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2019/20

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

- Derbyn llythyr Archwilio Cymru ynghylch Datganiad Blynyddol y PPC 2019/20
- Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol Archwiliedig ar gyfer 2019/20
- Nodi'r Datganiad o Gyfrifon Heb ei Archwilio ar gyfer 2019/20

RHESYMAU:

Mae angen cwblhau Datganiad Blynyddol ar gyfer 2019/20.

Mae adrannau Datganiadau Cyfrifyddu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Datganiad Blynyddol wedi'u paratoi gan yr Awdurdod Lletya ac mae Adran Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnal Adolygiad Archwilio Mewnol. Mae'r Datganiad Blynyddol wedi cael ei archwilio gan Archwilio Cymru ac amgaeir eu llythyr.

Mae angen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol.

Mae'r Awdurdod Lletya hefyd wedi llunio Datganiad o Gyfrifon i Bartneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2019/20. Mae hwn er gwybodaeth yn unig ac nid oes angen iddo gael ei archwilio.

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Caerfyrddin

Rhif Ffôn: 01267 224160

E-bost: CMoore@sirgar.gov.uk

**CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

DYDDIAD 17 GORFFENAF 2020

DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2019/20

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Ar gyfer cydbwyllgorau ag incwm a gwariant sy'n is na £2.5 miliwn, rhaid i gyfrifon gael eu paratoi ar ffurf datganiad blynyddol. Costau Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2019/20 yw £299,000.

Caiff yr Adroddiad Blynyddol ei rannu'n adrannau fel a ganlyn:

1. Datganiad Cyfrifyddu 2019/20 – gan gynnwys datganiad o incwm a gwariant / derbynebaw a thaliadau a datganiad o falansau
2. Datganiad Llywodraethu Blynyddol
3. Cymeradwyaeth ac ardystiad gan y pwyllgor
4. Tystysgrif ac adroddiad archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru
5. Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol

Mae adrannau 1 a 2 uchod wedi cael eu cwblhau gan yr Awdurdod Lletya yn unol ag arferion dilys fel a nodir yn y Canllaw i Ymarferwyr. Mae adran 5 wedi cael ei chwblhau gan Adran Archwilio Mewnol yr Awdurdod Lletya. Mae'r Datganiad Blynyddol wedi cael ei harchwilio gan Archwilio Cymru.

Mae'r Awdurdod Lletya hefyd wedi paratoi Datganiad o Gyfrifon i Bartneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2019/20. Nid yw'r Datganiad yn ofyniad statudol ac ni fydd yn cael ei archwilio. Mae wedi cael ei baratoi er gwybodaeth yn unig, er mwyn ategu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldebau DIM	Cyfreithiol OES	Cyllid OES	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM
Cyfreithiol Cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.				
Cyllid Cost net gweithgareddau Partneriaeth Pensiynau Cymru oedd £299,000, sef tâl a gafodd ei ailgodi i'r wyth Cronfa Bensiwn yng Nghymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma.

**Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod y Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld / DOLEN GWEFAN
Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014		Adran Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Chris Moore
Director of Corporate Services
Carmarthenshire County Council County Hall
Carmarthen
SA31 1JP

Reference: WPP-19/20

Date issued: 06/07/20

Dear Chris,

Wales Pension Partnership Joint Committee 2019-20 Annual Return

In accordance with the requirements of Section 12 and Section 14 of the Public Audit (Wales) Act 2004 I am giving my report on the Wales Pension Partnership joint committee annual return for the year ended 31 March 2020.

I have undertaken our work in accordance with the specified procedures issued by the Auditor General for Wales. In summary these procedures require us to consider whether the annual statement of accounts:

- has been prepared on a reasonable basis (for example, the figures agree to the underlying records upon which they have been prepared and are consistent with transactions recorded in the statutory accounts of the constituent local authorities for the same reporting period); and
- casts correctly.

Audit report on the annual statement of accounts relating to Wales Pension Partnership joint committee for the period ending 31 March 2020:

Subject to the following two actions being completed satisfactorily we will be able to certify the joint committee's annual return and issue our notice of completion of the audit.

- Approval of the 2019-20 statement of accounts by the joint committee which is due to be done at its meeting on 17th July 2020.
- On the 1 September 2020, local government electors may exercise their rights under sections 30 and 31 of Public Audit (Wales) Act 2004 to question the Auditor General about or make objections to the joint committee's accounts for the year ended 31 March 2020. Should any issues arise from this process we would need to consider these before being able to certify the joint committee's annual return.

Once these actions are completed to our satisfaction, we will be able to confirm the following:

“On the basis of our review and in our opinion, the information contained in the Annual Return is in accordance with proper practices and no matters have come to our attention giving cause for concern that relevant legislation and regulatory requirements have not been met.”

Other matters

We have no other matters we need to bring to your attention.

Yours sincerely

Ann Marie Harkin

for and on behalf of Adrian Crompton, Auditor General for Wales


Cyrff llywodraeth leol perthnasol llai yng Nghymru Ffurflen Flynyddol i'r Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020

Y BROSES O RAN CYFRIFON AC ARCHWILIO

Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru lunio eu cyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth a sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r cyfrifon hynny. Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i gyrff llywodraeth leol llai h.y. y rhai hynny ag incwm a gwariant sy'n llai na £2.5 miliwn baratoi eu cyfrifon yn unol â'r arferion priodol.

Nodir yr arferion priodol i is gyd-bwyllgorau sydd ag incwm a gwariant yn llai na £2.5 miliwn yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol 'Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide' (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol. Mae'r ffurflen flynyddol hon yn bodloni gofynion y Canllaw i Ymarferwyr.

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.



Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a chwblhewch bob adran a amlygir mewn coch gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

CYMERADWYO'R FFURFLEN FLYNYDDOL

Mae dau flwch i'w hardystio a'u cymeradwyo gan y corff. Mae'r ail flwch yn ofynnol dim ond os oes angen diwygio'r ffurflen flynyddol o ganlyniad i'r archwiliad. Dylech lenwi'r blwch uchaf yn unig cyn anfon y ffurflen at yr archwilydd.

Mae'n rhaid i'r pwyllgor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol CYN i'r cyfrifon a'r dogfennau ategol fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus o dan adran 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fydd yn cwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. NI CHAIFF y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol, y Cadeirydd na'r archwilydd mewnol eu cwblhau.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd i'r corff at ddibenion cyhoeddi ac arddangos y datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Datganiadau cyfrifyddu 2019-20 ar gyfer:

Enw'r corff:

Partneriaeth Pensiwn Cymru

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2019 (£)	31 Mawrth 2020 (£)	Dylech dalgrynnu'r holl ffigurau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau			
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	0	0	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	158,299	299,062	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a referiw.
4. (-) Costau staff	-43,111	-56,138	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	-115,188	-242,924	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod llai costau staff (Llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (Llinell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).
Datganiad o falansau			
8. (+) Dyledwyr a balansau stoc	138,511	367,489	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	-127,579	-223,716	Pob cyfrif: Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc.
10. (-) Credydwyr	-10,932	-143,773	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	0	Dylal cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod: Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	0	0	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthygiad o drydydd partion ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

Datganiad Llywodraethu Blynyddol


Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Pwyllgor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Do	Naddo*		
<p>1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a • pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. 	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y rhagnodir gan y gyfraith.	6, 12
<p>2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
<p>3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
<p>4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad.	6, 23
<p>5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol.	6, 9
<p>6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
<p>7. Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
<p>8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

* Ar ddalen ar wahân, rhwch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor

Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.	Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: Cyfarfod PPC – 17 Gorffennaf 2020
Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: 	Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:
Enw: Chris Moore	Enw:
Dyddiad: 15/6/20	Dyddiad:

Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad gan y Pwyllgor (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad)

Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.	Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: Nodwch y cyfeirnod cofnod a dyddiad y cyfarfod
Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: angen llofnod	Llofnod Cadeirydd y cyfarfod: angen llofnod
Enw: angen enw	Enw: angen enw
Dyddiad: dd/mm/yyyy	Dyddiad: dd/mm/yyyy

Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ganddo. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ar gyfer:

Adroddiad yr archwilydd allanol

[Ac eithrio'r materion a nodir isod]* Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

[[Mae'r materion hyn yn ogystal â]* Materion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn yr ydym yn eu dwyn i sylw'r corff a'n hargymhellion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff dyddiedig _____.]

Materion eraill ac argymhellion

Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r corff ymdrin â hwy.

(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)

Enw'r archwilydd allanol:

Llofnod yr archwilydd allanol:

Dyddiad:

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

* Dileer fel y bo'n briodol.

Adroddiad archwilio mewnol blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Caiff cofnodion cyfrifyddu eu diweddarau a'u cynnal yn ami yn ystod y flwyddyn. Caiff incwm a gwariant eu cofnodi drwy system rheolaeth ariannol yr awdurdod sy'n golygu bod cofnodion digonol o gyfrifon. Daeth adolygiad o'r brif system gyfrifyddu i'r casgliad ei fod yn gweithredu i safon dda. Paratwir cyfrifon yr awdurdod yn unol â Cod ymarfer 2014 ar gyfrifyddu awdurdodau lleol ac felly maent yn gywir fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau.
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Wrth brofi'r Trafodion, daethpwyd i'r casgliad bod pobeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau ariannol yn ôl y gofyn, gyda dogfennau i gefnogi pobeth. Ni nodwyd unrhyw faterion.
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mae'r risgiau i'r awdurdod wedi'u nodi a chaiff y rhain eu monitro'n gyfnodol drwy'r gofrestr risg. Ni aseswyd unrhyw risgiau a oedd o bwys i'r bartneriaeth o ran cyflawni eu hamcanion.
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin broses monitro cyllideb ar waith sy'n cynnwys partneriaeth pensiynau Cymru. Nododd adolygiad o'r broses hon a'r ffurflenni monitro cyllideb fod prosesau'n foddhaol.
5. Cafodd yr incwm disgwylidig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Yr unig incwm fydd yr ad-daliad i'r awdurdodau eraill am weinyddu'r Gronfa.
6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cynhyrwyd gwariant a	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Nid oes cyfrif arian mân yn bodoli sy'n cynnwys partneriaeth pensiynau Cymru.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynwys**	
rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.					
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	☺	☺	☺	☺	<p>Telir un aelod o staff o bartnariaeth pensiwn Cymru sy'n cael ei dalu drwy gyflogres Cyngor Sir Caerfyrddin. Gwneir taliadau am amser 2 uwch swyddog arall ar sail pro rata. Cynhaliwyd adolygiad o'r system gyflogres ac ystyrir bod y trefniadau ar gyfer talu cyflogau yn dderbyniol. Ni nodwyd unrhyw wallau mewn perthynas â chostau staffio</p>
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	☺	☺	☺	☺	<p>Mae buddsoddiadau'n cael eu gwneud ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei gyfanrwydd. Canfu'r adolygiad o fuddsoddiadau fod gweithdrefnau'n gweithredu i safon uchel. Cedwir cofrestr asedau ar gyfer yr awdurdod, ond nid oes unrhyw asedau sy'n ymwneud â phartneriaeth pensiwn Cymru.</p>

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Cynhaliwyd adolygiad o'r cysoniadau banc ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin fel rhan o'r cynllun archwilio, a chanfuwyd bod y gweithdrefnau'n foddhaol. Mae partneriaeth pensiynau Cymru yn rhan o'r cysoniadau a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin.
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Caiff datganiadau cyfrifyddu eu paratoi yn unol â chod ymarfer 2014 o arferion cyfrifyddu awdurdodau lleol

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
11. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
12. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
13. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

Cadarnhau archwiliad mewnol

Rwyf/Rydym yn cadarnhau nad wyf i/rydym ni, fel archwilydd mewnol y Pwyllgor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y bliynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: **Caroline Powell**

Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: *Caroline Powell*

Dyddiad: **30-06-2020**

Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol

- Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth baratoi'r ffurflen flynyddol hon. Nodir yr arferion priodol yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn, h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro. Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol. Gofynnwch i'ch archwilydd am gopi electronig o'r ffurflen os oes angen un.
- Gofynnwch i ail berson, y Cadeirydd neu aelod efallai, adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
- Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn gywir, bod y balans a gariwyd ymlaen o'r fwyddyn flaenorol (llinell 7 o 2019) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y fwyddyn gyfredol (llinell 1 o 2020). Esboniwch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau 2019 ar y ffurflen flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn ffurflen flynyddol y llynedd.
- Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae'r archwilydd allanol am wybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
- Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r copi o'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich holl gyfrifon banc a balansau ariannol. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich Pwyllgor unrhyw fuddsoddiadau byrdymor, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu gyfateb eich cysoniad banc i linell 9 yn y datganiadau cyfrifyddu. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Mae'n ofynnol i bob pwyllgor anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol, i ategu'r honiadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hyd yn oed os nad ydych chi wedi gwneud hynny yn flaenorol. Bydd eich archwilydd yn dweud wrthyhch pa wybodaeth y mae angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon copïau o'r cofnodion gwreiddiol (a ardystiwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd fel copïau cywir) at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
- Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
- Os bydd yn rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nas gofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc anghyflawn neu esboniad o amrywiannau neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffioedd ychwanegol amdanynt.
- Dylech ateb pob goheblaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon. Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad.
- Noder, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn ei hanfon at yr archwilydd.

Rhestr wirio cwblhau - Bydd ateb 'Naddo' yn golygu nad ydych chi bosibl wedi bodloni'r gofynion		Cwblhawyd?	
Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol		Do	Naddo
Cyfrifon	A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol rhwng y llynedd ac eleni? A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2020 yn gyson â Llinell 9?		
Cymeradwyo	A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rheoliad 15 (1)) erbyn 15 Mehefin 2020 fan bellaf? A yw'r corff wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu cyn 15 Mehefin 2020 ac a yw Adran 3 wedi'i llofnodi a'r dyddiad wedi'i nodi gan yr unigolyn a oedd yn cadeirio'r cyfarfod pan roddwyd y gymeradwyaeth?		
Pob adran	A yw'r holl flychau pinc yn y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu llenwi ac esboniadau wedi'u rhoi pan fo angen? A yw'r holl wybodaeth y gofynnodd yr archwilydd allanol amdani wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Cyfeiriwch at eich hysbysiad o archwiliad ac unrhyw atodlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol.		
Os caiff y cyfrifon eu diwygio ar ôl derbyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar faterion sy'n codi		Do	Naddo
Cyfrifon	A yw'r datganiadau cyfrifyddu sydd wedi eu diwygio wedi'u cymeradwyo ac Adran 3 wedi'i llofnodi eto a'r dyddiad wedi'i nodi eto fel tystiolaeth o gymeradwyaeth y Bwrdd i'r diwygiadau cyn eu hailgyflwyno i'r archwilydd?		

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
DATGANIAD CYFRIFON
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN
31 MAWRTH 2020

CHRIS MOORE FCCA
CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CORFFORAETHOL
NEUADD Y SIR
CAERFYRDDIN
SA31 1JP

Cynnwys

1. Adroddiad Naratif	Tudalen 1
2. Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon	Tudalen 4
3. Datganiad Llywodraethu Blynyddol	Tudalen 5
4. Datganiadau Ariannol	Tudalen 14
• Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)	
• Mantolen	
• Datganiad Llif Arian	
5. Nodiadau ar y cyfrifon	Tudalen 15
6. Rhestr Termau	Tudalen 19

1 ADRODDIAD NARATIF

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion ariannol Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 a'i sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2020.

1.1 Trosolwg

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn 2017, ac mae'n drefniant cydweithredol rhwng yr wyth o gronfeydd Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol sy'n weithredol drwy Gymru gyfan, gyda Chyngor Sir Gâr fel Awdurdod Cynnal. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn un o'r wyth cronfa Pensiwn Llywodraeth Leol genedlaethol.

Amlinellir amcanion a chredoau'r Bartneriaeth isod:

Amcanion

- Darparu trefniadau cyfuno sy'n galluogi'r cronfeydd unigol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (lle bo hynny'n ymarferol).
- Cyflawni arbedion cost go iawn i'r cronfeydd sy'n rhan o'r Bartneriaeth, gan wella neu gynnal perfformiad ein buddsoddiadau ar ôl ffioedd.
- Sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn er mwyn goruchwylio gweithgareddau'r Gronfa Gyfun.
- Gweithio'n agos gyda chronfeydd cyfun eraill er mwyn ymchwilio i'r buddion y gallai'r holl randdeiliaid yng Nghymru eu hennill o ddulliau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib.
- Darparu fframwaith buddsoddiadau sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i randdeiliaid allweddol y Bartneriaeth, sef yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i gyflawni'r canlyniadau gorau i Aelodau a Chyflogwyr eu Cynlluniau.

Credoau

- Swyddogaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru yw hwyluso a darparu plattform cyd-fuddsoddi sy'n gweithredu er budd yr Awdurdodau Cyfansoddol.
- Dylai llywodraethu da arwain at ganlyniadau gwell i randdeiliaid y Bartneriaeth.
- Mae cydweithio mewnol rhwng yr Awdurdod Cynnal a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y Bartneriaeth. Gallai cydweithio allanol fod yn fuddiol hefyd wrth ddarparu arbedion cost a gwell canlyniadau i randdeiliaid.
- Dylai Buddsoddi Cyfrifol, ynghyd ag ystyried materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a'u rheoli ar sail tystiolaeth, arwain at well canlyniadau i randdeiliaid y Bartneriaeth.
- Mae cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y Bartneriaeth.
- Gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd gost-effeithiol o wella adnoddau'r Bartneriaeth, ei galluoedd a'i harbenigedd.
- Bydd tryloywder o ran ffioedd a chostau yn cynorthwyo gyda phenderfyniadau ac yn gwella'r canlyniadau i randdeiliaid.
- Bydd dysgu, arloesi a datblygu parhaus yn cynorthwyo'r Bartneriaeth a'i Hawdurdodau Cyfansoddol i esblygu.

- Bydd ymagwedd hyblyg i strwythur cyd-fuddsoddi a dulliau gweithredu'r Bartneriaeth yn galluogi cronfa cyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth i addasu yn y dyfodol, a dal i fodloni gofynion ei randdeiliaid.

Cynhwysir manylion Strwythur Llywodraethu'r Bartneriaeth yn Adran 3 - Datganiad Llywodraethu Blyneddol.

1.2 Cyfrifon

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2019/20 ac yn cynnwys y Datganiadau Ariannol a ganlyn:

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Y Fantolen

Mae hon yn dangos asedau a rhwymedigaethau'r Bartneriaeth fel ar 31 Mawrth 2020.

Y Datganiad Llif Arian

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sydd gyfwerth gan y Bartneriaeth yn ystod y cyfnod adrodd.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan y Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu (Nodyn 6.1 - Nodiadau ar y Cyfrifon).

1.3 Cyllideb

Mae'r tabl isod yn dangos gwir wariant y Bartneriaeth yn ystod 2019/20 o'i gymharu â'r gyllideb gymeradwy am y flwyddyn, yn manylu ar unrhyw amrywiannau. Cymeradwywyd y Gyllideb gan y Cydbwyllgor Llywodraethu yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu ar 27 Mawrth 2019.

Partneriaeth Pensiwn Cymru 2019/20	Nodyn	Cyllideb £	Gwir £	Amrywiant £
Gwariant Gros				
Costau staff	1	76,000	56,138	19,862
Costau Awdurdod Cynnal	2	50,000	27,750	22,250
Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Cynnal	3	75,000	75,000	0
Cyfanswm Awdurdod Cynnal Gwariant Gros	4	201,000	158,888	42,112
Ymgynghorwyr Allanol	5	120,000	140,173	(20,173)
Cyfanswm Gwariant Gros		321,000	299,061	21,939

Nodiadau:

1. Mae hyn yn cynnwys staff a gyflogwyd i weithio ar y Bartneriaeth yn unig. Mae'r Gyllideb yn cynnwys Uwch Swyddog Gwasanaethau Ariannol (1fte) a Chyfrifydd Cynorthwyol (1fte am 6 mis)
2. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau teithio, costau cynhaliaeth a chyfarfodydd, gweinyddiaeth, deunydd swyddfa a nwyddau treuliadwy gweithredol, gwefan (costau datblygu a pharhaus), ffioedd archwilio a gwasanaethau cyfieithu.
3. Taliadau canolog a ail-godir gan yr Awdurdod Cynnal yw'r rhain ac maent yn cynnwys costau a ddosberthir ar gyfer y Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro, Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn, Swyddog Gwasanaethau Democraidd a hefyd Eiddo a gwasanaethau cefnogi AD.
4. Ariennir cyfanswm gwariant yr Awdurdod Cynnal gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.
5. Mae Ymgynghorwyr Allanol yn cynnwys Ymgynghorwyr Buddsoddi a Chyfreithiol, mae'r costau hyn hefyd yn cael eu hariannu gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn

Roedd yna danwariant o £22k am y flwyddyn, a oedd yn bennaf oherwydd:

- Costau staff - Cyfrifydd Cynorthwyol heb ei benodi (tanwariant o £19k)
- Costau Awdurdod Cynnal - gwir gost o ddatblygu gwefan Partneriaeth Pensiwn Cymru oedd £3,759 yn erbyn cyllideb o £30,000 (tanwariant o 26k)
- Ymgynghorwyr Allanol - gwnaethpwyd darn ychwanegol o waith gan yr Ymgynghorwyr Buddsoddi mewn perthynas â thrawsnewidiad *UK Equity*, nad oedd yn y gyllideb wreiddiol, cafodd y gost hon ei hail-godi ar y Cronfeydd Pensiwn o fewn is-gronfa *UK Opportunities* (tanwariant o £20k).

1.4 Hinsawdd Economaidd Bresennol

O ran yr hinsawdd economaidd bresennol mewn perthynas â COVID-19, mae hyn yn cael effaith andwyol ar werth net yr asedau a ddelir ar hyn o bryd yn y gronfa ac ar anwadalwch eu hadenillion. Mae'r maes hwn yn cael ei reoli'n ofalus gyda chyswllt a diweddariadau rheolaidd yn cael eu derbyn gan y Gweithredwr. Rhoddir y diweddariadau hyn i swyddogion y Gronfa Bensiwn ac aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu.

Bwriedir yn awr i'r is-gronfeydd Incwm Sefydlog a oedd fod i gael eu lansio ym mis Ebrill 2020 fynd ymlaen ym mis Gorffennaf 2020.

1.5 Gwybodaeth Bellach

Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â'r cyfrifon ar gael gan y Rheolwr Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn, Adran Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP.

2 DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

Cyfrifoldebau'r Cydbwyllgor Llywodraethu

Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor Llywodraethu:

- Wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Y swyddog hwnnw yw Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol o fewn Cyngor Sir Gâr (yr Awdurdod Cynnal).
- Rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn unol â'r arferion cyfrifyddu priodol fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi:

- Dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus;
- Cydymffurfio gyda'r Cod;
- Cadw cofnodion cyfrifyddu priodol ac amserol a oedd yn gyfredol;
- Cymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll ac afreoleidd-dra arall.

Ardystio Cyfrifon

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon ar dudalen 14 i 18 yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Partneriaeth Pensiwn Cymru fel ar 31 Mawrth 2020 a'i hincwm a'i gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.



Chris Moore FCCA

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

Dyddiedig: 12 Mehefin 2020

3 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

3.1 Sgôp Cyfrifoldeb

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn gyfrifol am sicrhau bod ei busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Rhaid sicrhau hefyd fod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio'n economaidd, effeithlon ac effeithiol ac i sicrhau gwelliant a darpariaeth barhaus yn hyn o beth.

Mae'r Bartneriaeth yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle i Lywodraethu ei faterion ac i hwyluso arfer ei swyddogaethau'n effeithiol sy'n cynnwys cael trefniadau priodol i reoli risg.

Mae'r Bartneriaeth yn manylu ar sut mae'n ymdrin â phob agwedd o Lywodraethu drwy ei Gytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA) sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei Haelodau, Pwyllgorau a'i Swyddogion. Mae'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau sy'n ystyried y ddeddfwriaeth bresennol berthnasol.

3.2 Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau, prosesau, diwylliannau a'r credoau sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Bartneriaeth. Mae'n galluogi i'r Bartneriaeth fonitro cyrhaeddiad ei hamcanion strategol ac i ystyried p'un a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarpariaeth o wasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Mae'r system o Reolaeth Fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac wedi'i dylunio i reoli risg i lefel resymol. Ei nod yw adnabod a blaenoriaethu'r risgiau allai rwystro gallu'r Bartneriaeth i gyflawni ei pholisïau, ei nodau a'i hamcanion. Mae'n gwerthuso tebygolrwydd ac effaith gwireddu'r risg ac yn rheoli risgiau unigol yn briodol.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn cydnabod polisïau a phrosesau sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / SOLACE - *'Delivering Good Governance in Local Government'* (Nodiadau Canllaw ar gyfer Awdurdodau Cymreig Fersiwn 2016 - Cyhoeddwyd ym mis Medi 2016). Mae'r fframwaith hwn yn adnabod saith o brif egwyddorion llywodraethu da sy'n cyd-fynd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro sut mae'r Bartneriaeth wedi cydymffurfio ag amryw elfennau o'r Fframwaith Llywodraethu.

3.3 Yr Amgylchedd Llywodraethu


Mae'r fframwaith Llywodraethu yn cynnwys saith egwyddor sylfaenol a weithredir er mwyn ategu safonau uchel o hyder ac ymddiriedaeth yn y modd mae'r bartneriaeth yn cael ei llywodraethu a'i gweithredu. Gwneir hynny wrth gynnal ymrwymiad i welliant parhaus ar sail gyson drwy broses o werthuso ac adolygu.

Mae Fframwaith Llywodraethu CIPFA/SOLACE yn amlinellu saith egwyddor sylfaenol Llywodraethu Corfforaethol. Dyma 'Saith CIPFA':

1. Uniondeb a Gwerthoedd - Ymddwyn gydag uniondeb, yn dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r gyfraith.
2. Didwylledd ac ymgysylltu - Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid.
3. Gwneud gwahaniaeth - Diffinio deilliannau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.
4. Gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd - Pennu'r ymyraethau sydd eu hangen er mwyn gwneud y gorau wrth gyflawni'r deilliannau bwriadedig.
5. Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi - Datblygu capasiti a gallu arweinyddiaeth ac unigolion.
6. Rheoli risgiau, perfformiad a chyllid - Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
7. Tryloywder ac atebolrwydd da - Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn cyflawni atebolrwydd effeithiol.

3.4 Y Strwythur Llywodraethu

Mae'r diagram isod yn dangos y strwythur llywodraethu a sefydlwyd gan y Bartneriaeth



3.4.1 Awdurdodau Cyfansoddol

Dyma Awdurdod Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen

Dyma Awdurdodau Cyfansoddol yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru, sy'n ffurfio Partneriaeth Pensiwn Cymru. Cyngor Sir Gâr yw'r Awdurdod Cynnal.

Er bod Cydbwyllgor Llywodraethu wedi cael ei sefydlu i wneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau ar ran y Partneriaeth, mae nifer o faterion / penderfyniadau wedi'u cadw yn ôl ac mae'n rhaid eu trafod gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol am gymeradwyaeth, manylir arnynt yn Atodlen 2 y Cytundeb Rhwng Awdurdodu.

3.4.2 Cydbwyllgor Llywodraethu

Cafodd Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru ei ffurfioli ym mis Mehefin 2017 ac maent wedi cyfarfod yn aml ers hynny. Mae'r CBLI yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn yn swyddfa un o'r Awdurdodau Cyfansoddol ac mae pob cyfarfod yn cael ei we ddarlledu i'r cyhoedd. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn sicrhau cyfarfodydd agored a thryloyw ac yn cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion a gwe ddarllediadau, lle bo'n briodol.

Mae'r CBLI yn cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Rhaid i'r aelod etholedig fod yn aelod o'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw ac yn aelod o Bwyllgor Pensiwnau'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cylchdroi bob blwyddyn. Y cadeirydd presennol yw'r Cynghorydd Peter Lewis - Cyngor Sir Powys (Cronfa Bensiwn Powys) a'r is-gadeirydd presennol yw'r Cynghorydd Glyn Caron - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)).

Mae'r CBLI yn gyfrifol am oruchwylio'r dasg o gyfuno buddsoddiadau'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Amlinellir y casgliad llawn o gyfrifoldebau'r CBLI yn Atodlen 3 (Materion CBLI) ac Atodlen 4 (Cylch Gorchwyl y CBLI) y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

3.4.3 Gweithgor Swyddogion

Mae Gweithgor Swyddogion (GS) Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cael ei sefydlu er diben darparu cefnogaeth a chyngor i'r Cydbwyllgor Llywodraethu. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis gyda chyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal yn ôl yr angen.

Mae'r GS yn cynnwys ymarferwyr a swyddogion Adran 151 o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol, *Hymans Robertson* (ymgyngorwyr allanol y Bartneriaeth) yn ogystal â *Link Fund Solutions* a *Russell Investments*. Cadeirydd y GC yw Chris Moore, Swyddog Adran 151 o Gyngor Sir Gâr (Awdurdod Cynnal). Amlinellir cylch gwaith y GS yn Atodlen 8 y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

3.4.4 Awdurdod Cynnal

Mae Cyngor Sir Gâr wedi cael ei benodi'n Awdurdod Cynnal ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn darparu'r gefnogaeth weinyddol a'r gefnogaeth ysgrifenyddol i'r CBLI ac yn cysylltu o ddydd i ddydd gyda'r gweithredwr ar ran yr holl gronfeydd CPLIL yng Nghymru. Amlinellir rôl yr Awdurdod Cynnal yn Adran 6 y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

Swyddog Monitro

Mae'r Swyddog Monitro (Pennaeth Gweinyddiaeth a Chyfraith) yn gyfrifol am gynnal y Cytundeb Rhwng Awdurdodau i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol cyfredol ac anghenion Llywodraethu'r Bartneriaeth ac mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r darpariaethau ar bob lefel. Mae'r Swyddog Monitro yn mynychu pob cyfarfod CBLI.

Mae'r Swyddog Monitro mewn sefyllfa dda i chwarae rôl ragweithiol yn cefnogi Aelodau a Swyddogion mewn gosodiadau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith a chyda gweithdrefnau'r Bartneriaeth ei hun. Fel y Pennaeth Gwasanaeth gyda chyfrifoldeb am yr Uned Wasanaethau Democrataidd yn y pen draw, mae'r Swyddog Monitro hefyd yn gyfrifol am gofnodi a chyhoeddi'r broses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau yn ffurfiol.

Mae'r Swyddog Monitro yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Adran 151 yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a bydd yn adrodd i'r Cydbwyllgor Llywodraethu os yw'n ystyried y bydd unrhyw gynnig yn arwain at anghyfreithlondeb.

Swyddog Adran 151

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw'r swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth materion y Bartneriaeth dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a gydag ef/hi y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am weinyddiaeth ariannol y Bartneriaeth.

Cyhoeddwyd "Datganiad ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol" yn flaenorol gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae'r Datganiad yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Ariannol (PSA) ac yn amlinellu'r pum Prif Egwyddor (gweler isod) sy'n diffinio'r gweithgareddau a'r ymddygiadau craidd sy'n perthyn i rôl y PSA mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a'r trefniadau cyfundrefnol sydd eu hangen i'w cefnogi. Drwy benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, mae Cyngor Sir Gâr yn cydymffurfio'n llawn â'r Datganiad.

- Egwyddor 1 - Mae PSA mewn Awdurdod Lleol yn aelod allweddol o'r Tîm Arweinyddiaeth, yn ei gynorthwyo i ddatblygu a gweithredu strategaeth ac i ariannu a chyflawni amcanion strategol yr Awdurdod yn gynaliadwy ac er budd y cyhoedd.
- Egwyddor 2 - Rhaid i Brif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol fod â rhan weithredol yn yr holl benderfyniadau busnes pwysig, a gallu dylanwadu arnynt, er mwyn sicrhau bod

goblygiadau, cyfleoedd a risgiau uniongyrchol a hirdymor yn cael eu hystyried yn llawn, ac yn cyd-fynd â strategaeth ariannol gyffredinol yr Awdurdod.

- Egwyddor 3 - Rhaid i Brif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol arwain hyrwyddiad a darpariaeth rheolaeth ariannol da gan yr Awdurdod cyfan fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu bob amser ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol.
- Egwyddor 4 - Rhaid i Brif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol arwain a chyfarwyddo swyddogaeth gyllidol sydd angen ei hariannu er mwyn bod yn addas at y diben.
- Egwyddor 5 - Rhaid i Brif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol fod â chymhwyster proffesiynol a meddu ar brofiad addas.

3.4.5 *Link Fund Solutions*

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi dylunio model gweithredu sy'n hyblyg ac yn gallu cyflawni gwerth am arian. Mae *Link Fund Solutions Ltd (Link)* wedi cael ei benodi fel y Gweithredwr allanol a, gyda chymorth *Russell Investments*, mae'n darparu rheolaeth effeithiol dros fuddsoddiadau ac yn rhoi sicrwydd o ran perfformiad ffioedd i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae Cytundeb Gweithredwr yn ei le gyda *Link Fund Solutions* sy'n amlinellu dyletswyddau cytundebol y Gweithredwr ac yn rheoli'r berthynas rhwng y Gweithredwr a'r Bartneriaeth.

3.4.6 *Ymgynghorwyr Allanol*

Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Ymgynghorwyr Allanol i ddarparu cefnogaeth a chyngor ychwanegol. Mae pob contract yn mynd drwy broses caffael ffurfiol yn unol â Chanllawiau Caffael Cyngor Sir Gâr.

Ymgynghorwyr Cyfreithiol - *Burges Salmon*

Mae *Burges Salmon* yn darparu cyngor Cyfreithiol, yn ôl yr angen.

Ymgynghorwyr Trosolwg - *Hymans Robertson*

Mae *Hymans Robertson* wedi cael eu penodi'n Ymgynghorwyr Trosolwg ar gyfer y Bartneriaeth. Mae rôl *Hymans Robertson* yn rhychwantu trosolwg a chyngor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwr, agweddau buddsoddiad strategol a chefnogaeth rheoli prosiect. Maent yn mynychu holl gyfarfodydd y GS a'r CBLI.

Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu - *Robeco Ltd*

Mae *Robeco* wedi cael eu penodi'n ddiweddar fel darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru a byddant yn cynorthwyo'r Bartneriaeth i lunio a chynnal Polisi Pleidleisio ac Egwyddorion Ymgysylltu sy'n cyd-fynd ag aelodaeth Awdurdodau Cyfansoddol Cymreig o Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdod Lleol ('LAPFF'). Bydd *Robeco* hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio ecwiti gweithredol £5bn y Bartneriaeth ac yn adrodd i'r Bartneriaeth a'r Cronfeydd sylfaenol.

3.5 Ffynonellau Sicrwydd Llywodraethu

3.5.1 Archwiliad Mewnol

Mae'r tîm Archwilio Mewnol yng Nghyngor Sir Gâr yn cynnal adolygiadau Archwilio Mewnol mewn sawl maes o fewn yr Awdurdod, yn adolygu effeithiolrwydd y systemau a'r trefniadau llywodraethu. Mae'n ofynnol i Archwilio Mewnol ymgymryd â'u gwaith yn unol â'r safonau a amlinellir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a sefydlwyd yn 2013, sef y safonau proffesiynol y cytunwyd arnynt ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol.

3.5.2 Matrics Llywodraethu

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi datblygu Matrics Llywodraethu sy'n canolbwyntio ar amlinellu'r gwahanol rolau y mae cyrff o fewn y Bartneriaeth yn eu chwarae ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Bartneriaeth. Mae hefyd yn mynegi bod y Bartneriaeth yn ymgynghori / chwilio am fewnbwn gan nifer o wahanol gyrff o fewn y Bartneriaeth cyn ffurfioli penderfyniadau. Mae'r broses hon yn amlygu'r nifer o wiriadau a'r dulliau pwysu a mesur y mae'r Bartneriaeth wedi'u datblygu yn ei phroses wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod llywodraethu da yn cael ei gyflawni.

3.5.3 Protocol Ymgysylltu

Mae'r Bartneriaeth yn credu mewn ymgysylltu rheolaidd gyda'i rhanddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu Fframwaith Protocol Ymgysylltu sy'n pennu'r dulliau ymgysylltu a ganlyn:

- Cyfarfodydd Adolygu'r Berthynas Strategol - Bob hanner blwyddyn
- Ymgysylltu â'r CBLI - Chwarterol
- Ymgysylltu â'r GS - Bob deufis
- Diwrnod Blynyddol i Randeiliaid - Blynyddol
- Pwyllgorau'r Gronfa Bensiwn - Blynyddol
- Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr - Bob hanner blwyddyn
- Cyfathrebu ag Aelodau - Blynyddol
- Ymgysylltu drwy'r wefan a *LinkedIn* - parhaus

Yn ogystal ag ymgysylltu rheolaidd rhwng Swyddogion, Aelodau a Phartion Allanol, fel y manylir ar ddiagram y Strwythur Llywodraethu, mae'r ymgysylltu hwn hefyd yn cynnwys ymgysylltu rhwng Aelodau Pwyllgorau Pensiwn, Aelodau Byrddau Pensiwn a Rheolwyr Cronfeydd Buddsoddi, rhai presennol a rhai posib.

3.5.4 Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn deall pwysigrwydd Buddsoddi Cyfrifol ac wedi datblygu Polisi Buddsoddi Cyfrifol cyffredinol ar gyfer y Bartneriaeth. Datblygwyd y polisi hwn mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol ac mae'n ymdrin â'r prif feysydd isod:

- Cyflwyniad a Throsolwg
- Uchelgais a Chredoau
- Y Strategaeth Fuddsoddi
- Newid Hinsawdd
- Eithriadau

- Gweithredu'r Strategaeth
- Stiwardiaeth - Pleidleisio, Benthycu Stoc ac Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid
- Cydweithio
- Monitro, Adrodd a Mesur

3.5.5 Hyfforddiant

Mae'n rhaid i staff y Bartneriaeth feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth briodol o:

- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol;
- cyfuno Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru; a
- cyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu cynllun hyfforddiant sydd wedi'i ddylunio i ychwanegu at gynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddiant Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth ynghylch cyfuno cronfeydd.

Mae'r Awdurdod Cynnal yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol a fydd yn ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Cedwir cofnod dan y cynllun hyfforddiant a fydd yn cynnwys manylion cyfredol o'r holl hyfforddiant y mae staff y Bartneriaeth wedi'i gwblhau, a'r hyfforddiant y bwriedir ei gynnal yn y dyfodol agos.

Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant yn canolbwyntio ar gwrdd ag anghenion hyfforddiant aelodau'r GS a'r CBLI; fodd bynnag, anogir Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Aelodau eu Pwyllgor Pensiynau, yn ogystal â Chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os ydynt yn credu y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hyn.

3.5.6 Cyfathrebu

Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru o'r farn bod cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol yn hanfodol os ydyw am lwyddo i gyflawni ei amcanion. Mae'r Bartneriaeth wedi datblygu cynllun cyfathrebu fydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Mae'r cynllun yn amlinellu'r hyn a ganlyn mewn perthynas â'r Bartneriaeth:

- Cynulleidfa Darged
- Prif Negeseuon / Prif Ddiben
- Dull Cyfathrebu
- Cyfrifoldebau
- Y Broses Adolygu a Myfyrio

Mae gan y Bartneriaeth wefan a thudalen *LinkedIn* hefyd sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd. Mae'r wefan (www.partneriaethpensiwncymru.org) yn ymdrin â sawl maes, gan gynnwys Llywodraethu, Cyhoeddiadau (yn cynnwys Polisiâu'r Bartneriaeth) datblygiadau'r Is-gronfeydd a Newyddion (yn cynnwys datganiadau i'r wasg).

3.5.7 Rheoli Risg

Mae rheoli risg wedi cael ei ymblannu drwy'r elfen o lywodraethu'r Bartneriaeth. Ystyrir risgiau yn holl weithgareddau'r Bartneriaeth, yn enwedig wrth benderfynu ar ddatblygiad a strwythur is-gronfeydd.

Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod y gellir gwella ei strwythur llywodraethu drwy gyfundrefnu sut mae'n adnabod, rheoli, lliniaru a monitro risgiau ar hyn o bryd a dyna pam fod y Bartneriaeth wedi blaenoriaethu'r dasg o lunio Polisi Risg a Chofrestr Risg y Bartneriaeth fel rhan o'i chynllun gwaith ar gyfer 2020/2021.

3.5.8 Rheolyddion Allanol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru, fel Archwilwyr Allanol y Bartneriaeth, yn adolygu a gwneud sylwadau ar agweddau ariannol Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, statws ariannol, systemau Rheolaeth Ariannol Mewnol a safonau ymddygiad ariannol a thwyll a llygredd. Mae'r cynllun Archwilio Allanol yn cael ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor Llywodraethu.

3.6 Materion llywodraethu i roi sylw iddynt / Cynllun Gweithredu

Mae'r Bartneriaeth o'r farn bod llywodraethu da yn arwain at well canlyniadau i'w rhanddeiliaid, ac felly bydd yn dal ati i ddatblygu ei fframwaith llywodraethu drwy ddatblygu polisiau, cofrestri a chynlluniau ychwanegol ac yn cynnal adolygiadau parhaus o'i dogfennau a'i strwythur llywodraethu presennol.

Mae gan y Bartneriaeth gynllun gwaith tair blynedd fydd yn ffurfio rhan o'r Cynllun Busnes. Mae hwn yn ymdrin â nifer o feysydd gwaith, gyda Llywodraethu yn un ohonynt.

Cynllun Gweithredu'r Bartneriaeth am y 12 mis nesaf:

1. Datblygu Cynllun Busnes tair blynedd y Bartneriaeth*
2. Datblygu Polisi Risg Hinsawdd**
3. Datblygu Polisi Gwrthdaro Buddiannau**
4. Lluoio Polisi Risg a Chofrestr Risg i'r Bartneriaeth
5. Datblygu Polisi Pleidleisio'r Bartneriaeth
6. Lluoio Llawlyfr Llywodraethu'r Bartneriaeth
7. Adolygiad Blynyddol o'r polisi BC

* Datblygwyd a chymeradwywyd y Cynllun Busnes gan y CBLI ar 12 Mawrth 2020, ac mae bellach gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol er mwyn derbyn eu cymeradwyaeth derfynol.

**Mae'r polisiau hyn wedi datblygu a byddant yn mynd i gyfarfod nesaf y CBLI am gymeradwyaeth

3.7 Casgliad

Dangoswyd lefel dda o sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu o fewn y Bartneriaeth gyda systemau digonol ac effeithiol yn eu lle. Bydd gweithredu'r camau gweithredu o'r cynllun gweithredu yn adran 3.5 yn cael ei fonitro a'i adolygu fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

O ran yr hinsawdd economaidd gyfredol mewn perthynas â COVID-19:

- Mae'r holl swyddogion wedi bod yn gweithio gartref ers mis Mawrth 2020
- Mae *Link Fund Solutions* a *Russell Investments* yn darparu diweddariadau rheolaidd am y farchnad mewn perthynas â buddsoddiadau is-gronfeydd y Bartneriaeth - rhennir y rhain gyda swyddogion y Gronfa Bensiwn ac aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu.
- bwriedir yn awr i'r is-gronfeydd Incwm Sefydlog a oedd fod i gael eu lansio ym mis Ebrill 2020 fynd ymlaen ym mis Gorffennaf 2020
- Mae amser galwadau dwywaith yr wythnos rhwng swyddogion a'r gweithgor wedi cael ei ymestyn er mwyn ymdrin â'r meysydd trafod ychwanegol ynghylch COVID-19.
- Ymdrinnir â materion GS ar hyn o bryd yn y galwadau dwywaith yr wythnos gyda cheisiadau cyfarfod yn aros yng nghalendrau'r swyddogion petai'r angen yn codi am gyfarfod rhithiol.
- Mae cyfarfod CBLI rhithiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2020.
- Mae gwaith drafftio ac archwilio Datganiad Cyfrifon y Bartneriaeth yn parhau i fod yn unol â'r amserlen a amlinellwyd yng Nghynllun Archwilio 2020.
- Mae'r Bartneriaeth yn parhau i weithio yn unol â'r cynllun gwaith cymeradwy, yn blaenoriaethu'r dasg o ddatblygu a chymeradwyo'r polisïau a'r cynlluniau a ddisgrifir yn Adran 3.5 uchod ac, felly, yn datblygu'r fframwaith llywodraethu ymhellach.

4 DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys yr isod:

4.1 DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR (CIES)

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

2018/19 (£)	Disgrifiad	2019/20 (£)	Nodiadau
	Gwariant		
43,111	Costau staff	56,138	
13,079	Costau Awdurdod Cynnal	21,250	
27,109	Costau Ymgynghorwyr Allanol	146,673	
75,000	Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Cynnal	75,000	
158,299	Cyfanswm Gwariant Gweithredu	299,062	
	Incwm		
(158,299)	Taliadau a Ail-godir ar Awdurdod Cyfansoddol*	(299,062)	
(158,299)	Cyfanswm Incwm Gweithredu	(299,062)	
0	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	0	

* Ariennir y costau hyn gan bob un o'r wyth Cronfa CPLIC yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol. Yr eithriad yw pan fydd Ymgynghorydd Allanol yn darparu gwasanaeth ar gyfer Cronfeydd CPLIL penodol; yna, rhennir y costau ychwanegol hyn rhwng y Cronfeydd CPLIL perthnasol yn gyfartal.

4.2 MANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos asedau a rhwymedigaethau'r Bartneriaeth fel ar 31 Mawrth 2020.

31 Mawrth 2019 (£)	Disgrifiad	31 Mawrth 2020 (£)	Nodiadau
	Asedau Cyfredol		
138,511	Dyledwyr Tymor Byr	367,489	3
138,511	Cyfanswm Asedau Cyfredol	367,489	
	Rhwymedigaethau Cyfredol		
(127,579)	Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth	(223,716)	
(10,932)	Credydwyr Tymor Byr	(143,773)	4
(138,511)	Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol	(367,489)	
0	Cyfanswm Net Asedau	0	

4.3 DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sydd gyfwerth gan y Bartneriaeth yn ystod y cyfnod adrodd.

2018/19 (£)	Disgrifiad	2019/20 (£)	Vodiadau
	Llif arian o weithgareddau gweithredu		
0	Net (gwarged) / diffyg yn narpariaeth gwasanaethau	0	
	Addasiadau ar gyfer:		
(138,511)	(Cynnydd) mewn masnach a dyledwyr eraill	(228,978)	
10,932	(Cynnydd) mewn masnach a chredydwyr eraill	132,841	
(127,579)	Arian parod Net o weithgareddau gweithredu	(96,137)	
	Net (Cynnydd) / Lleihad mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth		
0	Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth fel ar 1 Ebrill	(127,579)	
(127,579)	Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth fel ar 31 Mawrth	(223,716)	
(127,579)	Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth fel ar 31 Mawrth	(96,137)	

5 NODIADAU AR Y CYFRIFON

5.1 Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu

Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 a'i sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2020. Mae'r prif bolisiau cyfrifyddu a ddefnyddir wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn yn cael eu hamlinellu isod. Mae'r polisiau hyn wedi cael eu defnyddio'n gyson ar gyfer yr holl gyfnodau a gyflwynwyd, oni nodir yn wahanol.

5.1.1 Busnes Gweithredol

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

5.1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi dan y cysyniad Croniadau o gyfrifyddu sydd angen adnabod incwm a gwariant yn y cyfnodau cyfrifyddu y maent yn ymwneud â hwy yn hytrach nag ar sail arian parod.

5.1.3 Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth

Nid yw'r Bartneriaeth ei hun yn gweithredu nac yn rheoli ei chyfrif banc unigol. Yn ei rôl fel Awdurdod Cynnal, Cyngor Sir Gâr sy'n gweinyddu'r holl drafodion arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ar ran y Bartneriaeth.

5.1.4 Darpariaethau, Asedau Amodol a Rhwymedigaethau

Nid yw'r Bartneriaeth wedi adnabod unrhyw ddarpariaethau, asedau amodol na rhwymedigaethau amodol yn y cyfrifon.

5.1.5 Treth ar Werth (TAW)

Dangosir trafodion net o Dreth ar Werth, rhoddir cyfrif am bob TAW gan Gyngor Sir Gâr.

5.1.6 Buddion Gweithwyr

Mae gweithwyr uniongyrchol sy'n cefnogi gweithgareddau'r Bartneriaeth yn cael eu cyflogi dan gytundeb gan Gyngor Sir Gâr, gyda chefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu gan Sir Gâr ar fethodoleg ail-godi tâl. Datgelir costau cydnabyddiaeth gweithwyr yn Natganiadau Ariannol Cyngor Sir Gâr.

5.2 Buddsoddiadau

Ni ddelir unrhyw fuddsoddiadau yn uniongyrchol gan y Bartneriaeth. Mae'r is-gronfeydd a agorwyd fel rhan o'r trefniant cyfuno yn dod o dan ddatganiadau ariannol y cronfeydd pensiwn priodol. Mae costau'r Gweithredwr a ffioedd eraill sy'n ymwneud â'r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhannu rhwng bob un o'r wyth Cronfa CPLIL yn seiliedig ar eu cyfran ganrannol unigol o asedau'r Bartneriaeth ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o'r Gwerth Net Asedau (GNA). Nid yw'r rhain yn drafodion arian parod.

5.3 Dyledwyr Tymor Byr

2018/19 (£)	Disgrifiad	2019/20 (£)
138,511	Awdurdodau Cyfansoddol	365,616
0	Rhagdaliadau	1,873
138,511	Cyfanswm Dyledwyr Tymor Byr	367,489

5.4 Credydwyr Tymor Byr

2018/19 (£)	Disgrifiad	2019/20 (£)
6,464	Credydwyr Masnach	69,130
4,468	Croniadau	74,643
10,932	Cyfanswm Credydwyr Tymor Byr	143,773

5.5 Costau Archwilio

Yn 2019/20, roedd y Bartneriaeth yn wynebu'r ffioedd isod yn ymwneud â'r archwiliad a'r arolwg ariannol, a oedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru.

2018/19 (£)	Disgrifiad	2019/20 (£)
5,000	Ffioedd Archwilio	8,558
5,000	Cyfanswm Ffioedd Archwilio Allanol	8,558

5.6 Trafodion Partïon Perthnasol

Mae gofyn i'r Bartneriaeth ddatgelu trafodion perthnasol rhwng partneriaid, cyrff, unigolion neu bartïon perthnasol, a allai o bosib ddylanwadu ar benderfyniadau'r CBLI neu gael eu dylanwadu gan y CBLI. Mae gan y Bartneriaeth drefniadau yn eu lle sy'n gofyn i aelodau a Swyddogion adnabod a datgelu trafodion partïon perthnasol. Datgelir ac asesir y buddiannau hyn ar ddechrau pob cyfarfod CBLI.

Bydd angen datgelu unrhyw drafodion rhwng y partïon a amlinellir uchod er mwyn galluogi i ddefnyddwyr y datganiadau Ariannol hyn asesu i ba raddau allai annibyniaeth y CBLI o bosib gael ei effeithio neu ei ddylanwadu gan allu parti arall i drafod gyda'r Pwyllgor.

Yn ystod 2019/20, fel Awdurdod Cynnal y Bartneriaeth, anfonodd Cyngor Sir Gâr anfoneb dyledwr at bob un o'r wyth cronfa bensiwn CPLIL er mwyn adennill costau rhedeg y Bartneriaeth, fel y nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES). Mae'r tablau isod yn dangos cyfanswm gwerth y trafodion a godwyd yn ystod 2019/20 a'r balansau dyledwyr a oedd heb eu talu fel ar 31 Mawrth 2020.

2018/19 £	Disgrifiad	2019/20 £
19,787	Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg	52,383
19,787	Cronfa Bensiwn Clwyd	32,383
19,787	Cronfa Bensiwn Dyfed	32,383
19,787	Cronfa Bensiwn Gwynedd	32,383
19,787	Cronfa Bensiwn Powys	32,383
19,787	Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RhCT)	32,383
19,787	Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe	32,383
19,787	Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)	52,383
158,299	Cyfanswm Trafodion Partïon Perthnasol	299,062

2018/19 £	Disgrifiad	2019/20 £
19,787	Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg	72,170
19,787	Cronfa Bensiwn Clwyd	52,170
-	Cronfa Bensiwn Dyfed	19,787
19,787	Cronfa Bensiwn Gwynedd	52,170
19,787	Cronfa Bensiwn Powys	32,383
19,787	Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RhCT)	52,170
19,787	Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe	32,383
19,787	Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)	52,383
138,511	Trafodion Partïon Perthnasol heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn	365,616

Cododd Cyngor Sir Gâr dâl am weinyddiaeth a gwasanaethau cefnogol yn ystod 2019/20. Mae anfonebau hefyd wedi'u derbyn gan Gyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Powys am wasanaethau a ddarparwyd ganddynt ar ffurf gwasanaethau cyfieithu ac arlwyio, yn y drefn honno. Mae'r tabl isod yn dangos gwerth y gwasanaethau hynny a'r balansau dyledwyr a oedd heb eu talu fel ar 31 Mawrth 2020.

Trafodion Partïon Perthnasol - Credydwyr	Gwerth gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod 2019/20	Balans heb ei dalu fel ar 31 Mawrth 2020
Cyngor Sir Gâr	£132,753	£0
Cyngor Gwynedd	£3,795	£1,577
Cyngor Sir Powys	£724	£724
Cyfanswm	£137,272	£2,301

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Swyddog Monitro yn Uwch Swyddogion o fewn Cyngor Sir Gâr.

5.7 Addasiad Cyfnod Blaenorol

Ni wnaed unrhyw addasiadau Cyfnod Blaenorol yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.

6 RHESTR TERMAU

Mae'r adran isod yn ceisio egluro ystyr rhai o'r gwahanol dermau technegol a ddefnyddir yn y Datganiadau.

Croniadau

Swm a ddangosir yn ein cyfrifon i dalu am incwm neu wariant ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu na dalwyd ar ddyddiad y fantolen yw cronïadau.

Archwiliad

Arolwg annibynnol o'n gweithgareddau yw archwiliad.

Balans

Gwarged neu ddiffyg unrhyw gyfrif ar unrhyw adeg.

Mantolen

Dyma ddatganiad o'n hasedau, rhwymedigaethau a balansau eraill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cyllideb

Cynllun gwario yw cyllideb, fel arfer ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol.

Credydwr

Credydwr yw rhywun sydd ag arian yn ddyledus iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gafwyd.

Asedau Cyfredol

Dyma asedau tymor byr sydd ar gael i ni eu defnyddio yn y flwyddyn gyfrifyddu ddilynol.

Rhwymedigaethau Cyfredol

Dyma rwymedigaethau tymor byr sydd angen eu talu gennym yn y flwyddyn gyfrifyddu ddilynol.

Dyledwr

Dyledwr yw rhywun sydd mewn dyled ariannol i ni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Flwyddyn Ariannol

Dyma'r cyfnod cyfrifyddu. Mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol i'r pwyllgor hwn.

Gwariant Gros

Cyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod Cynnal cyn ystyried unrhyw incwm a dderbyniwyd.

Rhwymedigaeth

Rhwymedigaeth yw swm sy'n ddyledus a thaladwy ar ryw adeg yn y dyfodol.

Rhagdaliad

Rhagdaliad yw taliad a wnaed o flaen llaw, taliad sy'n ymwneud â chyfrif cyfrifyddu yn y dyfodol.

Darpariaeth

Darpariaethau yw symiau a roddir o'r neilltu ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion sy'n debygol neu'n sicr o gael eu hachosi, ond mae'r symiau neu'r dyddiadau pan fyddant yn codi yn ansicr.

Amrywiant

Y gwahaniaeth rhwng gwir wariant a chyllideb - dangosir hyn mewn arian parod neu dermau canrannol.

Swyddfa Archwilio Cymru

Corff annibynnol a arweinir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am benodi archwilwyr allanol i awdurdodau lleol.



PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 17 GORFFENAF 2020

PWNC

DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Derbyn diweddariad gan yr awdurdod lletya

RHESYMAU:

Yr awdurdod lletya i roi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:

- Llywodraethu
- Sefydlu parhaus
- Gwasanaethau gweithredwyr
- Cyfathrebu ac adrodd
- Hyfforddiant a chyfarfodydd
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol
Cyngor Sir Caerfyrddin

Rhif Ffôn: 01267 224160

E-bost: CMoore@sirgar.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 17 GORFFENAF 2020

DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae gwaith wedi parhau i gael ei ddatblygu mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:

- Cwblhau cau cyfrifon diwedd blwyddyn 2019/20
- Datblygu Polisi Gwrthdaro Buddiannau a Risgiau yn Sgil yr Hinsawdd
- Datblygu Polisi Risg a Chofrestr Risg
- Mae gwaith wedi parhau gyda'r cyfresi nesaf o is-gronfeydd a bydd mwy o wybodaeth am y rhain yn cael ei darparu yn niweddariad y Gweithredwr

Meysydd allweddol eraill:

- Cynllun Busnes – wrthi'n cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdodau Cyfansoddol.
- Robeco – mae cyfarfodydd cychwynnol wedi cael eu cynnal gyda Robeco ac mae gwaith yn parhau ar yr ochr Ymgysylltu, gan gynnwys datblygu porth. Mae'n debygol y bydd y Polisi Pleidleisio'n cael ei ddatblygu yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae sesiynau hyfforddiant rhithwir wrthi'n cael eu trefnu i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol.
- Cynllun Hyfforddi – rydym yn anelu at gyflawni'r cynllun hyfforddi cymeradwy ar gyfer 2020/21, gyda digwyddiadau hyfforddiant rhithwir yn cael eu cynnal hyd y gellir rhagweld. Er mwyn hwyluso'r ffordd newydd hon o gyflawni hyfforddiant, gallai trefn y pynciau hyfforddi newid ychydig o'r cynllun gwreiddiol. Cafodd un sesiwn hyfforddiant rhithwir ei chwblhau ar 18 Mehefin 2020.
- Contract Ymgynghorydd Cyfreithiol – oherwydd COVID-19, mae'r broses dendro wedi cael ei gohirio. Mae'r contract presennol wedi cael ei ymestyn tan 31 Rhagfyr 2020 a bydd yr ymarfer caffael yn aildechrau'n fuan.
- Benthycia Stoc – mae Northern Trust wedi darparu Adroddiad Adolygu Benthycia Gwarantau Byd-eang ar gyfer y cyfnod rhwng 19 Mawrth 2020 a 30 Ebrill 2020. Adroddiad llawn ynghlwm.
- Mae'r wefan yn parhau i gael ei diweddarau gyda newyddion a chyhoeddiadau perthnasol.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldebau OES	Cyfreithiol	Cyllid	Materion Rheoli Risg	Goblygiadau Staffio
DIM	DIM	DIM	DIM	DIM
Polisi Bydd dogfennau polisi a gweithdrefnau'n ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma.

**Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod y Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld / DOLEN GWEFAN

Benthyca Gwarannau Byd-eang Adolygiad

Paratowyd ar gyfer Link Fund Solutions : Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cyflwynwyd 21 Mai 2020 : Data Perfformiad ar gyfer 19 Mawrth i 30 Ebrill 2020

Neil Round

Uwch Reolwr Perthynas
EMEA, Securities Lending
Ffôn: +44 207 982 2030
E-bost: ndr3@ntrs.com


Dan Armstrong

Uwch Reolwr Cyfrif
EMEA, Securities Lending
Ffôn: +44 207 982 4341
E-bost: da179@ntrs.com



LLINELL AMSER PERTHYNAS LINK FUND SOLUTIONS (CYMRU) – BENTHYCA GWARANNAU

Fudalen 54



Crynodeb o'r Rhaglen Fenthyca

- Dechrau benthycu ym Mawrth 2020
- Mae gan LF CYMRU gyfrif arbennig anariannol fel sicrwydd cyfochrog (*collateral*).
- Enillion refeniw net yn GBP £71,807 yn 2020 hyd yma
- Cyfanswm Refeniw Gros yn 2020 yn GBP £84,475
- Rhaniad y Ffi: 85/15 gyda CYMRU yn derbyn 85% o'r cyfanswm refeniw a Northern Trust yn derbyn 15%
- Daw'r holl gostau o redeg y rhaglen fenthyca gwarannau o siâr Northern Trust o'r ffi
- Mae sicrwydd cyfochrog yn erbyn yr holl fenthyciadau, ar 102/105% (yn amodol ar de minimis) yn dibynnu ar arian (*currency*) y benthyciadau/sicrwydd cyfochrog
- Bydd yr asiant ond yn benthycu Gwarannau i Fenthycwyr sydd â chyfradd byrdymor ar adeg y benthyciad o ddim is nag A1/P1
- Yr uchafswm y gellir ei fenthyca yw 25% o gyfanswm yr Asedau dan Reolaeth (AUM) ar unrhyw adeg benodol; er gwaethaf newidiadau i brisiau ac asedau benthyciadwy
- Ni fydd swm penodol ar gael fel Benthyciad ar unrhyw adeg – sef isafswm o 5% o gyfanswm enwol pob daliad ecwiti unigol

PERFFORMIAD Y CYFRIF

Account Number	Account Name	Market Value (GBP)		% on	Gross	On Loan	Gross BP	Net
		Avg. on Loan	Avg. Available	Loan	Earnings (GBP)	Spread (bp)	Return (bp) *	Earnings (GBP)
WCOF05	LF WALES PPGOEF SW MITCHELL	14,114,567	75,210,219	18.8%	37,280	155.9	29.3	31,688
WCOF08	LF WALES PPGOEF OAKTREE	10,276,074	128,626,138	8.0%	19,374	111.3	8.9	16,469
WPPF04	LF WPP GGF - BAILLIE GIFFORD	39,353,316	597,286,980	6.6%	13,531	20.3	1.3	11,502
WCOF09	LF WALES PPGOEF SANDERS CAP	3,477,847	349,441,035	1.0%	4,703	79.8	0.8	3,998
WCOF06	LF WALES PPGOEF JACOBS LEVY	4,367,379	195,785,188	2.2%	3,764	50.9	1.1	3,201
WCOF03	LF WALES PPGOEF - MSTANLEY	9,448,582	116,082,383	8.1%	2,485	15.5	1.3	2,113
WPPF03	LF WPP GGF - PZENA INV MGT LLC	7,820,930	351,274,347	2.2%	2,297	17.3	0.4	1,953
WPOE03	W PP UK OPPTS EQ RC	2,033,314	76,594,721	2.7%	374	10.8	0.3	318
WCOF07	LF WALES PPGOEF NUMERIC	1,264,494	68,951,932	1.8%	354	16.5	0.3	301
WCOF04	LF WALES PPGOEF NWQ INV MGMT	677,051	180,789,618	0.4%	195	17.0	0.1	166
WPPF02	LF WPP GGF - VERITAS AM LLP	402,553	371,818,101	0.1%	117	17.2	0.0	100
Total		93,236,108	2,511,860,661	3.7%	84,475	53.5	2.0	71,808

* Gross Basis Point Return equals On Loan Spread multiplied by % on Loan. GBPR is the measure of total return on a given asset class or portfolio.

** Market Value and Earnings were converted using the month-end FX rate.

- Y dychweliad pwynt Sylfaen Gros am y cyfnod oedd 2.0 bps
- Y Gronfa PPGOEF SW Mitchell sydd wedi cyfrannu'r rhan fwyaf o'r referniw (44%)
- Bu'r galw mwyaf mewn masnachu cyfeiriol gyda'r stoc Ffrengig, Vallourec, Grwp MTN De Affrica, a Seadrill (UDA).
- Roedd y tri stoc yma yn cyfrif am 50% o gyfanswm y referniw hyd yma.
- Mae'r defnydd yn sefyll ar 3.7% ar draws yr holl gronfeydd, disgwylw'n i hyn gynyddu dros amser wrth i ragor o benthycwyr gymeradwyo'r cronfeydd Cymru.

Y 10 GWARANT UCHAF YN ÔL REFENIW

Tudalen 56

Rank	Security Name	CUSIP/SEDOL	Net Earnings	% Of Total Net Earnings	Market Value On Loan (GBP)	Average % Utilization	Average Spread
1	VALLOUREC SA EUR2.00	B197DR6	19,577.15	27.26	990,244.60	80.36	1,334.61
2	MTN GROUP LTD ZAR0.0001	6563206	8,568.31	11.93	545,592.29	47.38	1,095.90
3	SEADRILL LTD COM USD2.00	BFWY7Q9	8,163.37	11.37	51,484.15	30.52	9,900.00
4	PHARMARON BEIJING CO LTD 144A	BK72QD3	3,506.71	4.88	483,217.90	16.66	500.00
5	CATHAY PACIFIC AIR NPV	6179755	3,275.42	4.56	206,475.69	36.86	1,072.16
6	PING AN INSURANCE GROUP H	B01FLR7	2,958.17	4.12	13,612,468.32	78.91	15.00
7	PING AN HEALTHCARE 144A	BDRYVB3	2,281.95	3.18	2,196,228.52	71.85	72.39
8	MMG LTD NPV	6728793	2,143.50	2.99	362,957.25	55.64	374.08
9	CONTINENTAL RES INC COM	212015101	2,085.24	2.90	297,171.59	93.30	501.77
10	TESLA INC COM USD0.001	88160R101	1,060.89	1.48	4,998,353.72	67.57	15.00
Sub Total Of Top 10 Securities			53,620.71	74.67	23,744,194.03	68.45	156.45
All Other			18,187.07	25.33	69,491,913.94	2.81	18.28
Total			71,807.78	100.00	93,236,107.97	3.71	53.68

- Roedd y galw yn y deg gwarant uchaf yn cael ei yrru'n bennaf gan y galw am stociau cyfeiriol Ffrengig a HK.
- Roedd y deg gwarant a berfformiodd orau yn cyfrif am 74% o'r enillion net (£53,620)
- Roedd y taeniad cyfartalog ar gyfer y 10 uchaf yn 156.45 bps o gymharu â 18.28 bps ar gyfer yr holl warannau eraill.

DADANSODDIAD BENTHYCA, ASED A GWLAD

Security Type	Country Of Quotation	Market Value (GBP)		% on Loan	Gross Earnings (GBP)	On Loan Spread (bp)	Gross BP Return (bp) *	Net Earnings (GBP)
		Avg. on Loan	Avg. Available					
US Equities	United States	42,446,882	1,475,352,252	2.9%	14,019	19.5	0.6	11,919
Total For US Equities		42,446,882	1,475,352,252	2.9%	14,019	19.5	0.6	11,919
Global Equities	Australia	1,659,564	25,877,978	6.4%	421	15.0	1.0	358
	Belgium	0	0	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Brazil	0	0	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Canada	0	13,105,994	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Denmark	0	24,402,673	0.0%	0	0.0	0.0	0
	France	10,015,369	99,634,692	10.1%	26,336	155.2	15.6	22,386
	Germany	0	0	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Hong Kong	19,501,420	125,621,964	15.5%	17,637	53.4	8.3	14,992
	Hungary	0	2,025,407	0.0%	0	0.0	0.0	0
	India	0	0	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Indonesia	0	0	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Ireland	0	6,041,576	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Israel	0	0	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Italy	0	17,445,530	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Japan	2,097,702	296,511,368	0.7%	583	16.4	0.1	496
	Korea, Republic of	0	0	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Mexico	0	0	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Netherlands	4,472,589	47,807,383	9.4%	1,933	25.5	2.4	1,643
	New Zealand	0	463,861	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Norway	256,989	14,276,266	1.8%	9,693	2,226.0	40.1	8,239
	Singapore	0	14,716,690	0.0%	0	0.0	0.0	0

DADANSODDIAD BENTHYCA, ASED A GWLAD

Tudalen 8

Security Type	Country Of Quotation	Market Value (GBP)		% on Loan	Gross	On Loan	Gross BP	Net
		Avg. on Loan	Avg. Available		Earnings (GBP)	Spread (bp)	Return (bp) *	Earnings (GBP)
Global Equities	South Africa	2,512,556	21,174,708	11.9%	11,251	264.3	31.4	9,564
	Spain	2,807,326	12,105,136	23.2%	1,141	24.0	5.6	970
	Sweden	0	27,670,019	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Switzerland	144,518	57,093,192	0.3%	56	22.9	0.1	48
	Taiwan	0	0	0.0%	0	0.0	0.0	0
	Thailand	0	5,940,059	0.0%	0	0.0	0.0	0
	United Kingdom	7,321,194	224,593,914	3.3%	1,404	11.3	0.4	1,193
Total For Global Equities		50,789,226	1,036,508,410	4.9%	70,456	81.9	4.0	59,889
Total		93,236,108	2,511,860,661	3.7%	84,475	53.5	2.0	71,808

* Gross Basis Point Return equals On Loan Spread multiplied by % on Loan. GBPR is the measure of total return on a given asset class or portfolio.

** Market Value and Earnings were converted using the month-end FX rate.

Y DEFNYDD GAN FENTHYCWYR A'U SICRWYDD CYFOCHROG O 30 EBRILL

Borrower Name	Borrower Domicile	Market Value on Loan Vs Cash	Market Value on Loan Vs NonCash	Total Market Value on Loan	Market Value of Cash Collateral	Market Value of NonCash Collateral	Total Market Value of Collateral	Cash Margin %	Non Cash Margin %	Total Margin %
<i>WCOF01CF - Wales WCOF01 CF</i>										
BNP PARIBAS PRIME BROKERAGE INTERNATIONAL	IE	0.00	22,452,435.04	22,452,435.04	0.00	23,614,579.13	23,614,579.13	0.00	105.18	105.18
CITIGROUP GLOBAL MARKETS INC.	US	0.00	1,528,008.23	1,528,008.23	0.00	1,585,061.43	1,585,061.43	0.00	103.73	103.73
CITIGROUP GLOBAL MARKETS LIMITED	UK	0.00	719,291.32	719,291.32	0.00	769,245.64	769,245.64	0.00	106.94	106.94
CREDIT SUISSE SECURITIES (EUROPE) LIMITED	UK	0.00	8,545,367.75	8,545,367.75	0.00	9,283,583.05	9,283,583.05	0.00	108.64	108.64
CREDIT SUISSE SECURITIES (USA) LLC	US	0.00	7,306,066.09	7,306,066.09	0.00	7,467,040.79	7,467,040.79	0.00	102.20	102.20
ING BANK NV, LONDON BRANCH	UK	0.00	15,356,317.10	15,356,317.10	0.00	17,507,422.21	17,507,422.21	0.00	114.01	114.01
MACQUARIE BANK LIMITED, LONDON BRANCH	UK	0.00	7,688,929.61	7,688,929.61	0.00	8,318,211.23	8,318,211.23	0.00	108.18	108.18
MERRILL LYNCH INTERNATIONAL	UK	0.00	3,740,563.35	3,740,563.35	0.00	4,065,996.24	4,065,996.24	0.00	108.70	108.70
SOCIETE GENERALE, PARIS BRANCH	FR	0.00	2,390,005.20	2,390,005.20	0.00	2,581,209.85	2,581,209.85	0.00	108.00	108.00
TD PRIME SERVICES LLC	US	0.00	260,479.99	260,479.99	0.00	266,458.59	266,458.59	0.00	102.30	102.30
UBS AG, LONDON BRANCH	UK	0.00	16,273,388.31	16,273,388.31	0.00	17,620,882.81	17,620,882.81	0.00	108.28	108.28
Subtotal -		0.00	86,260,851.99	86,260,851.99	0.00	93,079,690.97	93,079,690.97	0.00	107.90	107.90
Total - WCOF01CF - Wales WCOF01 CF		0.00	86,260,851.99	86,260,851.99	0.00	93,079,690.97	93,079,690.97	0.00	107.90	107.90

Tudalen 59

Y DEFNYDD GAN FENTHYCWYR A'U SICRWYDD CYFOCHROG O 30 BRILL

Tudalen 60

Borrower Name	Borrower Domicile	Market Value on Loan Vs Cash	Market Value on Loan Vs NonCash	Total Market Value on Loan	Market Value of Cash Collateral	Market Value of NonCash Collateral	Total Market Value of Collateral	Cash Margin %	Non Cash Margin %	Total Margin %
<i>WPOE03CF - WALES WPOE03 Non CF</i>										
ING BANK NV, LONDON BRANCH	UK	0.00	12,926,077.42	12,926,077.42	0.00	14,736,755.52	14,736,755.52	0.00	114.01	114.01
MACQUARIE BANK LIMITED, LONDON BRANCH	UK	0.00	3,198,607.88	3,198,607.88	0.00	3,460,390.33	3,460,390.33	0.00	108.18	108.18
SOCIETE GENERALE, PARIS BRANCH	FR	0.00	3,447,642.46	3,447,642.46	0.00	3,726,063.02	3,726,063.02	0.00	108.08	108.08
Subtotal -		0.00	19,572,327.76	19,572,327.76	0.00	21,923,208.87	21,923,208.87	0.00	112.01	112.01
Total - WPOE03CF - WALES WPOE03 Non CF		0.00	19,572,327.76	19,572,327.76	0.00	21,923,208.87	21,923,208.87	0.00	112.01	112.01

Y DEFNYDD GAN FENTHYCWYR A'U SICRWYDD CYFOCHROG O 30

EDDII I

Borrower Name	Borrower Domicile	Market Value on Loan Vs Cash	Market Value on Loan Vs NonCash	Total Market Value on Loan	Market Value of Cash Collateral	Market Value of NonCash Collateral	Total Market Value of Collateral	Cash Margin %	Non Cash Margin %	Total Margin %
<i>WPPF01CF - Wales WPPF01 CF</i>										
BNP PARIBAS PRIME BROKERAGE INTERNATIONAL	IE	0.00	23,850,454.14	23,850,454.14	0.00	25,084,960.07	25,084,960.07	0.00	105.18	105.18
CITIGROUP GLOBAL MARKETS INC.	US	0.00	2,402,817.33	2,402,817.33	0.00	2,481,046.87	2,481,046.87	0.00	103.26	103.26
CREDIT SUISSE SECURITIES (EUROPE) LIMITED	UK	0.00	16,444,923.06	16,444,923.06	0.00	18,131,787.13	18,131,787.13	0.00	110.26	110.26
CREDIT SUISSE SECURITIES (USA) LLC	US	0.00	12,834,325.50	12,834,325.50	0.00	13,117,103.74	13,117,103.74	0.00	102.20	102.20
ING BANK NV, LONDON BRANCH	UK	0.00	5,901,014.48	5,901,014.48	0.00	6,727,625.44	6,727,625.44	0.00	114.01	114.01
MACQUARIE BANK LIMITED, LONDON BRANCH	UK	0.00	7,985,779.51	7,985,779.51	0.00	8,629,081.75	8,629,081.75	0.00	108.06	108.06
MERRILL LYNCH INTERNATIONAL	UK	0.00	655,428.09	655,428.09	0.00	708,883.08	708,883.08	0.00	108.16	108.16
TD PRIME SERVICES LLC	US	0.00	12,904,741.36	12,904,741.36	0.00	13,200,932.37	13,200,932.37	0.00	102.30	102.30
UBS AG, LONDON BRANCH	UK	0.00	1,378,436.22	1,378,436.22	0.00	1,496,557.75	1,496,557.75	0.00	108.57	108.57
Subtotal -		0.00	84,357,919.69	84,357,919.69	0.00	89,577,978.20	89,577,978.20	0.00	106.19	106.19
Total - WPPF01CF - Wales WPPF01 CF		0.00	84,357,919.69	84,357,919.69	0.00	89,577,978.20	89,577,978.20	0.00	106.19	106.19
Grand Total		0.00	190,191,099.44	190,191,099.44	0.00	204,580,878.04	204,580,878.04	0.00	107.57	107.57

CRYNODEB O SICRWYDD CYFOCHROG DI-ARIAN: 30 EBRILL


Adansoddiad o Asedau Sicrwydd Cyfochrog di-arian:

Gwlad	Ecwitis	Dyled y Llywodraeth	Cyfanswm
Awstralia	403,310	164,343	567,653
Awstria		267,193	267,193
Canada	52,746	26,092	78,837
Denmarc	272,229		272,229
Y Ffindir		113	113
Ffrainc	1,663,806	699,283	2,363,089
Yr Almaen	3,076,070	2,943,734	6,019,804
Hong Kong	6,055,820		6,055,820
Japan	10,263,528		10,263,528
Yr Iseldiroedd	2,507,125	882,730	3,389,855
Norwy	501,087		501,087
Sweden	225,976	1,239	227,215
Y Swistir	2,382,733	140,797	2,523,530
Y Deyrnas Unedig	18,095,571	1,099,843	19,195,219
Yr Unol Daleithiau	112,835,959	40,019,551	152,855,510
Cyfanswm	158,335,960	46,244,918	204,580,878


- O 30 Ebrill ymlaen, y tri benthyciwr mwyaf gan LF Wales oedd:
 - *BNP Paribas Prime Brokerage* – £46,302,889
 - *ING Bank NV London Branch* - £34,183,408
 - *Credit Suisse Securities (Europe) Ltd* – 24,990,290
- Roedd y 3 benthyciwr pennaf yn cyfrif am 52% o gyfanswm gwerth y farchnad oedd ar fenthyg.
- Sicrwydd cyfochrog incwm sefydlog (yr un arian) (ac ecwitis yr UD) ar farjin o 102%; incwm sefydlog traws-ariannol a phob ecwiti arall ar farjin o 105%
- Roedd y marjin cyfartalog ar draws yr holl fenthyciadau yn 107.57%

MEINCNODI 2020


▲ Utilization



▲ VVAF



▲ SL Return to Lendable



Roedd Cymru wedi tanberfformio ar Feincnod y CPLIL o safbwynt defnydd, gyda chyfartaledd o 4.34% yn erbyn 6.08%, roedd hyn oherwydd lansiad y cronfeydd a phroses gymeradwyo'r benthycwyr oedd yn cael mynediad i'r asedau.

Fe wnaeth Cymru berfformio'n well na'r disgwyl ar sail ffi bwysol gyda thaeniad bps cyfartalog o 54.08 bps yn erbyn meincnod CPLIL o 23.48 bps, roedd hyn o ganlyniad i'r galw am stociau arbennig cyfeiriol sydd yn meddiant Cymru.

Oherwydd y ffioedd uwch ar asedau Cymru roedd y Dychweliad SL i'r portffolio benthyciadwy yn uwch na'i grŵp cymharol, ar 2.35bps o gymharu â 1.43bps.

CYFRADD DIFIDEND WNEUTHUREDIG (MDR)

Marchnad	Difidends	Marchnad	Difidends
Awstralia1	100	Mecsico	90
Awstralia	100	Yr Iseldiroedd	100
Gwlad Belg	100	Seland Newydd	85
Brasil2	100	Norwy	100
Canada	100	Gwlad Pwyl	81
Gweriniaeth Siec	65	Portiwgal	75
Denmarc	85	Singapôr	100
Y Ffindir	100	REITs Singapôr	100
Ffrainc	100	De Affrica4	80
Yr Almaen	90	De Corea	85
Hong Kong	100	Sbaen	100
Hwngari	100	Sweden	100
Iwerddon	100	Y Swistir	100
Israel3	100	Taiwan	79
Yr Eidal	85	Gwlad Tai	90
Japan	100	Y DU5	100
		UDA	100

1 Mae rhai difidends yn rhai 'heb eu ffrancio' a byddant yn gyda Threth Ataliedig (WHT).

2 Mae rhai difidends yn talu fel IOC (Llog Dros Gyfalaf) a byddant yn ysgwyddo'r WHT.

3 Bydd rhai gwarannau efallai'n talu gwahanol gyfraddau WHT.

4 Efallai bydd gwarannau 'inward listing' yn talu ar wahanol WHT.

5 Ar gyfer y DU mae'r gyfradd yn adlewyrchu dosbarthiad y gyfradd net.

- Mae Cyfraddau Difidend Gwneuthuredig (MDRs) yn cael eu defnyddio yn y diwydiant Cyllid Gwarannau i ddiffinio ar ba gyfradd y dylid gwneud Taliadau Difidend, a gronnir tra bod y gwarannau ar fenthyg, yn ôl i berchennog buddiannol.
- Oherwydd natur Trafodion Benthycia Gwarannau, mae'r cyfraddau hyn yn cynnwys gallu adennill y perchnogion buddiannol unigol.



Er enghraifft, efallai y byddai perchennog buddiannol yn dioddef 30% o Dreth Ataliedig (WHT) ar daliadau difidend Ffrengig gyda'r gallu i adennill 15% gan yr Awdurdod Treth Lleol. Yn y sefyllfa hon, byddai MDR y trafodiad benthycia yn cael ei osod ar 85% sef net y 30% WHT a'r 15% sy'n cael ei adennill.

- Nodwch os gwelwch yn dda mai dyma ein dealltwriaeth ni o'r MDRs fel maent yn gymwys i chi, ond ni fwriedir iddo fod yn ddadansoddiad cynhwysfawr o'r rheoliadau treth sy'n perthyn i fenthyca gwarannau.
- Gallai cleientiaid ar unrhyw adeg roi cyfarwyddyd ysgrifenedig i'r Asiant ddefnyddio cyfradd dreth gymwys i'ch incwm difidend gwneuthuredig sy'n wahanol i'r gyfradd a nodwyd. Hyd nes y derbynnir hysbysiad o'r fath, bydd eich asiant yn dal i ddefnyddio'r cyfraddau a welir yma. Bydd unrhyw newidiadau yn y farchnad yn y dyfodol sy'n effeithio ar eich cyfraddau yn dal i gael eu gweithredu, oni bai eich bod yn cynghori fel arall.

Bydd Northern Trust yn hawlio llog gwneuthuredig ar gyfradd o 100% ar gyfer pob gwarant incwm sefydlog o ddelir, waeth ym mha wlad yr ymgorfforwyd yr ased.

ADRODDIAD ECWITI BYD-EANG

- **Crynodeb Gweithredol**

Nid yw marchnadoedd ecwiti byd-eang wedi bod mor anwadal â hyn ers 2008. Fe wnaeth y prif fynegai ar gyfer ecwitis byd-eang, MSCI World, ddisgyn mwy nag 13% dros y mis, y lleihad misol unigol mwyaf ers mis Hydref 2008 a'r trydydd lleihad misol gwaethaf ers dechreuodd y mynegai yn 1970.

Daeth marchnadoedd stoc o dan bwysau aruthrol, gyda'r S&P yn disgyn 12% mewn un diwrnod yn unig, a'r mynegai'n cofnodi wyth diwrnod gydag enillion neu golledion o fwy na 5%.

Fe wnaeth banciau canolog ar draws y byd dorri cyfraddau llog a chyflwyno nifer o fesurau'n darparu hylifedd i helpu i gefnogi marchnadoedd

Fe wnaeth llywodraethau gyhoeddi pecynnau ysgogi pellgyrhaeddol er mwyn helpu'r rheini sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan yr argyfwng iechyd byd-eang.

Cyflwynwyd cyfyngiadau gwerthu byr mewn rhai gwledydd yn cynnwys: Awstria, Gwlad Belg, Ffrainc, Groeg, yr Eidal, Sbaen, Twrci, Malaysia, De Corea mewn ymdrech i warchod marchnadoedd ecwiti oedd yn dirywio

Disgwylir bydd dosbarthiadau difidend byd-eang yn disgyn yn is nag erioed wrth i gyrff llywodraethu a rheoleiddwyr annog cwmnïau, yn enwedig banciau, i dorri, canslo neu ohirio dosbarthiad 2020 i helpu i ddiogelu cyfalaf. Mae rhai dadansoddwyr yn rhagweld y bydd toriadau difidend ar gyfer yr S&P cymaint â 25-30%.

Mae cyfraddau defnydd cyffredinol ar draws ein llyfr benthycyca ecwiti byd-eang (ar ôl addasu ar gyfer symudiadau'r farchnad) wedi cynyddu yn sgil diddordeb byr cynyddol.

Erbyn canol y mis, roedd archwaeth risg y cronfeydd *'hedge fund'* wedi lleihau, gyda di-risgio eang yn digwydd wrth i farchnadoedd anwadal iawn nad ydynt yn perthyn i'w gilydd effeithio'n negyddol ar berfformiad.

ADRODDIAD ECWITI BYD-EANG

Tudalen 66

APAC

Yn ddirywiad mawr ym mhrif farchnadoedd Asia trwy'r mis wrth i deimladau buddsoddwyr dros gyfnod y coronafeirws, a ddechreuodd yn y rhanbarth, barhau i fod yn negyddol iawn.

Yn Hong Kong, fe wnaeth yr Hang Seng gyfyngu ei ddirywiadau misol i ffigyrau sengl gyda'r HSI yn cilio +9.5% am y cyfnod. Bu'r ddirywiad yn gyfyngedig, yn bennaf oherwydd sgil-ffaith mesurau ysgogi a gyhoeddwyd yn flaenorol yn Tsieina. Serch hyn, roedd hyd yn oed marchnadoedd y tir mawr yn cael eu tynnu i lawr eto erbyn diwedd y mis oherwydd yr ymdeimlad hynod negyddol yn fyd-eang.

Gostyngodd meintiau benthyciadau wrth i brisiau'r farchnad ddisgyn. Ymhellach i hyn, gwelsom fenthycwyr yn dad-weindio nifer o'u costau mwyaf drud i gario masnach wrth i'w cleientiaid 'hedge fund' geisio gostwng risg a chylchdroi amlygiadau byr (*short exposures*)

Yng Nghorea, fe wnaeth yr FSC gyhoeddi gwaharddiad llwyr ar weithgarwch gwerthu byr am gyfnod o 6 mis yn cychwyn ar 16 Mawrth, ac yn gorffen ar 15 Medi. Mae Corea wedi cyflwyno mesurau tebyg o'r blaen, yn arbennig ar ôl yr Argyfwng Ariannol Byd-eang. Fodd bynnag, ni wnaeth y mesurau unrhyw beth i wahaniaethu'r farchnad oddi wrth fynegai prif farchnadoedd eraill a diweddodd y KOSPI 11.69% i lawr am y mis.

Bu'r effaith hwn o safbwynt benthycy gwarannau yn gymedrol, fodd bynnag mae maint y benthyciadau sydd ar gael wedi disgyn wrth i safleoedd byr gael eu dad-weindio yn naturiol, heb eu hamnewid.

Roedd Japan yn un farchnad a aeth yn groes i'r patrwm yn y rhanbarth. Bu dyddiadau cofnodi difidends diwedd y mis ym mis Mawrth yn Japan yn gatalydd i'r cynnydd arferol mewn gweithgarwch tymhorol

Tuag at ddiwedd y mis roedd y farchnad yn disgwyl yn eiddgar i lywodraeth Abe gyhoeddi mesurau ysgog pellach er mwyn goresgyn y cwmp economaidd. Dirywiodd y Nikkei225 10.53% dros y mis.

Roedd gweithgarwch dyddiadau cofnodi difidend yn rhywfaint o gymorth i weithgarwch benthycy yn Awstralia wrth i ni symud trwy'r tymor enillion. Fodd bynnag, roedd athreuliad yn amlwg erbyn diwedd y mis o ganlyniad i brisiau cyfranddaliadau yn disgyn, wrth i werthoedd ar-fenthyg ddisgyn yn sylweddol. Erbyn 30 Mawrth roedd llywodraeth Awstralia wedi dechrau efelychu economïau mawr eraill gan gyhoeddi pecyn ysgogi gwerth A\$130bn ar ben mesurau roedd wedi eu cyhoeddi'n flaenorol. Fodd bynnag, roedd yr ASX 200 i lawr 21.18% ar ddiwedd y mis, sy'n ffigwr eithriadol.

Roeddem yn parhau i weld nifer o weithgareddau codi cyfalaf ar draws APAC a disgwylwn i'r patrwm hwn barhau wrth i gwmnïau frysio i godi arian er mwyn cynnal eu cronfeydd wrth gefn.

ADRODDIAD ECWITI BYD-EANG

- **EMEA**

Mae maint benthyciadau gwarannau wedi cynyddu yn sgil y cynnydd mewn diddordeb byr, yn arbennig yn y sectorau hynny sy'n fwyaf bregus i effeithiau COVID-19.

Y prif yrwyr tu ôl i hyn fu'r gostyngiad mewn symudedd ar draws y byd, ynghyd â'r effaith ar y gadwyn gyflenwi fyd-eang - mae'r sectorau allweddol yn cynnwys; Cwmnïau Hedfan, Teithio a Thwristiaeth, Ynni a Diwydiannau

Mae'r farchnad ecwiti wedi mynd yn fwy anwadal, ac o'r herwydd mae benthycwyr yn dal llai o stociau ecwiti mewnol, wrth i ddesgiau masnachu mewnol a chleientiaid werthu allan o safleoedd mynegai. Fe greodd y lleihad hwn mewn stociau mewnol fwy o angen i geisio cyflenwad o'r farchnad benthycyca gwarannau, gan helpu i gefnogi cyfraddau defnydd uwch.

Cyhoeddwyd nifer o waharddiadau gwerthu byr ar draws Ewrop mewn ymateb i'r anwadalrwydd cynyddol mewn prisiau. Maent yn amrywio yn eu sgôp a'u hyd. Prin iawn fu'r effaith o safbwynt Benthycyca Gwarannau, ac roedd unrhyw effaith yn un anuniongyrchol.

Meddalodd y gwahaniaethau ar fenthyciadau ('lending spreads') ar y cyfan ym mis Mawrth o ganlyniad i ddau beth: cwblhawyd nifer o ddigwyddiadau corfforaethol pwysig ym mis Chwefror, a gweithredodd nifer o farchnadoedd waharddiadau gwerthu byr mewn ymateb i gwympiadau llym mewn marchnadoedd ecwiti, oedd yn cyfyngu ar weithgarwch diddordeb byr yr hedge funds.

Roedd diddordeb byr presennol yn y sector manwerthu wedi aros yn uchel, o ystyried effaith symudedd cymdeithasol y feirws. Wedi dweud hynny, parhaodd y galw i ganolbwyntio ar gwmnïau a chanddynt ddyledion uchel.

Roedd y Prudent Regulation Authority, sef adain oruchwyliol y Bank of England, wedi rhoi anogaeth gref i Fanciau'r DU ganslo taliadau dididend er mwyn diogelu cyfalaf. Fe wnaeth nifer o fanciau mwyaf y wlad (gan gynnwys HSBC, Barclays a Standard Chartered) oll ganslo taliadau.

Mae'r galw am ETFs wedi cynyddu, gan gynnwys ETFs sectorau penodol a'r rheini sy'n tracio mynegai gwaelodol eang. Yn fwy penodol, gwelsom hefyd fwy o alw am fenthycyca ETFs sy'n efelychu perfformiad basgedi o fondiau corfforaethol Cynnyrch Uchel. Wrth i fuddsoddwyr geisio lleihau eu hamlygiad i asedau risg, bu llif sylweddol o gyfalaf allan o'r gofod cynnyrch uchel corfforaethol. Dyma fu'r catalydd i'r cynnydd mewn diddordeb byr, ar 'spreads' benthycyca sy'n sylweddol uwch. Rydym wedi gweld y ddeinameg hon yn digwydd yn Ewrop ac yn yr UD.

ADRODDIAD ECWITI BYD-EANG

Tudalen 68

AMERICAS

Mae pob un o brif fynegai'r UD wedi disgyn, gyda'r S&P 500, Dow Jones a Nasdaq yn disgyn 12.5%, 13.7% a 10.1% yn eu trefn. Fe wnaeth y cwmp yn yr S&P 500 roi terfyn ar ei farchnad gynnydd (*bull market*) hiraf mewn hanes.

Fe wnaeth Federal Reserve yr UD ostwng ei brif gyfradd llog yn agos at sero, gan gyhoeddi ei fod yn prynu, heb gyfyngiad, Trysorlysoedd yr UD a gwarannau â morgais tu cefn iddynt oedd wedi'i sicrhau gan asiantaethau'r llywodraeth. Fe wnaeth hefyd ailgyflwyno cyfres o gyfleusterau yn dyddio'n ôl i 2008 i gefnogi marchnadoedd credyd.

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y gwarannau a fenthycir ym mis Mawrth yn sgil marchnad-i-farchnad negyddol o ystyried bod y farchnad 'wedi'i gwerthu'. Roedd y galw gan fenthycwyr ar gynnydd, ond wnaeth hynny ond lleddfu dibrisiant y farchnad yn rhannol.

Fe wnaeth rheolwyr cronfeydd '*hedge funds*' ddad-risgio eu portffolio er mwyn profi llai o effaith y farchnad anwadal. Bu cynnydd mewn diddordeb byr ar draws y sectorau hynny sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan y cyfyngder ar symudedd byd-eang (cwmnïau hedfan, teithio a thwristiaeth).

Bu cynnydd sylweddol yn y galw i fenthycia ETF's sy'n tracio mynegai. Mae'r dosbarth asedau hwn yn declyn effeithlon i fuddsoddwyr *hedge* yng nghyswllt eu hamlygiad hir i brisiadau marchnadoedd ecwiti sy'n dirywio.

Mewn llofydd eraill, mae symud i asedau 'hafan diogel' wedi bod yn gatalydd i lif sylweddol allan o gynnyrch uchel corfforaethol. Mae sawl cronfa ETF cynnyrch uchel, gan gynnwys ETF cynnyrch uchel BlackRock (HYG) wedi gweld arian sylweddol yn llifo allan. Bu hyn yn gatalydd i gynnydd sylweddol mewn diddordeb byr, ar '*spreads*' benthycia ehangach.

Ar ddiwedd y mis yng Nghanada roedd y mynegai SPTSX Composite Index wedi disgyn 18.83% er gwaetha'r ffaith iddynt gyflwyno nifer o becynnau ysgogi ariannol o bwys.

Mewn ymdrech i leddfu effaith economaidd COVID-19, torrodd y BoC y gyfradd feincnod dros nos ar dri achlysur ym mis Mawrth, 50bps bob tro, gyda'r gyfradd yn disgyn o 1.75% i 0.25%.

Gwelodd y sectorau lletygarwch, eiddo tirol a theithio gynnydd mewn diddordeb byr. Roedd stociau ariannol wedi dioddef yn sgil y toriadau llym i'r cyfraddau gan y BoC, tra bod prisiau ynni wedi mentro'n is nag erioed yn sgil y rhyfel prisiau rhwng Saudi Arabi a Rwsia, gan beri cwmp enfawr mewn prisiau crai.

DYLED Y LLYWODRAETH FEL SICRWYDD CYFOCHROG DERBYNIOL I NORTHERN TRUST

- Mae Northern Trust yn derbyn dyled llywodraethau'r OECD fel sicrwydd cyfochrog (*collateral*) ar ran ein cleientiaid os yw wedi'i restru fel sicrwydd cyfochrog derbyniol yn ôl canllawiau'r cleient ar sicrwydd cyfochrog. Gellir derbyn dyled llywodraethau'r OECD fel sicrwydd cyfochrog wrth fenthycu naill ai incwm sefydlog neu warannau ecwiti.
- Mae Northern Trust ar hyn o bryd yn fodlon derbyn dyled llywodraethau'r OECD gan y gwledydd a ganlyn, ond fe allai hyn newid. Mae'n bosib y gallai Northern Trust weithredu gyda gofynion mwy ceidwadol, ar ei ddisgresiwn ei hun.

Gwlad	Gradd Standard & Poor's	Gradd Moody's	Gradd Fitch
Awstria	AA+	Aa1	AA+
Awstralia	AAA	Aaa	AAA
Canada	AAA	Aaa	AAA
Denmarc	AAA	Aaa	AAA
Y Ffindir	AA+	Aa1	AA+
Ffrainc	AA	Aa2	AA
Yr Almaen	AAA	Aaa	AAA
Japan	A+	A1	A
Yr Iseldiroedd	AAA	Aaa	AAA
Seland Newydd	AA	Aaa	AA
Norwy	AAA	Aaa	AAA
Sweden	AAA	Aaa	AAA
Y Swistir	AAA	Aaa	AAA
Y DU	AA	Aa2	AA
UDA	AA+	Aaa	AAA

ADRODD AR DRAFODION CYLLIDO GWARANNAU - SFTR

Tudalen 70

Sgôp y Rheoleiddio

Manyllder a Newidiadau

Ystyriaethau

Camau Nesaf

- Trefn o adrodd trafodion gyda'r nod o roi golwg ar weithgarwch y farchnad i reoleiddwyr.
- Cyflwyno'r data benthycyca ar sail T+1 gyda'r data ar sicrwydd cyfochrog ar SD+1.
- Mae disgwyl i'r holl gyfranogwyr sydd â'u cartref yn yr UE adrodd, gyda'r gobaith o fynd yn fyw yn Ch2 2020.
- Mae'r sgôp yn ymestyn i gyfranogwyr tu allan i'r UE, er mwyn cefnogi rhwymedigaethau adrodd y rheini sydd â'u cartref o fewn yr UE.

- 140+ o feysydd posib i'w hadrodd, yn dibynnu ar strwythur y trafodiad
- Bydd rhaid cael Rhif Adnabod Trafodiad Unigryw ("UTI") i bob trafodiad, a bydd rhaid i'r rhif hwn gyfateb ar ddwy ochr y trafodiad.
- Bydd gofyn i bob trafodiad gael 'stamp amser' gweithredu, a bydd rhaid iddo gyfateb yn ddigon agos i bob rheswm.
- Bydd gofyn i'r perchennog buddiannol, o dan y rheoliad newydd, adrodd pob trafodiad, bob dydd.
- Mae'n rhaid darparu data am y benthyciad a sicrwydd cyfochrog ar gyfer benthycwyr tu allan i'r UE wrth fenthycyca i fenthycwyr yn yr UE.

- Mae'r cyfrifoldeb am adrodd yn perthyn i'r perchennog buddiannol - nid yr asiant sy'n rhoi benthycyca - a benthyciwr sy'n byw yn yr UE.
- Bydd Northern Trust yn cynnig gwasanaethau adrodd ar ran ei gleientiaid.
- Bydd rhaid i'r holl gleientiaid sy'n cymryd rhan yn rhaglen fenthycyca Northern Trust fod â LEI.
- Bydd angen gwneud addasiadau i'r contractau SLAA i gynnwys SFTR.

- Mae Northern Trust yn gweithio gyda nifer o werthwyr amrywiol i werthuso'r datrasiad gorau.
- Mae hefyd yn ymgysylltu'n ddwys ag ISLA wrth ddatblygu ymarfer y farchnad i gefnogi'r gweithrediad
- Mae prosiect TG mewnlol ar waith i wneud newidiadau angenrheidiol i gefnogi'r broses adrodd
- Mae cyfres o gyfathrebiadau â chleientiaid wedi'u cynllunio yn 2018 a 2020 i addysgu a pharatoi cleientiaid benthycyca ar gyfer y gweithredu.



GWYBODAETH BWYSIG

Hysbysiad Cyfrinachedd: Mae'r cyfathrebiad hwn yn gyfrinachol, gallai fod yn freintiedig, ac fe'i bwriedir dim ond i'r derbynnydd bwriadedig. Os nad chi yw'r derbynnydd bwriadedig, rhoch wybod i'r anfonwr cyn gynted â phosib. Mae'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn y cyflwyniad hwn, gan gynnwys y disgrifiad o Northern Trust, ei systemau, prosesau a methodoleg prisio, yn wybodaeth sy'n eiddo i Northern Trust. Wrth ystyried derbyn y deunyddiau hyn, mae'r derbynnydd yn cytuno y bydd yn cadw'r holl ddeunydd o'r fath yn gwbl gyfrinachol ac na fydd, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Northern Trust, yn dosbarthu deunyddiau o'r fath neu unrhyw ran ohonynt i unrhyw berson tu allan i sefydliad y derbynnydd nac i unrhyw unigolyn o fewn sefydliad y derbynnydd nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol ag adolygu'r cyflwyniad hwn, oni bai bod rhaid iddo wneud hynny yn ôl cyfraith berthnasol. Os yw'r derbynnydd yn ymgynghorydd sy'n gweithredu ar ran cleient trydydd parti, caiff y derbynnydd rannu deunyddiau o'r fath gyda'i gleient os bydd yn cynnwys copi o'r cyfyngiadau hyn gyda'r fath ddeunyddiau. Mewn achos o'r fath, mae'r cleiet yn cytuno i gydymffurfio â'r cyfyngiadau hyn pan fo'n ystyried derbyn deunyddiau o'r fath.

© 2020 Northern Trust Corporation. Prif Swyddfa: 50 South La Salle Street, Chicago, Illinois 60603 U.S.A. Ymgorfforwyd fel cwmni cyfyngedig yn yr U.D. Mae'n bosib y bydd cynnyrch a gwasanaethau a ddarperir gan is-gwmnïau Northern Trust yn amrywio mewn gwahanol farchnadoedd a chânt eu cynnig yn unol â rheoliadau lleol. Mae'r deunydd hwn wedi'i anelu at gleientiaid proffesiynol yn unig ac nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer cleientiaid manwerthu. Ar gyfer marchnadoedd Asia-Pasifig, mae wedi'i anelu at fuddsoddwyr arbenigol, sefydliadol, proffesiynol a chyfanwerthu yn unig ac ni ddylai cleientiaid neu fuddsoddwyr manwerthu ddibynnu arno. **I gael gwybodaeth gyfreithiol a rheolaethol am ein swyddfeydd ac endidau cyfreithiol, ewch i northerntrust.com/disclosures.** Darperir y wybodaeth a ganlyn i gydymffurfio â gofynion datguddio lleol: The Northern Trust Company, Cangen Llundain; Northern Trust Global Services SE; Northern Trust Global Investments Limited; Northern Trust Securities LLP. Northern Trust Global Services SE, Cangen Abu Dhabi, Rhif cofrestru 000000519 trwyddedwyd gan ADGM o dan FSRA # 160018. The Northern Trust Company of Saudi Arabia - cwmni caeedig cyd-stociau Sawdi – Cyfalaf SAR 52 miliwn. Trwyddedwyd gan y Capital Market Authority – Rhif trwydded 12163-26 - C.R: 1010366439. Northern Trust Global Services SE Luxembourg Branch, 6 rue Lou Hemmer, L-1748 Senningerberg, Grand-Duché de Luxembourg, *Succursale d'une société de droit étranger* RCS B129936. Northern Trust Luxembourg Management Company S.A., rue Lou Hemmer, L-1748 Senningerberg, Grand-Duché de Luxembourg, *Société anonyme* RCS B99167. Northern Trust (Guernsey) Limited (2651)/Northern Trust Fiduciary Services (Guernsey) Limited (29806)/Northern Trust International Fund Administration Services (Guernsey) Limited (15532) Swyddfa Gofrestredig: Trafalgar Court Les Banques, St Peter Port, Guernsey GY1 3DA.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

DYDDIAD 17 GORFFENAF 2020

PWNC

**POLISI GWEITHDREFNAU A GWRTHDARO BUDDIANNAU
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL ANGENRHEIDIOL:

Cymeradwyo Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau Partneriaeth Pensiwn Cymru

RHESYMAU:

Mae Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau wedi'i ddatblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae agen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ei gymeradwyo.

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn: 01267 224160

E-bost: CMoore@sirgar.gov.uk

**CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

DYDDIAD 17 GORFFENAF 2020

**POLISI GWEITHDREFNAU A GWRTHDARO BUDDIANNAU
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

CRYNODEB BYR O DDIBEN YR ADRODDIAD

Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddyletswydd ymddiriedol a chyfreithiol i weithredu er budd rhanddeiliaid a buddiolwyr y bartneriaeth, ond nid yw hyn yn atal Personél a Darparwyr y Bartneriaeth rhag bod â swyddogaethau neu gyfrifoldebau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau. Mae'n bwysig y dilynir egwyddorion llywodraethu da ac y caiff polisi gweithdrefnau a gwrthdaro buddiannau, fel hwn, ei weithredu i amlinellu sut y caiff gwrthdaro ei adnabod, ei reoli a'i fonitro.

Mae'r polisi yn berthnasol i holl Personél a Darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r rhestr gyfredol o Personél a Darparwyr y Bartneriaeth wedi ei hatodi. Bydd ar gael ar wefan y Bartneriaeth ac fe gaiff ei diweddarau yn ôl yr angen.

Hefyd mewn atodiad ceir copi o'r Gofrestr Gwrthdaro Buddiannau y bydd yr Awdurdod Lletyol yn ei chadw.

Caiff y Polisi ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion yn flynyddol a'i ddiweddarau os oes angen. Fodd bynnag, gellir adolygu neu ddiwygio'r Polisi yn amlach os bydd angen i'r Bartneriaeth ystyried canllawiau neu reoliadau perthnasol. Bydd Polisi'r Bartneriaeth yn eitem flynyddol ar agenda'r Cydbwyllgor Llywodraethu, a bydd hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn darparu tryloywder llwyr o ran gwrthdaro buddiannau o leiaf unwaith y flwyddyn.

**A OES ADRODDIAD MANWL
MEWN ATODIAD?**

OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol DIM	Cyllid DIM	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM
Polisi Datblygwyd polisi gweithdrefnau a gwrthdaro buddiannau a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 – Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndirol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

RHODDIR MANYLION Y RHAIN ISOD

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod y Ffeil	Lleoliadau y mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio / DOLEN GWEFAN

Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau ("y Polisi")

Cyflwyniad

1. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r egwyddorion y disgwylir i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ("y Cydbwyllgor"), y Gweithgor Swyddogion ("y Gweithgor"), yr Awdurdod sy'n Lletya, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru", ynghyd â chynghorwyr a chyflenwyr ("y Darparwyr") eu dilyn at ddiben adnabod, rheoli a monitro achosion o wrthdaro buddiannau mewn cysylltiad â'r ddyletswydd y maent yn ei chyflawni ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ("y Bartneriaeth").
2. Bu'n rhaid i Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth adnabod, rheoli a monitro achosion o wrthdaro buddiannau erioed. Mae'r broses o gyfuno cronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi golygu bod yn rhaid i Bartneriaeth Pensiwnau Cymru hefyd ymdrin â gwrthdaro buddiannau. Nid yw hyn ond yn adlewyrchu'r ffaith y bydd gan Personél a Darparwyr y Bartneriaeth amrywiaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau eraill, er enghraifft fel aelodau o Gynlluniau yr Awdurdodau Cyfansoddol neu fel cynghorwr i fwy nag un o Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth.
3. Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd ymddiriedol a chyfreithiol i weithredu er budd rhanddeiliaid a buddiolwyr y Bartneriaeth, ond nid yw hyn yn atal Personél a Darparwyr y Bartneriaeth rhag bod â swyddogaethau neu gyfrifoldebau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau. Mae'n bwysig y dilynir egwyddorion llywodraethu da ac y gweithredir polisi gweithdrefnau a gwrthdaro buddiannau, fel hwn, i amlinellu sut y caiff gwrthdaro ei adnabod, ei reoli a'i fonitro,
4. Amcan y Bartneriaeth wrth baratoi a gweithredu'r polisi hwn yw gallu:
 - 1.1 dangos ei ymrwymiad i adnabod, rheoli a monitro achosion o wrthdaro buddiannau.
 - 1.2 glynu wrth gred y Bartneriaeth y bydd llywodraethu a thryloywder da yn sicrhau canlyniadau gwell i randdeiliaid y Bartneriaeth.
 - 1.3 parhau â gwaith y Bartneriaeth i greu fframwaith gwneud penderfyniadau a llywodraethu sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau i randdeiliaid y Bartneriaeth.
5. Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu diffiniad o wrthdaro buddiannau sy'n cynnwys gwrthdaro posibl, tybiedig a gwirioneddol. Mae'r Bartneriaeth yn deall efallai na fydd yn bosibl adnabod, rheoli a monitro pob gwrthdaro buddiannau posibl a thybiedig, fodd bynnag, bydd yn ymdrechu i adnabod, rheoli a monitro'r achosion hyn o wrthdaro pan fo'n bosibl.
6. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod methiant i reoli achosion o wrthdaro buddiannau yn peri risgiau materol i'r Bartneriaeth, a gall canlyniadau hyn gynnwys penderfyniadau nad ydynt er budd rhanddeiliaid y Bartneriaeth, effaith negyddol ar enw da y Bartneriaeth, a chyfeirio i gyrff rheoleiddio. Mae sawl elfen y mae angen cadw golwg arnynt a'u rheoli er mwyn gallu gweithredu'r polisi hwn yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - 1.4 Cyfathrebu'r cyfrifoldebau a amlinellir yn y polisi hwn mewn modd effeithiol.
 - 1.5 Adnabyddiaeth a pherchenogaeth glir o'r swyddogaethau a amlinellir yn y polisi hwn.
 - 1.6 Hyfforddiant a dealltwriaeth addas o'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a amlinellir yn y polisi hwn.
7. Mae'r Polisi hwn wedi'i gynllunio i roi arweiniad i Personél a Darparwyr y Bartneriaeth, a'i ddiben yw sicrhau nad yw Personél a Darparwyr y Bartneriaeth yn gweithredu'n amhriodol. Datblygwyd y Polisi hwn gan y Bartneriaeth mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae rhestr o Personél a Darparwyr y Bartneriaeth ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Bartneriaeth.

8. Mae'r Polisi hwn yn adlewyrchu cred y Bartneriaeth y bydd llywodraethu da a mwy o dryloywder yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac yn esgor ar ganlyniadau gwell ar gyfer rhanddeiliaid y Bartneriaeth. Mae'n rhaid i'r Bartneriaeth geisio bod yn ymwybodol o achosion o wrthdaro buddiannau a sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i'w rheoli. Mae'r Polisi hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau y mae'r Bartneriaeth wedi eu mabwysiadu i wneud hyn.
9. Bydd yr Awdurdod sy'n Lletya yn gyfrifol am fonitro gwrthdaro buddiannau a sicrhau bod holl Personél a Darparwyr y Bartneriaeth yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn ei ddilyn. Bydd yr Awdurdod sy'n Lletya yn casglu datganiadau o wrthdaro at ei gilydd ac yn llunio a chadw cofrestr gwrthdaro buddiannau.
10. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod hyfforddiant ac addysg yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau da a bydd yn dyrannu adnoddau i sicrhau ei bod yn ymgymryd â gweithgareddau hyfforddiant ac addysg rheolaidd ynglŷn ag adnabod, rheoli a monitro achosion o wrthdaro buddiannau.
11. Sylwch fod y Polisi hwn yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar wrthdaro buddiannau a allai ddeillio o'r gwaith y mae Personél neu Ddarparwyr y Bartneriaeth yn ei wneud ar ran y Bartneriaeth. Mae Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth yn parhau i fod yn gyfrifol am reoli'r gwrthdaro buddiannau y gallai Personél neu Ddarparwyr y Bartneriaeth eu hwynebu wrth wneud gwaith ar lefel Awdurdod Cyfansoddol. Yn ogystal â bodloni gofynion a disgwyliadau'r Polisi hwn, dylai Personél a Darparwyr y Bartneriaeth barhau i lynu wrth unrhyw bolisïau eraill o reoli gwrthdaro buddiannau y maent yn rhwym wrthynt. Gall hyn gynnwys polisïau cwmni neu Awdurdod Cyfansoddol neu godau ymddygiad perthnasol eraill.
12. Caiff Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau y Bartneriaeth ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion yn flynyddol a'i ddiweddarau os bydd angen. Fodd bynnag, gellir adolygu neu ddiwygio'r Polisi yn amlach os bydd angen i'r Bartneriaeth ystyried canllawiau neu reoliadau perthnasol. Bydd Polisi y Bartneriaeth yn eitem flynyddol ar agenda'r Cydbwyllgor Llywodraethu, a bydd hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn darparu tryloywder llwyr ynglŷn â gwrthdaro buddiannau o leiaf unwaith y flwyddyn.

Diffinio a Dehongli

13. Mae'r Bartneriaeth, wrth lunio'r Polisi hwn, wedi dilyn yr egwyddor sylfaenol o wrthdaro buddiannau – ni ddylai dyn roi ei hun mewn sefyllfa lle mae gwrthdaro rhwng dyletswydd a buddiant neu lle mae ei ddyletswydd i un yn gwrthdaro â'i ddyletswydd i rywun arall oni chaiff ei awdurdodi'n benodol (Achos yn yr Uchel Lys – Setliad Re Thompson [1986]).
14. Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu diffiniad Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 o wrthdaro buddiannau, sy'n datgan bod gwrthdaro buddiannau yn fuddiant ariannol neu o fath arall sy'n debygol o ddylanwadu ar y modd y mae rhywun yn arfer ei swyddogaethau.
15. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod y gall gwrthdaro buddiannau ddigwydd pan fydd gan Personél neu Ddarparwr y Bartneriaeth gyfrifoldeb neu ddyletswydd ymddiriedol yn y broses o weithredu, gwneud penderfyniadau neu reoli'r Bartneriaeth, ond y mae ganddo hefyd:
 - 1.7 Fuddiant personol neu gorfforaethol ar wahân, a all fod yn ariannol neu beidio o ran ei natur
 - 1.8 Cysylltiad arall â'r mater a allai arwain at wrthdaro posibl â'i brif gyfrifoldeb i'r Bartneriaeth. Gallai'r buddiant hwn fod oherwydd cysylltiad a gall fod oherwydd bod gan aelod o'r teulu neu gydweithiwr rwymedigaeth neu fuddiant

Polisi a Gweithdrefn

16. Er mwyn i'r Polisi hwn weithio mae Personél a Darparwyr y Bartneriaeth wedi cytuno bod yn rhaid iddynt:
 - 1.9 gydnabod gwrthdaro buddiannau a allai fod ganddynt;

- 1.10 bod yn agored â'i gilydd ynglŷn ag unrhyw wrthdaro buddiannau a allai fod ganddynt;
 - 1.11 mabwysiadu atebion ymarferol; a
 - 1.12 chynllunio ymlaen llaw a chytuno ar sut y byddant yn rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi.
17. Gan gadw'r amcanion hyn mewn cof, mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu'r weithdrefn ganlynol er mwyn sicrhau tryloywder llwyr a chaniatáu ar gyfer cadw cofnod manwl o unrhyw wrthdaro buddiannau o fewn y Bartneriaeth:
- 1.13 Bydd holl Bersonél y Bartneriaeth yn darparu, pan y'u penodir, ac unwaith y flwyddyn wedi hynny, ddatganiad o fuddiant a phartïon cysylltiedig a gaiff wedyn ei gadw ac a fydd ar gael yn rhwydd i holl Bersonél y Bartneriaeth ei weld ar borth dogfennau'r Bartneriaeth. Bydd angen i Bersonél y Bartneriaeth roi gwybod i'r Awdurdod sy'n Lletya ar unwaith os bydd unrhyw newid yn yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eu datganiad, a bydd yn rhaid iddynt hefyd ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o'r newidiadau. Ar ddechrau cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu bydd yn rhaid i bob Aelod o'r Cydbwyllgor ddatgan yn ffurfiol unrhyw wrthdaro buddiannau sydd ganddynt. Bydd yn rhaid i bob aelod arall o Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth hefyd ddatgan unrhyw wrthdaro sy'n gysylltiedig ag unrhyw eitem sydd ar agenda'r cyfarfod. Bydd yn rhaid i'r rhai sy'n bresennol yng nghyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion ddatgan a yw eu datganiadau yr un fath â'r cyfarfod diwethaf, ac fe wneir hyn ar ddechrau pob cyfarfod y Gweithgor.
 - 1.14 Os oes unrhyw aelodau o Bersonél y Bartneriaeth o'r farn bod ganddyn nhw, neu aelod arall o gymuned y Bartneriaeth, achos o wrthdaro buddiannau yn ymwneud â phwnc penodol, mae'n rhaid iddynt roi gwybod i'r Swyddog Monitro, fel y gellir ceisio cyngor. Trwy wneud hyn, gellir gwneud nodyn yn y cofnodion o'r gwrthdaro buddiannau a'r hyn a wnaed. Gwneir cofnod hefyd yng nghofrestr gwrthdaro buddiannau y Bartneriaeth.
 - 1.15 Os oes unrhyw aelodau o Bersonél y Bartneriaeth o'r farn bod ganddyn nhw, neu aelod arall o gymuned y Bartneriaeth, achos o wrthdaro buddiannau sydd wedi codi rhwng cyfarfodydd, dylent roi gwybod i'r Awdurdod sy'n Lletya ar y cyfle cyntaf. Dylid darparu cadarnhad ysgrifenedig hefyd. Bydd yr Awdurdod sy'n Lletya yn rhoi gwybod am y gwrthdaro i Bersonél y Bartneriaeth. Gwneir cofnod yng Nghofrestr Gwrthdaro Buddiannau y Bartneriaeth hefyd.
 - 1.16 Bydd yn ofynnol i Ddarparwyr y Bartneriaeth roi manylion i'r Awdurdod sy'n Lletya am eu gweithdrefn rheoli gwrthdaro neu eu cod ymarfer proffesiynol. Rhoddir copi o'r polisi hwn i Ddarparwyr pan gânt eu penodi.
 - 1.17 Mae'n ofynnol i Ddarparwyr y Bartneriaeth gadarnhau y byddant yn datgelu i'r Awdurdod sy'n Lletya unrhyw wrthdaro buddiannau a allai godi, gan gynnwys unrhyw ymrwymadau trydydd parti cysylltiedig.
 - 1.18 Gall unrhyw aelodau o Bersonél y Bartneriaeth a Darparwyr y Bartneriaeth nodi gwybodaeth y credant na ddylid ei rhannu y tu allan i'r Bartneriaeth a hysbysu'r Awdurdod sy'n Lletya. Gall hyn ymwneud ag unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu sensitif megis ar gyfer penodiadau rheolwyr posibl diwygiadau i strategaethau buddsoddi neu ddatganiadau personol o wrthdaro. Yna bydd yr Awdurdod sy'n Lletya yn cynghori Personél y Bartneriaeth, gan ofyn iddynt benderfynu sut i frw ymlaen.
18. Bydd y Bartneriaeth yn ceisio rheoli gwrthdaro buddiannau mewn ffordd deg a chytbwys. Mae'r Bartneriaeth wedi rhoi proses uwchgyfeirio pedwar cam ar waith er mwyn rheoli yn effeithiol unrhyw wrthdaro buddiannau a ganfuwyd y mae angen eu rheoli ymhellach:

- 1.19 Gall y Bartneriaeth ofyn am ragor o fanylion am y gwrthdaro buddiannau perthnasol er mwyn sicrhau y deallir natur ac effaith bosibl hynny yn llawn.
- 1.20 Os oes angen, bydd y Bartneriaeth yn gofyn i'r Personél neu'r Darparwr perthnasol ymatal neu eithrio ei hun yn wirfoddol o'r mater y mae eu buddiannau yn gwrthdaro ag ef.
- 1.21 Os yw'r Personél neu'r Darparwr perthnasol yn amharod i ymatal neu eithrio ei hun, bydd y Bartneriaeth yn sicrhau y caiff y Personél neu'r Darparwr perthnasol e eithrio o'r mater y mae ei fuddiannau yn gwrthdaro ag ef.
- 1.22 Os bydd yr holl ymdrechion blaenorol yn methu, gall y Bartneriaeth ofyn i Personél neu Ddarparwr perthnasol y Bartneriaeth ymddiswyddo.

Bydd proses uwchgyfeirio pedwar cam y Bartneriaeth yn addas yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, mae'n bosibl y cyfyd sefyllfaoedd pan fo angen elfen o hyblygrwydd. Yn yr achosion hyn, bydd y Bartneriaeth yn defnyddio'i disgresiwn i sicrhau y caiff y gwrthdaro perthnasol ei reoli'n gyflym ac yn effeithiol. Er enghraifft, efallai ei bod yn amlwg o'r cychwyn cyntaf mai dim ond drwy ymddiswyddiad y Personél neu'r Darparwr perthnasol o'r Bartneriaeth y gellir rheoli gwrthdaro buddiannau yn effeithiol.

Canllawiau a Deddfwriaeth

- 19. Mae'r Bartneriaeth yn nodi nad oes deddfwriaeth benodol wedi ei darparu hyd yma gan y Llywodraeth ynglŷn â rheoli'r achosion o wrthdaro buddiannau a allai ddeillio o gyfuno cronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, wrth lunio'r polisi hwn mae'r Bartneriaeth wedi ystyried ac ymgorffori'r canllawiau a'r rheoliadau canlynol, ac mae llawer o'r rhain wedi'u bwriadu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r Cynllun Pensiwn Sector Preifat, ond sydd yr un mor berthnasol i gronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- 20. Mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn canolbwyntio ar Fyrddau Pensiynau, ond wrth lunio'r polisi hwn mae'r Bartneriaeth wedi pwyso ar y canllawiau canlynol o'r Ddeddf: Mae'n rhaid i'r Bartneriaeth;
 - 1.23 Fod yn fodlon, adeg penodi, nad oes gan Personél y Bartneriaeth unrhyw wrthdaro buddiannau na ellir ei reoli a'i fonitro yn briodol.
 - 1.24 Bod yn fodlon o bryd i'w gilydd nad oes gan unrhyw Personél y Bartneriaeth wrthdaro buddiannau na ellir ei reoli a'i fonitro yn briodol.
 - 1.25 Ei gwneud hi'n ofynnol i Personél y Bartneriaeth, neu unigolyn a benodir maes o law, roi i'r Bartneriaeth yr wybodaeth berthnasol y mae'n rhesymol gofyn amdani i'r Bartneriaeth fod yn fodlon ar bwyntiau 20.1 ac 20.2.

Sylwer bod rheoliad 108 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 yn cymhwysu gofynion Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

- 21. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Bwrdd Cyngori'r Cynllun ac yn ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol mewn cysylltiad â gwrthdaro buddiannau a'r broses o reoli'r rhain yn effeithiol. Bydd y Bartneriaeth yn diweddarau'r polisi hwn pan fydd angen er mwyn sicrhau ei fod yn gydnaws â chanllawiau perthnasol.
- 22. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod yn rhaid i aelodau etholedig Awdurdodau Cyfunol ystyried yn briodol 'Deg Egwyddor Arweiniol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru' wrth gyflawni eu swyddogaeth ddynodedig. Yn unol â chanllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r Bartneriaeth yn disgwyl i holl Personél y Bartneriaeth fod yn ymwybodol o'r deg egwyddor ac i gydnabod pwysigrwydd ac arwyddocâd

yr egwyddorion hyn wrth ymgymryd â gwaith ar ran y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth wedi ystyried yr egwyddorion hyn wrth lunio'r Polisi hwn ac mae'n nodi ei bod hi'n bwysig i Bersonél y Bartneriaeth fabwysiadu'r egwyddorion hyn i sicrhau y gweithredir y Polisi hwn yn effeithlon:

- 1.26 Anhunanoldeb
 - 1.27 Gonestrwydd
 - 1.28 Uniondeb a phriodoldeb
 - 1.29 Dyletswydd i gynnal y gyfraith
 - 1.30 Stiwardiaeth
 - 1.31 Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
 - 1.32 Cydraddoldeb a pharch
 - 1.33 Diffuantrwydd
 - 1.34 Atebolrwydd
 - 1.35 Arweinyddiaeth
23. Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi darparu canllawiau i helpu i reoli gwrthdaro buddiannau mewn nifer o godau ymarfer a chanllawiau a gyhoeddwyd ers mis Ebrill 2005, gan gynnwys ei ganllawiau ar wrthdaro buddiannau. Roedd Adran 90A. 2G o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yn datgan y byddai'n ofynnol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau gyhoeddi cod ymarfer yn ymwneud â gwrthdaro buddiannau. Lluniodd y Rheoleiddiwr Pensiynau ddogfen Canllawiau Gwrthdaro Buddiannau. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod y canllawiau hyn wedi'u llunio â golwg ar Fyrddau Pensiynau, ond ystyriwyd yr egwyddorion cyffredinol a'r canllawiau wrth ddatblygu'r cod hwn. Rhoddwyd dogfen Canllawiau Gwrthdaro Buddiannau y Rheoleiddiwr i bob aelod o'r Bartneriaeth ac mae modd ei gweld trwy fynd i gyfleuster storio dogfennau ar-lein y Bartneriaeth. Gellir dod o hyd i'r codau a'r canllawiau ar wefan y rheoleiddiwr - www.thepensionsregulator.gov.uk
24. Mae adroddiad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Egwyddorion Llywodraethu Cyfuno Buddsoddiadau ar gyfer Awdurdodau Gweinyddu y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn nodi y bydd dechrau cyfuno cronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael effaith sylweddol ar swyddogaethau Aelodau pwyllgor, cynrychiolwyr, swyddogion a chynghorwyr y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i ddiweddarau polisiau gwrthdaro buddiannau i adlewyrchu'r gwrthdaro newydd a allai godi yn sgil cyfuno cronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Roedd y Bartneriaeth yn disgwyl i'r Personél hysbysu eu Hawdurdod Cyfansoddol yn rhagweithiol o unrhyw wrthdaro newydd a allai ddeillio o'u gweithgareddau gyda'r Bartneriaeth. Hefyd, mae'r Bartneriaeth wedi ystyried y gwrthdaro newydd a allai ddeillio o gyfuno cronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wrth lunio'r polisi hwn, ac mae wedi ceisio gweithredu polisiau a gweithdrefnau a fydd yn rheoli'r achosion hyn o wrthdaro.

Rhagor o Wybodaeth

25. Os oes angen rhagor o fanylion arnoch am Bolisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau y Bartneriaeth, cysylltwch â partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk.

Fersiwn 1.0
Mehefin 2020

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

PPC – Cofrestr Gwrthdaro Buddiannau

Bwriad y ddogfen hon yw cofnodi a monitro gwrthdaro buddiannau Personél a Darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru.



Enghreifftiau

Ymhlith y meysydd posibl a allai beri gwrthdaro buddiannau mae:

- Bod yn Aelod Cynllun yn un o Gynlluniau yr Awdurdod Cyfansoddol sylfaenol.
- Darparu cyngor neu wasanaethau eraill i un o'r Awdurdodau Cyfansoddol sylfaenol a darparu'r un gwasanaethau i Bartneriaeth Pensiwn Cymru.
- Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn gwahoddiad i ginio gan ddarparwr posibl sydd wedi cyflwyno cynnig neu sy'n tendro am swyddogaeth.
- Darparwr Partneriaeth Pensiwn Cymru yn darparu cyngor neu wasanaeth i Gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol arall.
- Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru yn trafod mater a allai fod o fudd i'w Awdurdod Cyfansoddol lleol ar draul yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill.

Dyddiad nodi	Enw	Swyddogaeth	Manylion y gwrthdaro a nodwyd	Gwrthdaro Gwirioneddol neu Bosibl	Manylion yr hyn a wnaed i reoli/monitro'r gwrthdaro	Dyddiad Adolygu	Dyddiad Datrys / Nid Yw'n Ofynnol Monitro Mwyach
Enghraifft							
20/04/2020	John Williams	Aelod o'r Cydbwyllgor Llywodraethu	Aelod Cynllun un o Gynlluniau yr Awdurdod Cyfansoddol	Gwirioneddol	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Cynghorydd Smith yn datgan ei wrthdaro ar ddechrau pob cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu. • Mae'n rhaid i'r Cynghorydd Smith roi gwybod i'r Awdurdod Lletyol ar unwaith os bydd unrhyw newid i'r gwrthdaro hwn. • Ac ati... 	20/04/2020	Parhaus
Tudalen 83							

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

PPC – Rhestr Darparwyr a Phersonél



Dyma'r rhestr gyfredol o Bersonél a Darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru:

Enw	Swyddogaeth
Chris Moore	Cyngor Sir Gâr
Linda Rees Jones	Cyngor Sir Gâr
Anthony Parnell	Cyngor Sir Gâr
Tracey Williams	Cyngor Sir Gâr
Gaynor Morgan	Cyngor Sir Gâr
Jessica Laimann	Cyngor Sir Gâr
Julian Lewis	Cyngor Sir Gâr
Dafydd Edwards	Cyngor Sir Gwynedd
Delyth Wyn Jones Thomas	Cyngor Sir Gwynedd
Marina Parry Owen	Cyngor Sir Gwynedd
Chris Lee	Cyngor Dinas Caerdydd
Mark Falconer	Cyngor Dinas Caerdydd
Gary Watkins	Cyngor Dinas Caerdydd
Ben Smith	Dinas a Sir Abertawe
Jeff Dong	Dinas a Sir Abertawe
Karen Cobb	Dinas a Sir Abertawe
Nigel Aurelius	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Alexander Bull	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Gary Ferguson	Cyngor Sir y Fflint
Phil Latham	Cyngor Sir y Fflint
Debbie Fielder	Cyngor Sir y Fflint
Jane Thomas	Cyngor Sir Powys

Chris Hurst	Cyngor Sir Powys
Dan Paley	Cyngor Sir Powys
Barrie Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Paul Griffiths	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Yvonne Keitch	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Cyngorydd Peter Lewis	Y Cydbwyllgor Llywodraethu / Cyngor Sir Powys
Y Cyngorydd Glyn Caron	Y Cydbwyllgor Llywodraethu / Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Cyngorydd Elwyn Williams	Y Cydbwyllgor Llywodraethu / Cyngor Sir Gâr
Y Cyngorydd Mark Norris	Y Cydbwyllgor Llywodraethu / Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Cyngorydd Aaron Shotton	Y Cydbwyllgor Llywodraethu / Cyngor Sir y Fflint
Y Cyngorydd Clive Lloyd	Y Cydbwyllgor Llywodraethu / Dinas a Sir Abertawe
Y Cyngorydd Christopher Weaver	Y Cydbwyllgor Llywodraethu / Cyngor Dinas Caerdydd
Y Cyngorydd John Pughe Roberts	Y Cydbwyllgor Llywodraethu / Cyngor Sir Gwynedd

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn penodi ei chynghorwyr a'i darparwyr gwasanaethau ei hun. Bydd disgwyl i gynghorwyr neu gyflenwyr y Bartneriaeth ddarparu cyngor neu wasanaethau i'r Bartneriaeth yn unig ar ôl iddynt gadarnhau nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau neu iddynt nodi unrhyw wrthdaro hysbys yn glir. Mae gan holl gynghorwyr a darparwyr gwasanaeth i'r Bartneriaeth gyfrifoldeb proffesiynol hefyd i roi gwybod i'r Bartneriaeth os cyfyd unrhyw amgylchiadau lle mae gwrthdaro buddiannau. Mae'r Bartneriaeth yn nodi y bydd gan nifer o'i Chynghorwyr a'i Darparwyr ganllaw ar gyfer ymdrin â gwrthdaro yn rhan o'u haelodaeth o'u cyrff proffesiynol perthnasol. Dyma'r rhestr gyfredol o'r prif gynghorwyr a darparwyr gwasanaethau i'r Bartneriaeth:

Enw	Swyddogaeth
Link Fund Solutions	Gweithredwr
Russell Investments	Rheolwr Buddsoddi
Northern Trust	Ceidwad
Burges Salmon	Cynghorydd Cyfreithiol
Hymans Robertson	Cynghorydd Trosolwg
Robeco	Cynghorydd Pleidleisio ac Ymgysylltu



**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

DYDDIAD 17 GORFFENAF 2020

PWNC

**POLISI RISGIAU YN SGIL YR HINSAWDD
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL ANGENRHEIDIOL:

Cymeradwyo Polisi Risgiau yn Sgîl yr Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru

RHESYMAU:

Mae Polisi Risgiau yn Sgîl yr Hinsawdd wedi'i ddatblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae angen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ei gymeradwyo.

Awdur yr adroddiad:
Chris Moore

Dynodiad:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn 01267 224160

E-bost: CMoore@sirgar.gov.uk

**CRYNODEB GWEITHREDOL
Y CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

DYDDIAD 17 GORFFENAF 2020

**POLISI RISGIAU YN SGIL YR HINSAWDD
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

CRYNODEB BYR O DDIBEN YR ADRODDIAD

Yn unol â Pholisi Buddsoddi Cyfrifol cymeradwy Partneriaeth Pensiwn Cymru ac ymrwymiad parhaol Partneriaeth Pensiwn Cymru i Fuddsoddi Cyfrifol, mae polisi penodol ynglŷn â risgiau yn sgil yr hinsawdd wedi ei ddatblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrin â gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol o ran risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a monitro'r risgiau hyn. Fe'i datblygwyd yn unol â chredoau ac amcanion Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol a bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi'r hyn a wnaed i gyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd.

**A OES ADRODDIAD MANWL
MEWN ATODIAD?**

OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol	Cyllid	Materion Rheoli Risg	Goblygiadau Staffio
	DIM	DIM	DIM	DIM
Polisi Mae polisi risgiau yn sgil yr hinsawdd wedi ei baratoi a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 – Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndirol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
RHODDIR MANYLION Y RHAIN ISOD**

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod y Ffeil	Lleoliadau y mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio / DOLEN GWEFAN

Polisi Risgiau yn Sgîl yr Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru**Cyflwyniad**

- 1 Partneriaeth Pensiwn Cymru ("y Bartneriaeth") yw'r trefniant i gronni asedau wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru ("yr Awdurdodau Cyfansoddol").
- 2 Goruchwylir trefniadau buddsoddi'r Bartneriaeth gan Gydbwyllgor Llywodraethu ("y Cydbwyllgor") gyda chefnogaeth Gweithgor Swyddogion ("y Gweithgor") a chânt eu gweithredu drwy gronfeydd cyfunol a reolir gan ei "Reolwyr Buddsoddi".
- 3 Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru ('y Bartneriaeth') yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn peri risg ariannol sylweddol i'w rhanddeiliaid, yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae modd i newid yn yr hinsawdd darfu ar systemau economaidd, ariannol a chymdeithasol.
- 4 Mae'r Bartneriaeth yn ymwybodol y gallai newid yn yr hinsawdd arwain at gam-brisio asedau a chyfleoedd buddsoddi unigryw. Mae'r Bartneriaeth o'r farn y bydd ei hymlyniad wrth bolisiau buddsoddi cyfrifol a strategaethau lliniaru risgiau yn sgîl yr hinsawdd yn golygu ei bod mewn sefyllfa dda i adnabod y chyfleoedd buddsoddi posibl hyn ac i elwa arnynt er budd ei Hawdurdodau Cyfansoddol.
- 5 Mae'n anhysbys beth fydd yr effaith bosibl ar Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth a'u rhanddeiliaid mewnol (Aelodau'r Cynllun a Chyflogwyr) o ystyried ansicrwydd polisiau a'r effaith ffisegol anhysbys yn deillio o systemau amgylcheddol. Mae'r risgiau i'r Awdurdodau Cyfansoddol sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:
 - 5.1 Risgiau ffisegol: fel difrod i eiddo o ganlyniad i lifogydd neu lai o law yn arwain at fethiant cynydu. Gallai Awdurdodau Cyfansoddol deimlo effaith o'r fath yn uniongyrchol, neu fe allai effeithio ar yr enillion a delir i Aelodau Cyfansoddol gan gronfeydd y Bartneriaeth;
 - 5.2 Risgiau pontio: sef y risgiau ariannol sy'n deillio o newidiadau i bolisi a thechnoleg i addasu i economi carbon is ac i ba raddau y mae'r rhain yn effeithio ar yr enillion a delir i'r Awdurdodau Cyfansoddol o gronfeydd y Bartneriaeth;
 - 5.3 Risgiau o ran atebolrwydd: sef y costau posibl sy'n deillio o bartïon sydd wedi dioddef colled neu niwed oherwydd newid yn yr hinsawdd yn gofyn am iawndal gan y rhai y maent yn eu dwyn yn gyfrifol.
- 6 Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut y bydd y Bartneriaeth yn mynd i'r afael â gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol o ran risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac yn monitro'r risgiau hyn.
- 7 Caiff y polisi hwn ei adolygu gan y Bartneriaeth yn flynyddol ac, os oes angen, argymhellir newidiadau i'r polisi i'r Cydbwyllgor a'r Gweithgor gytuno arnynt. Yn rhan o'r broses adolygu flynyddol, bydd y Bartneriaeth yn ystyried y risgiau esblygol i'r Awdurdodau Cyfansoddol a gofynion yr Awdurdodau.
- 8 Bydd y polisi hwn yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ac unrhyw ganllawiau perthnasol a ddarperir gan Fwrdd Cyngori'r Cynllun ("y Bwrdd Cyngori"), Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd a Llywodraeth Cymru.
- 9 Wrth gynnal y polisi hwn a gweithredu arno, bydd y Bartneriaeth yn cynnal trafodaethau parhaus â'i Weithredwr, ei Rheolwyr Buddsoddi a'i Chynghorydd Goruchwyllo. Bydd y Bartneriaeth hefyd yn gofyn am sylwadau gan drydydd partïon pan fo'n briodol.

Credoau

- 10 Mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu cyfres o gredoau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae'r rhain yn sail i sut y mae'n ymdrin â'r risg bosibl sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd, a'r dull y mae'n ei ddarparu i'r Awdurdodau Cyfansoddol hwyluso'r broses o reoli'r risgiau y maent hwythau yn eu hwynebu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Dyma gredoau'r Bartneriaeth:
- 10.1 Mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn systemig eu natur ac mae modd iddynt effeithio i wahanol raddau ar yr enillion a delir o bob dosbarth a sector asedau. Gall effaith o'r fath fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.
- 10.2 Mae'n ddyletswydd ar y Bartneriaeth i adnabod ffynonellau posibl o risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wrth ddatblygu unrhyw is-gronfa a/neu gaffael unrhyw wasanaeth gan ddarparwyr a, lle bo angen, ceisio sicrhau y caiff risgiau o'r fath eu rheoli'n briodol a'u cyfleu i randdeiliaid.
- 10.3 Gall unrhyw ymgais i reoli a lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd hefyd roi cyfleoedd i fuddsoddwyr hirdymor fel Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth;
- 10.4 Mae'r Bartneriaeth wedi penodi darparwr gwasanaethau ymgysylltu arbenigol i drafod ystod o faterion yn uniongyrchol gyda chwmnïau y mae wedi buddsoddi ynddynt, gan gynnwys risgiau yn sgil yr hinsawdd, er mwyn gwella gwerth hirdymor buddsoddiadau'r Awdurdodau Cyfansoddol o fewn y Bartneriaeth. Yn rhan o'i gyfarwyddyd, bydd darparwr gwasanaeth ymgysylltu y Bartneriaeth yn cydweithio â pherchnogion asedau eraill er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu'r Bartneriaeth mor effeithiol â phosibl. Mae'r Bartneriaeth yn credu y gall cydweithio â pherchnogion asedau eraill a'i rheolwyr buddsoddi fod yn ddull effeithiol o ymgysylltu â chwmnïau y buddsoddiwyd ynddynt a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd.

Amcanion

- 11 Amcan y Bartneriaeth wrth baratoi a gweithredu'r polisi hwn yw:
- 11.1 dangos i'w randdeiliaid bod y Bartneriaeth yn ystyried newid yn yr hinsawdd a'r risgiau yn sgil yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â hynny;
- 11.2 galluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i weithredu eu polisi eu hunain o ran risgiau yn sgil yr hinsawdd ynghyd â'u targedau ac uchelgeisiau o ran yr hinsawdd
- 11.3 amlinellu'n ffurfiol y gweithredu y bydd rhanddeiliaid yn dwyn y Bartneriaeth i gyfrif amdano.
- 12 O ran newid yn yr hinsawdd, amcan y Bartneriaeth ei hun yw lleihau'n gynyddol y tebygolrwydd y bydd risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithio ar werth neu berfformiad yr asedau y mae'r Bartneriaeth yn eu dal.
- 13 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gyfrifol am eu strategaeth fuddsoddi eu hunain, gan gynnwys eu polisi eu hunain ar risgiau yn sgil yr hinsawdd. Bydd y Bartneriaeth yn ymgysylltu â'r Awdurdodau Cyfansoddol i ddeall yn llawn eu Polisiâu Risg yn sgil yr Hinsawdd a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gyflawni eu hymrwymadau polisi. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwybodol y gall fod costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r ffaith bod y Bartneriaeth yn hwyluso'r buddsoddiadau hyn. Bydd y Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cydweithio i ganfod atebion ymarferol i sicrhau y caiff risgiau yn sgil yr hinsawdd eu trafod a'u rheoli yn y ffordd fwyaf addas.
- 14 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod y bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn datblygu ac yn cynnal eu hamcanion a'u polisiâu eu hunain ar newid yn yr hinsawdd.

Strategaeth

- 15 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod ei bod yn bosibl i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd effeithio ar bob ased i ryw raddau, yn enwedig risgiau pontio, ond bod y math o sector, daearyddiaeth, ansicrwydd polisi ac amserlenni buddsoddi yn allweddol o ran penderfynu ar yr amlygiad i risgiau yn sgil yr hinsawdd.
- 16 Gan gydnabod ei chynigion a'i threfniadau buddsoddi presennol, bydd y Bartneriaeth yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar amlygiad i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn ei thaliadau ecwiti. Fodd bynnag, bydd y Bartneriaeth yn ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn dosbarthiadau eraill o asedau, er enghraifft incwm sefydlog, os bydd amgylchiadau'n caniatáu neu'n ei gwneud yn ofynnol iddi wneud hynny. Bydd y Bartneriaeth yn ceisio darparu atebion i risgiau yn sgil yr hinsawdd ym mhob un o'i his-gronfeydd, gan gynnwys asedau'r farchnad breifat.
- 17 Bydd y Bartneriaeth yn darparu amrywiaeth o is-gronfeydd ac atebion gweithredu sy'n caniatáu i'r Awdurdodau Cyfansoddol gyflawni eu targedau lleihau carbon eu hunain.
- 18 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd monitro amlygiad i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn ffyrdd gwahanol. Un ffordd y bydd y Bartneriaeth yn hwyluso hyn yw trwy fonitro amlygiad pob is-gronfa i risg carbon i sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael i'r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y Bartneriaeth yn archwilio'r ffordd orau o asesu amlygiad i risgiau yn sgil yr hinsawdd ar gyfer pob is-gronfa. Mae'r Bartneriaeth yn credu y gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd gost-effeithiol o wella ei gallu i asesu amlygiad i risgiau yn sgil yr hinsawdd. Caiff dadansoddiad o'r hyn y mae cyflenwyr presennol yn ei gynnig ei gynnal ar ôl cymeradwyo'r polisi hwn ac o leiaf yn flynyddol wedi hynny. Os caiff cyflenwr addas ei ganfod, caiff ei benodi.
- 19 Bydd y Bartneriaeth yn ystyried rhinweddau cynnal dadansoddiad o sefyllfaoedd ynghylch effaith economaidd bosibl risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac yn ceisio ffyrdd o gydweithio â darparwyr i rannu gwybodaeth am hyn â'r holl Awdurdodau Cyfansoddol. Fodd bynnag, mae'r Bartneriaeth yn nodi bod hwn yn faes esblygol, ac mae dadansoddiad o'r fath yn ei ddyddiau cynnar. Bydd y Bartneriaeth yn ymdrechu i'w gwneud yn haws dadansoddi sut y bydd sefyllfaoedd o ran hinsawdd yn effeithio ar holl asedau'r Bartneriaeth fel ffurf ychwanegol o asesu risgiau yn sgil yr hinsawdd i gefnogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i ymgorffori'r asesiad hwn i'w strategaethau ariannu a buddsoddi.
- 20 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod hyfforddiant ac addysg yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau da i'w rhanddeiliaid a bydd yn dyrannu adnoddau i sicrhau ei bod yn ymgymryd â hyfforddiant ac addysg reolaidd ar risgiau yn sgil yr hinsawdd. Mae'r Bartneriaeth wedi ymrwymo i gynnal o leiaf un sesiwn hyfforddi flynyddol yn ymwneud â risgiau yn sgil yr hinsawdd ar gyfer ei holl randdeiliaid. Mae'r Bartneriaeth yn datblygu cynllun hyfforddi blynyddol ar y cyd â'r awdurdodau lleol, a dyma'r dull y mae'r Bartneriaeth yn ei ddefnyddio o fesur gofynion hyfforddiant ei randdeiliaid o ran risgiau yn sgil yr hinsawdd.

Gweithredu

- 21 [Mae sut y mae'r Bartneriaeth yn dewis rheolwyr wedi'i nodi yn ei Pholisi Buddsoddi Cyfrifol. Mae gan Reolwyr Buddsoddi is-gronfa y Bartneriaeth gyfrifoldeb dirprwyedig am herio'r rheolwyr ynghylch sut y maent yn ystyried risgiau yn sgil yr hinsawdd yn rhan o'i phroses dethol rheolwyr.](#)
- 22 Mae'r Bartneriaeth yn disgwyl i'r Rheolwr Buddsoddi sicrhau bod yr holl reolwyr gweithredol sylfaenol yn ymgorffori'r ystyriaeth o risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i'w proses fuddsoddi ac i herio rheolwyr sylfaenol yn rheolaidd i ddangos tystiolaeth o sut y maent yn gweithredu.

- 23 Bydd y Bartneriaeth yn gweithio gyda'i Rheolwyr Buddsoddi i sicrhau eu bod yn ystyried ac yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn eu prosesau buddsoddi. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod rheolaeth effeithiol o risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn portffolios yn bwysig o ran sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau cytundeb hinsawdd Paris ac y bydd pob Rheolwr Buddsoddi yn gyfrifol am ei ddull ei hun ac yn ymgorffori risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i'w proses fuddsoddi a gaiff ei hasesu a'i gwerthuso wrth eu penodi. Bydd y Bartneriaeth, o leiaf yn flynyddol, yn adolygu dull y Rheolwr Buddsoddi i sicrhau ei fod yn briodol o hyd.
- 24 Nodir dull y Bartneriaeth o ymdrin â stiwardiaeth yn eu Polisi Buddsoddi Cyfrifol. Bydd y Bartneriaeth yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i'r sawl sy'n darparu ei wasanaethau pleidleisio ac ymgynghori. Yn benodol, bydd y Bartneriaeth yn annog ei darparwr gwasanaeth ymgysylltu i ymgysylltu â chwmnïau y buddsoddiwyd ynddynt ar faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd, gan gynnwys cynnydd yn y datgeliadau ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd gan gwmnïau i fuddsoddwyr.
- 25 Mae'r Bartneriaeth yn ffurfio ei Pholisi Pleidleisio ei hun a chyfres o egwyddorion ymgysylltu a fydd yn amlinellu sut y bydd yn defnyddio ei hawl i bleidleisio a sut y bydd yn ymgysylltu â chwmnïau y buddsoddiwyd ynddynt. Mae darparwr gwasanaeth pleidleisio trwy ddirprwy y Bartneriaeth yn gyfrifol am gyflawni'r polisiau hyn ar ran y Bartneriaeth.

Monitro/Adrodd

- 26 Bob chwarter bydd y Bartneriaeth yn monitro pa mor agored i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yw ei his-gronfeydd ecwiti, gan ystyried metrigau a all gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, amlygiad i gynhyrchwyr tanwydd ffosil a chronfeydd carbon; dwysedd carbon cyffredinol a sut y mae hyn yn cyd-daro ag ystyriaethau hinsawdd y dyfodol. Bydd y Bartneriaeth yn monitro newidiadau yn arferion y farchnad er mwyn sicrhau bod y Bartneriaeth yn gwbl ymwybodol o newidiadau mewn arferion gorau a dichonoldeb monitro risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn ei his-gronfeydd di-ecwiti o leiaf yn flynyddol.
- 27 Bydd y Bartneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'w Rheolwyr Buddsoddi fonitro yr amlygiad i risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a chrynhof'r canlyniadau yn eu hadroddiadau chwarterol. Bydd y Bartneriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Buddsoddi gynnwys metrigau o'r fath yn eu hadroddiadau chwarterol i Awdurdodau Cyfansoddol. Fel y nodwyd, bydd y Bartneriaeth yn disgwyl i'w Rheolwyr Buddsoddi ecwiti fonitro hyn i ddechrau, gyda'r disgwyliad y bydd ei Rheolwyr Buddsoddi di-ecwiti yn darparu'r wybodaeth hon cyn gynted ag y bo amgylchiadau yn caniatáu hynny o ran lansio is-gronfeydd a datblygiadau'r farchnad.
- 28 Darparwr pleidleisio trwy ddirprwy ac ymgysylltu y Bartneriaeth fydd yn gyfrifol am gynhyrchu adroddiadau chwarterol a blynyddol o weithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu'r Bartneriaeth. Bydd yr adroddiadau yn dangos sut y mae'r Bartneriaeth wedi ymgysylltu a phleidleisio mewn modd sy'n rheoli risgiau yn ymwneud â'r hinsawdd.
- 29 Mae gan y Bartneriaeth uchelgais i adrodd ar gynnydd o ran yr hyn a wnaed i fynd i'r afael â risgiau yn sgil yr hinsawdd yn unol â'r fframwaith a osodwyd gan y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n Ymwneud â Hinsawdd. Mae'r Bartneriaeth yn bwriadu mai ei hadroddiad cyntaf fydd hwnnw yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2020/21.

Tryloywder

- 30 Bydd y Bartneriaeth yn annog, trwy ei chynrychiolwyr, yr holl gwmnïau y mae wedi buddsoddi ynddynt i ddatgelu yn unol â gofynion y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n Ymwneud â Hinsawdd.

- 31 Yn flynyddol, bydd y Bartneriaeth yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad a fydd yn rhoi manylion yr hyn a wnaed i gyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIEDIG 17 GORFFENNAF 2020

PWNC

POLISI RISG A CHOFRESTR RISG PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

YR ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo

- Polisi Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru, a
- Chofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru

RHESYMAU:

Mae Polisi Risg a Chofrestr Risg wedi cael eu datblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru sydd angen cael eu cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Caerfyrddin

Rhif Ffôn 01267 224160

Cyfeiriad e-bost:
CMoore@sirgar.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIEDIG 17 GORFFENAF 2020

POLISI RISG A CHOFRESTR RISG PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Polisi Risg a Chofrestr Risg wedi cael eu datblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP).

Mae'r Polisi Risg hwn yn adlewyrchu bod Partneriaeth Pensiwn Cymru o'r farn y bydd llywodraethu da a gwell tryloywder yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac yn cyflawni gwell amcanion ar gyfer rhanddeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod gan holl Bersonél a Darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru rôl i'w chwarae o ran nodi, deall, rheoli a monitro risgiau gwirioneddol sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Mae'r polisi'n amlinellu'r canlynol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Credoau ac amcanion sy'n ymwneud â risg
- Strategaeth risg
- Nodi a deall risgiau
- Monitro a rheoli risg

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi llunio Cofrestr Risg a fydd yn dogfennu, yn rheoli ac yn monitro risgiau. Pwrpas Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru yw:

- Amlinellu prif risgiau a ffactorau Partneriaeth Pensiwn Cymru a allai gyfyngu ar ei gallu i gyflawni ei hamcanion.
- Mesur difrifoldeb a thebygolrwydd y risg sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Rhoi crynodeb o strategaethau rheoli risg Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyniad i gael rhagor o strategaethau lliniaru risg

Bydd y Gweithgor Swyddogion yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru ac yn adrodd ynghylch unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn chwarterol.

**A ATODWYD ADRODDIAD
MANWL?**

DO

Y GOBLYGIADAU

Polisi, Troseddau ac Anhrefn a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol DIM	Cyllid DIM	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM
Polisi Mae polisi risg a chofrestr risg wedi cael eu datblygu a fydd yn ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion yma am unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd

**Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o'r Papurau Cefndir a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod y Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael golwg arnynt/DOLEN AR GYFER Y WEFAN

Polisi Risg Partneriaeth Pensiynau Cymru

Cyflwyniad

- 1 Partneriaeth Pensiynau Cymru yw'r trefniant cronni ar gyfer asedau wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru ("Awdurdodau Cyfansoddol").
- 2 Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n cydnabod ei bod yn wynebu nifer o risgiau y gallant, os na chânt eu rheoli, gyfyngu ar allu Partneriaeth Pensiynau Cymru i fodloni ei hamcanion a gweithredu er budd pennaf ei rhanddeiliaid a'i buddiolwyr.
- 3 Amcan Partneriaeth Pensiynau Cymru wrth baratoi'r polisi hwn yw gallu amlinellu'r canlynol:
 - 3.1 Sut mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n ystyried risgiau, ei hymagwedd at risgiau, a'r graddau yr ystyrir risg yn ei phrosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau
 - 3.2 Y ffordd y mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n nodi, yn dosbarthu ac yn mesur effaith bosibl risgiau
 - 3.3 Sut y caiff risgiau eu rheoli a'u lliniaru
 - 3.4 Y dulliau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i fonitro risgiau
 - 3.5 Y broses y caiff effeithiolrwydd a datblygiad strategaethau lliniaru risg eu hadolygu
- 4 Mae'r Polisi Risg hwn yn berthnasol i'r Cydbwyllgor Llywodraethu, y Gweithgor Swyddogion a'r Awdurdod sy'n Lletya, y cyfeirir ar y cyd atynt fel "Personél Partneriaeth Pensiynau Cymru", ynghyd â chynghorwyr a chyflenwyr ("Darparwyr"). Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n cydnabod bod gan ei holl Personél a Darparwyr rôl i'w chwarae wrth nodi, deall, rheoli a monitro'r risgiau posib a gwirioneddol sy'n wynebu Partneriaeth Pensiynau Cymru.
- 5 Mae'r Polisi hwn yn adlewyrchu cred Partneriaeth Pensiynau Cymru y bydd llywodraethu da a mwy o dryloywder yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac yn cyflawni canlyniadau uwch i randdeiliaid Partneriaeth Pensiynau Cymru. Mae'r rhaid i Partneriaeth Pensiynau Cymru wneud ymdrech i fod yn ymwybodol o'r holl risgiau sy'n ei hwynebu a chael gweithdrefnau ar waith i'w rheoli.
- 6 Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n cydnabod bod hyfforddiant ac addysg yn hanfodol wrth gyflawni canlyniadau da a bydd yn dyrannu adnoddau i sicrhau ei bod yn ymgymryd â hyfforddiant ac addysg reolaidd ar nodi, rheoli a monitro risg.
- 7 Mae'r Polisi hwn yn canolbwyntio yn unig ar y risgiau a allai godi o'r gwaith y mae Personél neu Ddarparwyr Partneriaeth Pensiynau Cymru'n ei wneud ar ei rhan. Awdurdodau Cyfansoddol Partneriaeth Pensiynau Cymru sy'n parhau'n gyfrifol am reoli risgiau ar lefel Awdurdod Cyfansoddol. Ynghyd â bodloni gofynion a disgwyliadau'r Polisi hwn, dylai Personél a Darparwyr Partneriaeth Pensiynau Cymru barhau i gadw at unrhyw bolisïau risg eraill y maent yn ddarostyngedig iddynt. Gallai hyn gynnwys polisïau Awdurdodau Cyfansoddol neu gwmnïau a chodau ymddygiad perthnasol eraill. Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddatblygu gan Partneriaeth Pensiynau Cymru mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol.
- 8 Wrth gynnal y polisi hwn a gweithredu arno, bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n cael deialog barhaus gyda'i Gweithredwr, ei Rheolwyr Buddsoddi a'i Hymgyngorydd Goruchwylio. Bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n ceisio cael mewnbwn gan drydydd partïon lle y bo'n briodol.
- 9 Caiff Polisi Risg Partneriaeth Pensiynau Cymru ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion, a'i ddiweddarau os oes angen, yn flynyddol. Fodd bynnag, efallai y caiff y Polisi ei adolygu neu ei ddiwygio yn amlach er mwyn ystyried canllawiau neu reoliadau perthnasol. Bydd Polisi Partneriaeth Pensiynau Cymru'n eitem flynyddol ar agenda'r Cydbwyllgor Llywodraethu.

Credoau

- 10 Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n ymwybodol na all rhai risgiau gael eu lliniaru'n llawn, ac mae'n cydnabod yr angen i gofleidio risg a sicrhau ei bod yn cael ei rheoli'n weithredol ac yn effeithiol.
- 11 Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n cydnabod bod rheoli risg yn elfen hanfodol o'i hymrwymiad i lywodraethu da. Fel y cyfryw, bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n datblygu ac yn cadw at strategaeth risg strwythuredig, helaeth a chadarn. Caiff y strategaeth hon ei hymgorffori yn fframwaith llywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru i sicrhau penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell i randdeiliaid a mwy o effeithlonrwydd.
- 12 Bydd nodi, deall, rheoli a monitro risgiau'n effeithiol yn caniatáu i Partneriaeth Pensiynau Cymru wneud y canlynol:
 - 12.1 Lleihau'r tebygolrwydd o fethu â bodloni ei hamcanion
 - 12.2 Dangos ei hymrwymiad i lywodraethu da
 - 12.3 Cyfyngu ar y graddau yr effeithir arni gan ddatblygiadau anrhagweladwy neu niweidiol
 - 12.4 Cydbwysu cyfleoedd a risgiau'n gywir
 - 12.5 Cael mwy o wybodaeth wrth wneud penderfyniadau
 - 12.6 Cyflawni canlyniadau gwell i'w rhanddeiliaid
- 13 Er mwyn cyflawni ei hamcanion, mae angen i Partneriaeth Pensiynau Cymru gyflawni gweithgareddau neu achub ar gyfleoedd sy'n ei gwneud yn agored i lefelau sylweddol o risg. Bydd y graddau y gall Partneriaeth Pensiynau Cymru gydbwysu risg ac enillion yn effeithiol yn dibynnu ar lwyddiant ei Pholisi Risg.
- 14 Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n credu bod risgiau'n ansicr o ran eu natur ac y gall difrifoldeb a thebygolrwydd risgiau newid yn gyflym a heb rybudd teg. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i Bolisi Risg Partneriaeth Pensiynau Cymru ragweld a mynd i'r afael â newidiadau mewn ffordd gyflym ac effeithiol i leihau'r potensial am gollod neu niwed i Partneriaeth Pensiynau Cymru a'i rhanddeiliaid.
- 15 Mae'n hanfodol cyn gwneud penderfyniadau fod Partneriaeth Pensiynau Cymru'n deall y risgiau cysylltiedig ac yn ystyried ym mha ffyrdd y gellid rheoli'r risgiau hyn.

Amcanion

- 16 Dyma brif amcanion Partneriaeth Pensiynau Cymru:
 - 16.1 Darparu trefniadau cronni sy'n caniatáu i gronfeydd unigol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (lle y bo'n ymarferol)
 - 16.2 Cyflawni arbedion cost sylweddol ar gyfer cronfeydd cyfranogol wrth wella neu gynnal perfformiad buddsoddi ar ôl talu ffioedd
 - 16.3 Rhoi trefniadau cadarn ar waith i oruchwylio gweithgareddau'r Gronfa
 - 16.4 Gweithio'n agos gyda chronfeydd eraill er mwyn archwilio'r manteision y gallai'r holl randdeiliaid yng Nghymru eu cael gan ddatrysiadau cronni ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib
 - 16.5 Cyflawni fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i'w rhanddeiliaid allweddol, yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i gyflawni'r canlyniadau gorau i Aelodau a Chyflogwyr eu Cynlluniau

- 17 Y risg fwyaf i weithrediad parhaus Partneriaeth Pensiynau Cymru yw ei gallu i gyflawni ei phrif amcanion. Os nad yw Partneriaeth Pensiynau Cymru'n gallu cyflawni o ran perfformiad, cyfleoedd ac arbedion cost buddsoddiadau o fewn fframwaith llywodraethu cadarn, perir risg iddi gan y canlynol:
- 17.1 Awdurdodau Cyfansoddol yn gwrthod prynu i mewn i Partneriaeth Pensiynau Cymru a buddsoddi eu hasedau ynddi
- 17.2 Ymyrraeth gan y llywodraeth, a allai orfodi Partneriaeth Pensiynau Cymru i ddod â gweithrediadau i ben
- 18 I gydnabod natur unigryw a chritigol y risgiau hyn, mae Partneriaeth Pensiynau Cymru wedi cymryd camau ychwanegol i reoli'r risgiau hyn. Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiynau Cymru yw'r ffordd y mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n rhoi cydnabyddiaeth arbennig o'r risgiau hyn a'r camau gweithredu y mae eu hangen i'w rheoli. Mae Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiynau Cymru'n adlewyrchu angen Partneriaeth Pensiynau Cymru i wneud y canlynol:
- 18.1 Rhoi set o gyfleoedd buddsoddi amrywiol a deniadol i'r Awdurdodau Cyfansoddol
- 18.2 Cyflawni perfformiad buddsoddi gwell ar ôl talu ffioedd
- 18.3 Hwyluso arbedion cost ehangach i'r Awdurdodau Cyfansoddol
- 18.4 Darparu trefniadau llywodraethu effeithiol a chadarn
- 19 Yn ystod cyfnod Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiynau Cymru, caiff y camau gweithredu canlynol eu blaenoriaethu i liniaru'r risg o Bartneriaeth Pensiynau Cymru'n methu â diwallu'r anghenion hyn:
- 19.1 Caiff mwy o is-gronfeydd eu lansio
- 19.2 Caiff adrodd ar berfformiad rheolwyr buddsoddi o'r radd flaenaf ei ddatblygu
- 19.3 Archwilio arbed costau'n barhaus
- 19.4 Datblygu trefniadau llywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru'n fwy
- 20 Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru hefyd yn cydnabod y risgiau sylweddol a berir gan ei dibyniaeth ar ei Gweithredwr. Mae ymrwymiad Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiynau Cymru i lunio Fframwaith Goruchwylio Gweithredwr yn cydnabod yr angen i gymryd camau ychwanegol i reoli'r risg hon.

Strategaeth Risg

- 21 Mae strategaeth risg Partneriaeth Pensiynau Cymru'n canolbwyntio ar roi dulliau a phrosesau ar waith sy'n ei chaniatáu i nodi, deall, rheoli a monitro risgiau. Nid yn unig y mae'r strategaeth yn rhoi sylw i risgiau sy'n ymwneud â gweithgareddau presennol Partneriaeth Pensiynau Cymru, ond hefyd y rhai a wnaed yn y gorffennol neu'r rhai bydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol.
- 22 Fel rhan o'i strategaeth risg, bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n gwneud y canlynol:
- 22.1 Nodi Risgiau
- 22.2 Deall Risgiau
- 22.3 Rheoli Risgiau
- 22.4 Monitro Risgiau

- 23 Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n cydnabod yr angen i sicrhau bod ei strategaeth risg:
- 23.1 Yn cael ei chyfleu'n effeithiol i Bersonél a Darparwyr Partneriaeth Pensiynau Cymru ac yn cael ei deall yn llawn ganddynt
 - 23.2 Yn integredig yn holl brosesau, gweithdrefnau a gweithgareddau Partneriaeth Pensiynau Cymru
 - 23.3 Yn addasadwy, yn arloesol ac yn effeithiol
- 24 Bydd Cadeirydd y Cydbwyllgor Llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau bod Strategaeth Risg Partneriaeth Pensiynau Cymru'n cael ei gweithredu ac y glynir wrthi. Fodd bynnag, mae gan holl Bersonél a Darparwyr Partneriaeth Pensiynau Cymru ddyletswydd unigol i nodi, deall, rheoli a monitro unrhyw risgiau posib i Bartneriaeth Pensiynau Cymru. Bydd y Gweithgor Swyddogion yn gyfrifol am gadw Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiynau Cymru, ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r Cydbwyllgor Llywodraethu bob chwarter.

Nodi a Deall

- 25 Mae gwaith nodi risg Partneriaeth Pensiynau Cymru'n canolbwyntio ar nodi risgiau sydd eisoes yn bodoli a risgiau a allai godi yn y dyfodol. Bydd dull rhagweithiol o nodi risgiau yn y dyfodol yn caniatáu i Bartneriaeth Pensiynau Cymru fod yn rhagweithiol yn hytrach nac yn adweithiol, a dylai hyn sicrhau bod y gwaith o reoli risgiau'n fwy effeithiol.
- 26 Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n defnyddio'r canlynol i nodi risgiau:
- 26.1 Ymarfer asesu risg manwl gan y Gweithgor Swyddogion
 - 26.2 Adborth gan randdeiliaid Partneriaeth Pensiynau Cymru a chyfathrebu â nhw
 - 26.3 Ymarferion archwilio mewnol neu allanol
 - 26.4 Cyfarfodydd, sgysiau ac ymgynghoriadau rheolaidd â chronfeydd eraill Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, Bwrdd Cynghori'r Cynllun, a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
 - 26.5 Adolygiad blynyddol o berfformiad Partneriaeth Pensiynau Cymru tuag at ei hamcanion tymor hir
 - 26.6 Llunio Cynllun Busnes Blynyddol Partneriaeth Pensiynau Cymru
- Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n cydnabod y gall dulliau ar wahân i'r rhai a amlinellwyd uchod fod yn ffordd effeithiol o nodi risgiau a bydd yn defnyddio'r dulliau gwahanol hyn os oes angen.
- 27 Unwaith y mae risg wedi cael ei nodi, bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n ceisio deall y risg a'i heffeithiau posib. Fel rhan o'r broses hon, bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n gwneud y canlynol:
- 27.1 Dosbarthu natur y risg
 - 27.2 Nodi achos y risg
 - 27.3 Amlinellu effeithiau posibl y risg
 - 27.4 Ystyried y cyfnod o amser y bydd yr effaith yn cael ei themblo
 - 27.5 Datgan Perchennog/Perchenogion y Risg
 - 27.6 Cysylltu sgôr tebygolrwydd a difrifoldeb i'r risg
 - 27.7 Rhoi sgôr gyffredinol i'r risg

- 28 Wrth ddeall risg, bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n ystyried a yw'r risg o natur Ariannol neu Weithredol neu un sy'n ymwneud â'i Henw Da. Yn ogystal, bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n defnyddio'r meini prawf canlynol i ddsbarthu'r cyfnod o amser y bydd effaith y risg yn cael ei themlo:

Tymor Byr	Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r effaith ymddangos o fewn 12 mis
Tymor Canolig	Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r effaith ymddangos rhwng cyfnod o un flwyddyn a thair blynedd
Tymor Hir	Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r effaith gymryd mwy na thair blynedd cyn iddi ymddangos

- 29 Bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n defnyddio'r system ganlynol i nodi sgôr tebygolrwydd i risg benodol:

Sgôr Tebygolrwydd:	Tebygolrwydd	% Tebygolrwydd
1	Annhebygol lawn	0-25%
2	Annhebygol	25-40%
3	Posib	40-60%
4	Tebygol	60-75%
5	Hynod Debygol	75%+

- 30 Bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n defnyddio'r system ganlynol i nodi sgôr difrifoldeb i risg benodol:

Sgôr Difrifoldeb:	Effaith	% Effaith
1	Di-nod	0-25%
2	Bach	25-40%
3	Canolig	40-60%
4	Sylweddol	60-75%
5	Critigol	75%+

- 31 Caiff y Sgôr Risg Gyffredinol ei chyfrifo drwy luosi'r sgôr difrifoldeb â'r sgôr tebygolrwydd. Defnyddir Sgôr Risg Gyffredinol i nodi'r risg yn seiliedig ar y matrices canlynol:

Sgôr Tebygolrwydd	Sgôr Difrifoldeb					
		1	2	3	4	5
	1	Isel	Isel	Isel	Isel	Isel
	2	Isel	Isel	Canolig	Canolig	Uchel
	3	Isel	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel
	4	Isel	Canolig	Uchel	Uchel lawn	Uchel lawn
5	Isel	Uchel	Uchel	Uchel lawn	Uchel lawn	

32 Unwaith y bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru wedi nodi a deall risg, bydd yn cael ei nodi yn ei Chofrestr Risg.

Rheoli a Monitro

33 Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru wedi llunio Cofrestr Risg, sef y ffordd o ddogfennu, rheoli a monitro risgiau. Diben Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiynau Cymru yw:

33.1 Amlinellu risgiau allweddol Partneriaeth Pensiynau Cymru a'r ffactorau a allai gyfyngu ar ei gallu i fodloni ei hamcanion

33.2 Mesur difrifoldeb a thebygolrwydd y risg sy'n wynebu Partneriaeth Pensiynau Cymru




33.3 Crynhoi strategaethau rheoli risg Partneriaeth Pensiynau Cymru

33.4 Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyniad am fwy o strategaethau lliniaru risg

34 Mae'r Sgôr Risg Gyffredinol yn nodi lefel y rheolaeth mae ei hangen pan ychwanegir y risg yn gyntaf at Gofrestr Risg Partneriaeth Pensiynau Cymru:

Gwyrdd	Blaenoriaeth Isel	1 i 5	Nid Oes Angen Camau Gweithredu – Mae Angen Monitro Parhaus
Melyn	Blaenoriaeth Ganolig	6 i 9	Adolygu Addasrwydd Strategaethau Lliniaru Risg Presennol
Oren	Blaenoriaeth Uchel	10 i 15	Mae Angen Cymryd Camau Gweithredu
Coch	Blaenoriaeth Uchel lawn	16 i 25	Mae Angen Cymryd Camau Gweithredu Brys

- 35 Mae strategaeth rheoli risg Partneriaeth Pensiynau Cymru'n ystyried pa reolaethau risg cyfredol sydd ar waith. Mae nodi rheolaethau cyfredol yn bwysig wrth sicrhau nad yw unrhyw strategaethau rheoli risg eraill yn dyblygu mesurau cyfredol yn aneffeithlon. Caiff unrhyw reolaethau risg cyfredol eu hamlinellu'n glir yng Nghofrestr Risg Partneriaeth Pensiynau Cymru.
- 36 Cam nesaf y strategaeth rheoli risg Partneriaeth Pensiynau Cymru yw nodi sgôr risg darged i bob risg. Mae'r sgôr risg darged yn cynrychioli'r risg a fyddai'n parhau petai Partneriaeth Pensiynau Cymru'n defnyddio'r holl strategaethau rheoli risg posib gyda'r effeithlonrwydd mwyaf, ac, yn hyn o beth, gellid ystyried y sgôr fel sgôr 'sefyllfa orau'. Mae defnydd Partneriaeth Pensiynau Cymru o sgôr risg darged yn adlewyrchu ei chred nad oes modd lliniaru'r holl risgiau.
- 37 Unwaith y mae sgôr risg darged wedi cael ei chyfrifo, bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n ystyried a yw'r sgôr hon wedi cael ei bodloni, ac, os nad yw, bydd camau gweithredu'n cael eu cymryd i leihau tebygolrwydd neu ddifrifoldeb y risg neu'r ddau. Bydd y Gofrestr Risg yn nodi pa barti sy'n gyfrifol am gwblhau'r cam gweithredu hwn.
- 38 Bydd y Gofrestr Risg yn darparu diweddariad statws ar gynnydd camau a gweithgareddau rheoli risg

Statws	Ystyr	Disgrifiad
	Bodlon	Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru wedi bodloni ei sgôr risg darged a bydd bellach yn canolbwyntio ar fonitro'r risg hon a chynnal y sgôr risg gyfredol.
	Cyfforddus	Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n gyfforddus fod y sgôr risg ar y trywydd iawn at ei sgôr darged. Bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n parhau i gadw at y 'camau gweithredu gofynnol' a'u gweithredu nes bydd yn fodlon.
	Anfodlon	Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru'n parhau i bryderu am y risg hon oherwydd ei harwyddocâd neu'r cynnydd tuag at gyflawni'r 'camau gweithredu gofynnol' neu effeithiolrwydd y camau hyn.

Partneriaeth Pensiynau Cymru. Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru wedi mabwysiadu'r system ddsbarthu ganlynol:

- 39 Cam olaf strategaeth risg Partneriaeth Pensiynau Cymru yw monitro risg, sef y broses a ddefnyddir gan Bartneriaeth Pensiynau Cymru i ystyried ac adolygu a yw'r canlynol wedi digwydd:
- 39.1 Mae camau rheoli risg wedi cael eu cwblhau neu eu datblygu ers y dyddiad adolygu diwethaf
- 39.2 Mae strategaethau rheoli risg wedi bod yn effeithiol
- 39.3 Mae angen cymryd mwy o gamau gweithredu
- 39.4 Mae nodweddion risg wedi newid yn sylweddol
- 39.5 Mae modd dysgu gwersi a allai wella'r gwaith o reoli risgiau yn y dyfodol
- 40 Bydd y Gweithgor Swyddogion yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiynau Cymru ac adrodd yn ôl am unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r Cydbwyllgor Llywodraethu bob chwarter drwy Gofrestr Risg Gryno Partneriaeth Pensiynau Cymru (Atodiad 1). Caiff unrhyw newid i'r sgôr risg dros y chwarter ei nodi'n glir drwy'r defnydd o ffont trwm.

Rhagor o Wybodaeth

41 Mae Partneriaeth Pensiynau wedi nodi'r canlynol fel risgiau posib a allai gyfyngu ar ei gallu i weithredu'r polisi hwn:

41.1 Mae diffyg gwybodaeth yn golygu na all Partneriaeth Pensiynau Cymru nodi a deall risgiau'n effeithiol

41.2 Mae diffyg adnoddau'n golygu na all Partneriaeth Pensiynau Cymru nodi a deall risgiau'n effeithiol

41.3 Mae diffyg gwybodaeth neu adnoddau'n cyfyngu ar effeithiolrwydd strategaethau rheoli risg Partneriaeth Pensiynau Cymru

41.4 Nid yw Strategaeth Risg Partneriaeth Pensiynau Cymru'n cael ei deall yn llawn gan Bersonél a Darparwyr Partneriaeth Pensiynau Cymru ac nid yw'n cael ei hymgorffori ym mhroses Partneriaeth Pensiynau Cymru o wneud penderfyniadau

41.5 Mae ffactorau eraill, fel gwrthdaro buddiannau, yn amharu â gweithrediad y polisi hwn

Bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru'n parhau i fonitro'r risgiau hyn a, lle y bo'n bosib, bydd yn cymryd camau gweithredu i liniaru'r risgiau hyn.

42 Os oes angen mwy o fanylion arnoch am Bolisi Risg Partneriaeth Pensiynau Cymru, e-bostiwch: partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

Fersiwn 1.0

Mehafin 202

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru

Crynodeb


Risg	Categori	Sgôr Risg Darged	Sgôr Risg yn y Chwarter Diwethaf	Sgôr Risg Breseanol	Statws Presennol	Parti Cyfrifol	Dyddiad Adolygu	Sylwadau
I.1	Buddsoddiadau a Pherfformiad	8	12	12	👎	Gweithgor Swyddogion	Ch4 2020	
I.2		10	10	10	👍	Gweithgor Swyddogion		
I.3		10	10	10	👍	Gweithgor Swyddogion		
I.4		4	8	8	👎	Cynghorydd Goruchwylio		
I.5		2	4	4	👎	Cynghorydd Goruchwylio		
I.6		8	8	8	👍	Gweithgor Swyddogion		
I.7		4	8	8	👎	Y Gweithredwr / Rheolwr Buddsoddiadau		
I.8		4	8	8	👎	Gweithgor Swyddogion		
I.9		5	10	10	👎	Cynghorydd Goruchwylio		
G.1	Llywodraethu a Rheoleiddio	10	15	15	👍	Gweithgor Swyddogion	Ch1 2021	
G.2		6	6	6	👍	Cynghorydd Goruchwylio		
G.3		4	8	8	👍	Awdurdod sy'n Lletya		
G.4		4	4	4	👍	Awdurdod sy'n Lletya		
G.5		8	8	8	👍	Awdurdod sy'n Lletya		
G.6		3	6	6	👍	Awdurdod sy'n Lletya / Cynghorydd Goruchwylio		
G.7		8	8	8	👍	Awdurdod sy'n Lletya	Ch2 2021	
G.8		4	8	8	👍	Cynghorydd Goruchwylio		
G.9		10	10	10	👍	Gweithgor Swyddogion		
G.10		8	12	12	👎	Gweithgor Swyddogion		
G.11		8	12	12	👍	Gweithgor Swyddogion a'r Cynghorydd Goruchwylio		
G.12		10	15	15	👎	Gweithgor Swyddogion		
T.1	Hyfforddiant ac Adnoddau	3	6	6	👍	Gweithgor Swyddogion	Ch3 2021	
T.2		4	4	4	👍	Gweithgor Swyddogion a'r Cynghorydd Goruchwylio		
T.3		4	4	4	👍	Gweithgor Swyddogion		
T.4		5	10	10	👎	Gweithgor Swyddogion		
C.1	Cyfathrebu	4	8	8	👍	Gweithgor Swyddogion	Ch3 2021	
C.2		3	3	3	👍	Gweithgor Swyddogion		
C.3		3	3	3	👍	Cynghorydd Goruchwylio		

Tuaelenn 1

Risg Buddsoddi a Pherfformiad

Manylion y Risg				Sefyllfa Bresennol	Sgoriau	Rheoli a Monitro						
Risg Natur y Risg	Achos y Risg	Goblygiadau'r Risg	Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith	Rheolaethau Risg Presennol	Difrifoldeb	Tebygolrwydd	Sgôr	Statws Presennol	Camau Gofynnol	Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu	Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau	
I.1	Mechant Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru i sicrhau eu henillion buddsoddi a dargedwyd.	<ul style="list-style-type: none"> Tanberfformiad Rheolwyr Buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru. Amodau economaidd a digwyddiadau yn y farchnad niweidiol na ellid eu rhagweld. Dyraniadau asedau strategol a rhanbarthol amhriodol. 	Straen sylweddol ar randdeiliaid allweddol Partneriaeth Pensiwn Cymru, yr Awdurdodau Cyfansoddol. Gallai hyn arwain at ofyniad am fwy o gyfraniadau gan gyflogwyr neu ostyngiad i'r lefel ariannu.	Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi	<ul style="list-style-type: none"> Monitro yn barhaus berfformiad buddsoddiadau, datblygiadau yn y farchnad a rhagolygon economaidd a adroddir gan y Rheolwr Buddsoddi a'r Gweithredwr ac a drafodir mewn cyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion Ymgysylltiad y Gweithredwr / y Rheolwr Buddsoddi â Rheolwyr Buddsoddi ac adolygiadau parhaus o'u proses Diwrnodau rheolwyr wedi'u cynnal gan y Gweithredwr / y Rheolwr Buddsoddi ar gyfer y Gweithgor Swyddogion / Pwyllgorau Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol 	4	3	12		Mae angen lleihau tebygolrwydd tanberfformiad Rheolwyr Buddsoddi. Gellir gwneud hyn drwy'r mecanweithiau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Monitro perfformiad buddsoddiadau a datblygiadau yn y farchnad a rhagolygon economaidd yn well Mwy o ymgysylltiad â chyfathrebiad â Rheolwyr Buddsoddi 	Gweithgor Swyddogion	Mae'r Gweithgor Swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Gweithredwr a'r Rheolwr Buddsoddi i wella mecanweithiau adrodd ar fuddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru a lefel cyfathrebiad ac ymgysylltiad Partneriaeth Pensiwn Cymru â'i Rheolwyr Buddsoddi.
	Ariannol	Hirdymor	4	2	8							
I.2	Un o Reolwyr Buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu / yn gadael y farchnad, gan arwain at golled ariannol i asedau'r bartneriaeth.	<ul style="list-style-type: none"> Mae Model busnes y Rheolwr Buddsoddi, rheolaethau mewnol a/neu oruchwyliaeth allanol o'r Rheolwr Buddsoddi yn methu. 	Colled ariannol i asedau a ddeler o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru.	Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Gweithredwr / y Rheolwr Buddsoddi yn hwyluso: Monitro rheolwyr buddsoddi'n barhaus Holi rheolwyr am eu rheolaethau mewnol, rheoliadau allanol, polisiau olyniaeth/cadw Ymgysylltiad â Rheolwyr Buddsoddi a'r diwydiant Rheolwyr Buddsoddi Cynnal rhestr fer o reolwyr amgen addas 	5	2	10		Amh.	Gweithgor Swyddogion	Amh.
	Ariannol	Byrdymor	5	2	10							
I.3	Gallai methiant y ceidwad a benodwyd arwain at fethu rheoli asedau yn briodol ac yna colled ariannol a/neu wybodaeth o ran asedau buddsoddi.	<ul style="list-style-type: none"> Cofnodi prisiadau a thrafodiadau asedau yn anghywir. Diogelu asedau yn anffodhaol. Rheolaethau allanol a mewnol yn methu ag atal twyll neu gamddefnydd. Ceidwad yn methu ac yn gadael y farchnad, gan arwain o bosibl at asedau sownd. 	Colled ariannol i asedau a ddeler o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru.	Y Gweithredwr / Gweithgor Swyddogion / Cyngorydd Goruchwyllo	<ul style="list-style-type: none"> Proses gaffael gadarn wedi'i goruchwyllo gan y Gweithredwr Adolygiad blynyddol o'r ceidwad wedi'i baratoi gan y Gweithredwr a'i gyflwyno i'r Gweithgor Swyddogion Dadansoddiad o Gofnodion Rheolwyr Buddsoddi yn erbyn Cofnodion y Ceidwad Monitro perfformiad y ceidwad yn flynyddol Y ceidwad yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol Derbyn adroddiadau rheolaethau blynyddol gan Archwilwyr Allanol y Ceidwad 	5	2	10		Amh.	Gweithgor Swyddogion	Amh.
	Ariannol	Byrdymor	5	2	10							
I.4	Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn nac yn ceisio cyngor buddsoddi arbenigol pan fo'i angen.	<ul style="list-style-type: none"> Cyngorydd allanol yn darparu cyngor amhriodol neu anffodhaol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Partneriaeth Pensiwn Cymru yn anwybyddu cyngor priodol a ddarperir gan gynghorwyr arbenigol. Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â cheisio cyngor arbenigol. 	Penderfyniadau amhriodol yn cael eu rhoi ar waith a allai niweidio perfformiad buddsoddiadau.	Gweithgor Swyddogion / Cydbwylgwr Llywodraethu / Cyngorydd Goruchwyllo	<ul style="list-style-type: none"> Prosesau caffael cadarn Hyfforddiant parhaus i aelodau'r Cydbwylgwr Llywodraeth a'r Gweithgor Swyddogion Cyngorydd Goruchwyllo ar gael i oruchwyllo Cyngor Buddsoddi a'r broses o wneud penderfyniadau Ymgysylltiad â chronfeydd eraill yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i groes-ddilysu addasrwydd cyngor 	4	2	8		Bydd Cyngorydd Goruchwyllo Partneriaeth Pensiwn Cymru yn datblygu modd o oruchwyllo Rheolwr Buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r cyngor y mae'n ei ddarparu i Bartneriaeth Pensiwn Cymru.	Cyngorydd Goruchwyllo	Bydd y Cyngorydd Goruchwyllo yn adrodd yn ôl i'r Gweithgor Swyddogion.
	Ariannol	Hirdymor	4	1	4							

Manylion y Risg				Sefyllfa Bresennol	Sgoriau			Rheoli a Monitro			
Risg a Natur y Risg	Achos y Risg	Goblygiadau'r Risg	Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith	Rheolaethau Risg Presennol	Difrifoldeb	Tebygolrwydd	Sgôr	Status Presennol	Camau Gofynnol	Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu	Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau
1.5	Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â herio ffioedd rheolwyr, gwerth am arian ac amcanion gorffodol.	<ul style="list-style-type: none"> Diffyg gwybodaeth a thryloywder gan Reolwyr Buddsoddi. Anallu i wirio a herio Rheolwyr Buddsoddi a'u meincnodi o'u cymharu â chystadleuwyr yn y farchnad. 	Anallu i sicrhau gwerth am arian i randdelliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi / Cyngorydd Goruchwyllo 	<ul style="list-style-type: none"> Monitro ffioedd rheolwyr buddsoddi yn barhaus Holi'r Gweithredwr, y Rheolwr Buddsoddi a Rheolwyr Buddsoddi am eu ffioedd Mynnu tryloywder gan Reolwyr Buddsoddi, y Rheolwr Buddsoddi a'r Gweithredwr o ran ffioedd 	Presennol			Mae Cyngorydd Goruchwyllo Partneriaeth Pensiwn Cymru wrthi'n gweithio gyda'r Gweithgor Swyddogion i ddatblygu adroddiadau Rheolwyr Buddsoddi'r partneriaeth, ac mae meincnodi ffioedd yn rhan o'r cynllun datblygu hwn.	Cyngorydd Goruchwyllo	Bydd y Cyngorydd Goruchwyllo yn adrodd yn ôl i'r Gweithgor Swyddogion.
	2					2	4				
	Ariannol			Tymor Canolig		Targed				Ch4 2020	
	2	1	2			Presennol				Gweithgor Swyddogion	Amh.
1.6	Partneriaeth Pensiwn Cymru yn agored i risg parti i gontract	<ul style="list-style-type: none"> Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â monitro ei hamlygiad i bartion i gontractau a'r tebygolrwydd o ddiffyg daliadau bartion i gontractau. Ni roddir proses uwchgyfeirio addas i ymdrin ag amlygiad gormodol bartion i gontractau ar waith. 	Colled ariannol i asedau a ddelir o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru, costau cyfreithiol posibl, risg i enw da.	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi / Y Ceidwad 	<ul style="list-style-type: none"> Monitro amlygiad bartion i gontractau yn barhaus Holi'r Gweithredwr, y Rheolwr Buddsoddi, Rheolwyr Buddsoddi a'r Ceidwad am lefel amlygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru i bartion i gontractau 	Presennol					
	4					2	8				
	Ariannol			Byrdymor		Targed				Ch4 2020	
	4	2	8			Presennol			Bydd y Gweithredwr a'r Rheolwr Buddsoddi yn llunio mecanwaith ar gyfer gwerthuso a yw is-gronfeydd presennol yn dal i fod yn optimaidd ac wedi'u halinio â gofynion Awdurdodau Cyfansodol. Bydd hyn yn cael ei wneud yn flynyddol o leiaf.	Y Gweithredwr / Rheolwr Buddsoddi	Disgwylir y broses adolygu chwemisol gyntaf yn Ch4 2020.
1.7	Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithredu is-gronfeydd is-optimaidd.	<ul style="list-style-type: none"> Caiff amser ac adnoddau annigonol eu neilltuo i ddylunio a datblygu is-gronfeydd. Nid yw Awdurdodau Cyfansodol yn cyfleu eu gofynion yn effeithiol a/neu mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chymryd gofynion yr Awdurdodau Cyfansodol i ystyriaeth. Ni roddir ystyriaeth ddigonol i werth am arian a/neu arbedion cost. Caiff is-gronfeydd â graddfa annigonol i sicrhau arbediad cost eu lansio. Trafodaethau am ffioedd rheolwyr yn aneffeithiol. 	Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn darparu is-gronfeydd nad ydynt yn sicrhau gwerth am arian / arbediad cost a/neu ofynion buddsoddi'r Awdurdodau Cyfansodol	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi / Cyngorydd Goruchwyllo 	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio cyngorwyr niferus i greu is-gronfeydd Cyngorydd Goruchwyllo ar gael i oruchwyllo strategaeth fuddsoddi a dyluniad is-gronfeydd Archwiliadau cadw cydbwysedd niferus ar y broses o wneud penderfyniadau a chymeradwyo'r strategaeth fuddsoddi ac is-gronfeydd Cynhelir dadansoddiad cost a budd cyn lansio pob is-gronfa Defnyddio o raddfa'r Rheolwr Buddsoddi a graddfa Partneriaeth Pensiwn Cymru i gytuno ar y ffioedd gorau posibl i reolwyr Ymgynghori mynych gydag Awdurdodau Cyfansodol ar eu gofynion Dal ased y tu allan i is-gronfa os na fydd ei gynnwys yn yr is-gronfa yn effeithlon o ran cost 	Presennol					
	4					2	8				
	Ariannol			Hirdymor		Targed				Ch4 2020	
	4	1	4			Presennol			Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithio gyda'r Gweithredwr, y Rheolwr Buddsoddi, Rheolwyr Sylfaenol a'r Cyngorydd Goruchwyllo i wella adroddiadau'r bartneriaeth ar Fuddsoddi Cyfrifol a Risgiau yn Sgîl yr Hinsawdd. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i ba un a oes angen cyflenwyr trydydd parti ychwanegol.	Gweithgor Swyddogion	Bydd diweddariad ar gynnydd yn cael ei ddarparu ar y cyd â'r adolygiad blynyddol o Bolisi Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru.
1.8	Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â rhoi ystyriaeth ddigonol i'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgîl yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.	<ul style="list-style-type: none"> Diffyg gwybodaeth am effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgîl yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. Diffyg gwybodaeth am sut y gellir rheoli effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgîl yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. Presenoldeb gwael mewn digwyddiadau hyfforddi. 	Colled ariannol i asedau a ddelir o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r posibilrwydd o asedau sownd.	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi / Cyngorydd Goruchwyllo 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu metrigau adrodd addas ar y newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgîl yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu Penodi darparwr pleidleisio trwy ddirprwy ac ymgysylltu, sy'n ymgysylltu â rheolwyr a chwmnïau ar sut y maent yn rheoli'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgîl yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu Cyhoeddi Polisi Buddsoddi Cyfrifol a Pholisi Risgiau yn Sgîl yr Hinsawdd Ymgysylltu â rheolwyr a'u herio yn gyson ar sut y maent yn cymryd y newid yn yr hinsawdd / risgiau yn sgîl yr hinsawdd a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu i ystyriaeth Datblygu is-gronfeydd a fydd yn galluogi Awdurdodau Cyfansodol i reoli eu hamlygiad i risgiau yn sgîl yr hinsawdd 	Presennol					
	4					2	8				
	Ariannol			Hirdymor		Targed				Ch4 2020	
	4	1	4			Presennol				Gweithgor Swyddogion	Bydd diweddariad ar gynnydd yn cael ei ddarparu ar y cyd â'r adolygiad blynyddol o Bolisi Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru.
	4	1	4								

Manylion y Risg				Sefyllfa Bresennol	Sgoriau			Rheoli a Monitro			
Risg Natur y Risg	Achos y Risg	Goblygiadau'r Risg	Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith	Rheolaethau Risg Presennol	Difrifoldeb	Tebygolrwydd	Sgôr	Statws Presennol	Camau Gofynnol	Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu	Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau
I.9	<p>Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â hwyluso atebion buddsoddi sy'n gael eu hysgrifdu'n dda. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol i fodloni eu strategaeth a'u hamcanion buddsoddi.</p>	<ul style="list-style-type: none"> •Caiff amser ac adnoddau annigonol eu neilltuo i ymgysylltu ag anghenion a gofynion Awdurdodau Cyfansoddol a'u deall. •Nid yw Awdurdodau Cyfansoddol yn cyfleu eu gofynion yn effeithiol a/neu mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chymryd gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol i ystyriaeth. •Nid yw is-gronfeydd wedi'u dylunio yn unol â gofynion Awdurdodau Cyfansoddol. 	<p>Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gwrthod defnyddio'r ateb buddsoddi a ddarperir gan Partneriaeth Pensiwn Cymru. O'r herwydd, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyfuno asedau, a allai arwain at ymyrraeth y llywodraeth a/neu chwalu Partneriaeth Pensiwn Cymru.</p>	<p>Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi / Cyngorydd Goruchwyllo</p>	<ul style="list-style-type: none"> •Mae datblygu is-gronfeydd pellach yn eitem sy'n cael blaenoriaeth yng nghynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru • Ymgynghori aml ag Awdurdodau Cyfansoddol ar eu gofynion • Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ar addasrwydd parhaus is-gronfeydd presennol •Defnyddio cyngorwyr niferus i greu is-gronfeydd 	Presennol			<p>Bydd holiadur ymgynghori blynyddol yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr holiadur yn ceisio pennu gofynion buddsoddi unigol Awdurdodau Cyfansoddol a'u dyheadau tymor hwy.</p>	<p>Cyngorydd Goruchwyllo</p>	<p>Y Cyngorydd Goruchwyllo i ddriffio'r holiadur, a fydd yn cael ei gyflwyno gan yr Awdurdod sy'n Lletya.</p>
	Gweithredol / Enw Da	<ul style="list-style-type: none"> •Nid yw is-gronfeydd yn ddigon hyblyg nac yn gallu newid i fodloni gofynion Awdurdodau Cyfansoddol yn well. 	<p>Hirdymor</p>	<ul style="list-style-type: none"> •Cyngorydd Goruchwyllo ar gael i oruchwyllo strategaeth fuddsoddi a dyluniad is-gronfeydd •Archwiliadau cadw cydbwysedd niferus ar y broses o wneud penderfyniadau a chymeradwyo'r strategaeth fuddsoddi ac is-gronfeydd 	Targed		<p>5</p>				

Risg Llywodraethu a Rheoleiddio

Manylion y Risg				Sefyllfa Bresennol	Sgoriau			Rheoli a Monitro															
Risg a Natur y Risg	Achos y Risg	Goblygiadau'r Risg	Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith	Rheolaethau Risg Presennol	Difrifoldeb	Teblygolrwydd	Sgôr	Statws Presennol	Camau Gofynnol	Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu	Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau												
G.1	Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau perthnasol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymwybodol o reoliadau, canllawiau a diweddariadau diweddar a/neu mae'n eu hanwybyddu. Dim modd o fonitro cydymffurfiaid â rheoliadau. Camddehongli sut y mae rheoliadau a chanllawiau yn berthnasol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Adnoddau annigonol i fodloni gofynion canllawiau a rheoliadau, gan gynnwys Canllawiau Cyfuno. 	Dirwyon posibl, colli sofraniaeth, ac effaith negyddol ar enw da Partneriaeth Pensiwn Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y darperir hyfforddiant digonol Cynnal mecanwaith ar gyfer monitro newidiadau diweddar i reoliadau a chynnydd tuag at fodloni'r gofynion newydd Ymgysylltu â chyreff rheoleiddio perthnasol (fel Bwrdd Cyngori'r Cynllun, y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol) Penodi cyngorydd cyfreithiol arbenigol 	<table border="1"> <tr><th colspan="3">Presennol</th></tr> <tr><td>5</td><td>3</td><td>15</td></tr> <tr><th colspan="3">Targed</th></tr> <tr><td>5</td><td>2</td><td>10</td></tr> </table>			Presennol			5	3	15	Targed			5	2	10		Bydd yr Awdurdod sy'n Lletya yn cynnwys 'Diweddariadau Rheoleiddio a Llywodraethu' fel eitem reolaidd ar agenda'r Gweithgor Swyddogion (o dan Ddiweddariad yr Awdurdod sy'n Lletya). Bydd yr Awdurdod sy'n Lletya yn ymgynghori naill ai â'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol neu gronfeydd eraill Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol bob tri mis i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth barhaus a datblygiadau/newidiadau i reoliadau. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i ddisgwyl canllawiau cyfuno pellach.	Gweithgor Swyddogion	Bydd archwiliadau monitro pellach yn cael eu rhoi ar waith os oes eu hangen.
	Presennol																						
5	3	15																					
Targed																							
5	2	10																					
Gweithredol / Enw Da	Tymor Canolig	Ch1 2021																					
G.2	Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dod yn orddibynnol ar un person neu nifer gyfyngedig o bobl yn gwneud penderfyniadau neu gorff gwneud penderfyniadau.	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan nifer o bobl sy'n gwneud penderfyniadau neu gorff gwneud penderfyniadau fwlch gwybodaeth sy'n cyfyngu ar eu gallu i gyfrannu at / dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau. Mae adnoddau ac ymrwymiadau eraill yn cyfyngu ar argaeledd a mewnbwn pobl berthnasol sy'n gwneud penderfyniadau a chyreff gwneud penderfyniadau. Rhoddor grym gwneud penderfyniadau gormodol i nifer o bobl sy'n gwneud penderfyniadau neu gorff gwneud penderfyniadau, neu maent yn caffael y grym hwn. Lefelau crynodiad grym gwneud penderfyniadau na ellir ei chyfiawnhau. 	Rheolir Partneriaeth Pensiwn Cymru yn aneffeithlon. Caiff penderfyniadau amhriodol eu gwneud oherwydd diffyg her / trafodaeth / mewnbwn ac amrywiaeth o safbwyntiau.	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y darperir hyfforddiant digonol Penodi Cyngorydd Goruchwylio i gynghori ar strwythur llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru Caffael a defnyddio cyngorwyr a chyflenwyr allanol sy'n llywio/darparu cyfarwyddyd ac yn dod ag amrywiaeth o safbwyntiau i'r broses o wneud penderfyniadau Defnyddio strwythur llywodraethu sy'n sicrhau craffu digonol cyn cymeradwyo penderfyniadau 	<table border="1"> <tr><th colspan="3">Presennol</th></tr> <tr><td>3</td><td>2</td><td>6</td></tr> <tr><th colspan="3">Targed</th></tr> <tr><td>3</td><td>2</td><td>6</td></tr> </table>			Presennol			3	2	6	Targed			3	2	6		Amh.	Cyngorydd Goruchwylio	Amh.
	Presennol																						
3	2	6																					
Targed																							
3	2	6																					
Gweithredol	Hirdymor	Ch1 2021																					
